# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

## Beth yw'r Cyfryngau

### Ffurfiau Cyfryngau

#### Bwledi

- Mae'r cyfryngau'n cynnwys cyfryngau print, cyfryngau clyweled a seiber-gyfryngau digidol.
- Fel rheol, mae'r cyfryngau'n eiddo preifat a redir ar sail fasnachol, heblaw teledu a radio gwladol megis y BBC.
- Un o nodweddion seiber-gyfryngau digidol yw cydgyfeiriant sy'n golygu y gellir defnyddio sawl cyfrwng ar un platfform.

#### Testun

Mae'r cyfryngau torfol yn cyfeirio at y diwydiant cyfathrebu sy'n cyfleu gwybodaeth ac adloniant i gynulleidfaoedd mawr. Mae'r term cyfryngau'n cyfeirio at dechnoleg y cyfathrebu yn ogystal â'r sefydliadau sy'n ei gyflenwi drwy gynhyrchion megis papurau newydd, disgiau DVD a Facebook. Gall cyfryngau fod ar ffurf deunydd wedi'i argraffu, clyweled neu 'gyfryngau newydd' ar ffurf cynnwys seiber-gyfryngau a thechnolegau digidol (gweler pennod 6). Ffurf hynaf y cyfryngau yw cyfryngau print megis papurau newydd, cylchgronau a llyfrau. Mae'r math hwn o gyfryngau bron i gyd yn eiddo preifat a redir ar sail fasnachol. Daw refeniw o werthu a hysbysebu. Un newyddbeth diweddar yw twf papurau newydd rhad ac am ddim megis y Metro (sy'n eiddo i Associated Newspapers sydd hefyd yn cyhoeddi'r Daily Mail). Yn 2009, daeth y London Evening Standard (sy'n eiddo i'r dyn busnes o Rwsia, Alexander Lebedev) yn bapur rhad ac am ddim i ymateb i golli gwerthiant a chystadleuaeth gan ddau bapur newydd rhad ac am ddim arall yn Llundain.

Mae'r cyfryngau clyweled ar ffurf sinema, teledu a radio. Maent hefyd yn cynnwys cyfryngau megis CD, DVD a BD a theledu 'ar alw' (on demand). Eto, mae'r rhan fwyaf o'r math hwn o gyfryngau'n eiddo i gwmnïau preifat gyda'r nod o wneud elw masnachol. Fodd bynnag, mae gan Ewrop hanes maith o gwmnïau darlledu cyhoeddus sy'n eiddo i'r wlad; yr enwocaf o'r rhain yw'r BBC. Ym Mhrydain, mae Channel 4 hefyd yn eiddo i'r cyhoedd, ond yn wahanol i'r BBC caiff ei chyllid i gyd o hysbysebu ac mae'n cael cymorth ariannol gan y llywodraeth a ffi'r drwydded.

Mae'r cyfryngau digidol neu seiber-gyfryngau'n newydd, yn rhyngweithiol ac yn amrywiol eu natur. Un o'u nodweddion yw cydgyfeiriant sy'n golygu y gellir defnyddio sawl technoleg ar un platfform cyfryngau. Mae enghreifftiau'n cynnwys ffonau clyfar y gellir eu defnyddio ar gyfer e-bost, y rhyngrwyd, teledu, cerddoriaeth mp3, gemau ac amryfal 'apiau' (rhaglenni) gwasanaethau. Mae pobl hefyd yn rhyngweithio mwy â safleoedd rhwydweithio cymdeithasol megis Facebook a Twitter. Mae integreiddio cyfryngau digidol a seiber-gyfryngau'n dangos gallu cyd-dyriadau cyfryngau byd-eang i gynyddu eu gwerthiannau a'u helw drwy gysylltu technolegau â'i gilydd. Ar yr un pryd, mae'n gwneud y cyfryngau'n fwy hyblyg ac yn haws eu defnyddio i'r defnyddiwr. Ceir pryder na fydd pobl dlawd a rhai pobl hŷn yn cael eu cynnwys yn y chwyldro digidol hwn.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

## Cwestiynau

1. Beth yw'r tri math o gyfryngau torfol?
2. Pa duedd y gellir ei harsylwi ymysg rhai papurau newydd?
3. Pa grwpiau yr ystyrir eu bod mewn perygl o gael eu heithrio o dechnolegau cyfryngau newydd?

## Allweddeiriau

- Cyd-dyriadau - corfforaethau mawr sy'n deillio fel rheol o uno a throsfeddiannu nifer o gwmnïau.
- Cydgyfeiriant - derbyn sawl cyfrwng drwy un darn o dechnoleg megis ffôn clyfar.
- Seiber-gyfryngau - math newydd o gyfryngau sy'n defnyddio platfform y Rhyngrwyd.

## Defnyddio Cyfryngau

### Bwledi

- Mae technolegau cyfryngau newydd wedi newid defnyddio'r cyfryngau o fod yn broses oddefol i fod yn broses ryngweithiol.
- Mae'r cyfryngau wedi newid o fod yn ffynhonnell gwybodaeth i fwy o ffynhonnell dihangfa, adloniant a rhithwirionedd.
- Mae technoleg cyfryngau newydd yn adlewyrchu mwy o ddewis a mwy o ymdeimlad o reolaeth unigol.

### Testun

Mae'r cyfryngau wedi datblygu math newydd o berthynas â'u cynulleidfa. Yn y gorffennol, roedd y cyfryngau'n cael eu derbyn mewn modd goddefol gan fwyaf, ond erbyn hyn, gall unigolion ymgysylltu â'r cyfryngau mewn modd mwy rhyngweithiol. Mae hyn yn amrywio o bleidleisio ar raglenni teledu realaeth i archebu ffilmiau ar alw a hyd yn oed archebu pitsas wedi'u danfon i'r cartref drwy ddarparwyr teledu megis Sky a Virgin. Gall pobl gyfathrebu'n rhad ac am ddim ac yn sydyn â phobl eraill ledled y byd drwy e-bost neu wyneb yn wyneb gyda Skype. Mae'r Rhyngrwyd yn darparu cronfeydd adnoddau enfawr o ddata, clipiau ffilm (er enghraifft, YouTube) a'r rhan fwyaf o gerddoriaeth sydd wedi'i recordio drwy safleoedd megis Spotify.

Ffynhonnell gwybodaeth oedd ffurfiau cynharaf y cyfryngau (papurau newydd). Roeddent yn cael eu darllen gan y nifer fach o bobl addysgedig a allai ddarllen cyn i bobl gyffredin ddechrau cael addysg yn 1870. Wrth i ffurfiau cyfryngau eraill ddatblygu, roedd mwy o bobl yn defnyddio'r cyfryngau ar gyfer adloniant a hamdden, er enghraifft, radio, sinema a theledu. Mae papurau newydd poblogaidd hyd yn oed wedi dilyn y duedd hon. Er enghraifft, nid oes llawer o newyddion i'w gael yn y papurau newydd tabloid 'top coch' (Sun, Star a Mirror). Yn hytrach, mae'r rhan fwyaf o'u cynnwys yn arwynebol ar ffurf sibrydion am bobl enwog, sgandal, chwaraeon ac adloniant. Felly, hanes defnyddio'r cyfryngau yw rhoi gwybodaeth a chynnig adloniant a dihangfa o realaeth bywyd bob dydd. Mae hyn yn dal i fod yn wir hyd heddiw.

Wedi i'r technolegau cyfryngau newydd (digidol a rhyngweithiol yn aml) gyrraedd tua

© CBAC / WJEC 2015

diwedd yr ugeinfed ganrif, cyflwynwyd ffordd gwbl newydd o ddefnyddio'r cyfryngau. Mae cyfryngau digidol wedi dod â dewis arwyddocaol, megis twf anhygoel nifer y sianeli teledu a radio sydd ar gael. Fodd bynnag, dim ond rhan o'r stori yw amrywiaeth. Fel y dangosir ym mhennod 6, mae pobl bellach yn ymgysylltu â'r cyfryngau mewn modd mwy rhyngweithiol drwy gemau cyfrifiadurol neu fotwm coch rheolydd eu teledu. Gallant chwarae gemau cyfrifiadurol gyda dieithriaid neu ffrindiau o bob rhan o'r byd drwy gysylltu eu consolau gemau â'r Rhyngrwyd. Gall pobl ymgolli mewn rhith fydoedd drwy gemau cyfrifiadurol a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol a chreu hunaniaeth ddychmygol drwy gynhyrchu rhithffurf ar safleoedd megis Second Life. Mae datblygiad technoleg yn rhan bwysig iawn o'r ffordd y mae'r cyfryngau'n esblygu ac yn cael eu defnyddio gan ddefnyddwyr. Mae datblygiad ffonau clyfar yn golygu ei bod yn haws cael at y cyfryngau ym mhobman bron.

### Cwestiynau

1. Rhestrwch yr enghreifftiau o dechnoleg cyfryngau newydd yr ydych chi eich hun yn eu defnyddio.
2. I ba raddau y mae'r defnydd hwn o'r cyfryngau'n oddefol neu'n rhyngweithiol?
3. Ym mha ffyrdd y mae'r cyfryngau'n cynnig rhithwirionedd?

### Allweddeiriau

- Rhithffurfiau - delweddau o gymeriadau ar gyfrifiaduron sy'n aml wedi'u delfrydu neu'n gartwnau o bobl go iawn.
- Amrywiaeth - y dewis o wahanol bethau sydd ar gael yn y cyfryngau
- Papurau newydd tabloid - mae tabloid yn cyfeirio at faint bach y dudalen, ond mae'r papurau newydd hyn yn tueddu i gynnwys llai o newyddion difrifol a mwy o gynnwys am adloniant a chynnwys dihangfaol.
- Papurau newydd argrafflen - mae argrafflen yn cyfeirio at faint y dudalen - dwywaith maint papurau newydd tabloid fel rheol. Gelwir y rhain hefyd yn bapurau 'safonol' am eu bod yn cynnwys mwy o newyddion ac yn ei ddadansoddi'n ddyfnach.

## Newidiadau mewn Technoleg Cyfryngau

### Bwledi

- Gellir rhannu'r cyfryngau'n gyfleus yn hen dechnolegau a thechnolegau newydd.
- Roedd y ddarpariaeth a'r dewis cul a gynigiwyd gan y cyfryngau yn y gorffennol yn atgyfnerthu'r syniad bod y gynulleidfa'n homogenaidd.
- Mae'r cyfryngau newydd yn amlwg yn cynnig mwy o ddewis i'r gynulleidfa ac mae eu natur dameidiog yn awgrymu bod gan unigolion fwy o ddewis dros sut i'w defnyddio.
- Mae cysyniad McLuhan, y 'pentref byd-eang', yn drosiad defnyddiol am gynnydd posibiliadau cyfranogol y Rhyngrwyd.

### Testun

Gellir rhannu'r cyfryngau'n hen gyfryngau a chyfryngau 'newydd'. Mae hen gyfryngau'n cyfeirio at y ffurfiau traddodiadol megis papurau newydd a sianeli teledu a radio daearol. Un o nodweddion yr hen gyfryngau oedd dewis cyfyngedig i ddefnyddwyr. Er enghraifft,

© CBAC / WJEC 2015

nes i Channel 4 gael ei lansio yn 1982, dim ond tair sianel deledu oedd ar gael. Nid oedd Cymru'n derbyn Channel 4 yn swyddogol nes i drosglwyddydd Gwenfô gael ei drosi'n ddigidol mor ddiweddar â 2010. Drwy'r ddarpariaeth a'r dewis cyfyngedig hwn, roedd trosglwyddo gwybodaeth a negeseuon y cyfryngau'n broses unffordd, i bob pwrpas. Tybiwyd hefyd bod y gynulleidfa'n homogenaidd. Hynny yw, bod ganddynt nodweddion tebyg i'w gilydd o ran chwaeth, agweddau a gwerthoedd. Mae hyn yn amlwg yn naïf, ond fel syniad, helpodd i lunio rhai o'r modelau cynulleidfa y byddwn yn eu hastudio ym Mhennod 5.

Mae newidiadau mewn technoleg cyfryngau'n amlwg wedi trawsnewid natur y cyfryngau a sut y cânt eu defnyddio. Darperir cyfryngau newydd yn bennaf, ond nid yn llwyr, ar sgriniau. Er enghraifft, mae papurau newydd a chylchgronau print yn dal i fod yn rhan bwysig o drefn ddyddiol pobl. Fodd bynnag, mae cynnwys pob papur newydd mawr ar gael yn ddigidol yn ogystal ag yn y fersiwn argraffedig. Yn 2010, ceisiodd cwmni Rupert Murdoch, News International, gael refeniw o e-bapurau newydd drwy godi tâl am ddarllen The Times a'r Sunday Times ar-lein.

Mae Lister et al. (2003) wedi enwi pump o nodweddion technoleg cyfryngau newydd: mae'n ddigidol, yn rhyngweithiol, yn hyperdestunol, yn wasgaredig ac yn rhithwir. Mae'r nodweddion hyn yn dangos yn amlwg y gwahaniaeth rhwng technoleg cyfryngau newydd a hen ffurfiau cyfryngau. Ystyrir hefyd bod gan y cyfryngau nodweddion mwy byd-eang. Mor gynnar â'r 1960au, roedd y damcaniaethwr cyfryngau o UDA, Marshall McLuhan, yn trafod cysyniad y 'pentref byd-eang'. Roedd yn sôn am allu cynyddol technoleg newydd i oresgyn amser a phellter. Mae syniad y pentref byd-eang yn drosiad defnyddiol er mwyn deall newidiadau i'r cyfryngau dros y degawdau diwethaf. Yn ddiweddar, mae'r term wedi cael ei groesawu gan ôl-fodernwyr a phobl â barn gadarnhaol am y cyfryngau (megis amlblwyfyddion) i ganmol y ffordd y mae'r Rhyngrwyd yn arbennig yn dod â phobl at ei gilydd mewn seiber-gymunedau.

Mae Howard Rheingold (1995) yn credu bod y Rhyngrwyd yn ddewis gwahanol ac adfywiol o gymharu â'r cyfryngau modern sy'n seiliedig ar elw. Mae'n credu ei bod yn cynnig mynediad rhyngweithiol agored o gymharu â negeseuon torfol cyfryngau print a chlyweled. Mae'n ei disgrifio fel 'fforwm electronig' ble gellir 'atgynhyrchu barn y cyhoedd wrth i ddinasyddion gymryd rhan mewn dadl resymegol' (dyfynnwyd yn McKay, 2004). Mae gan Rheingold ddiddordeb arbennig mewn sut y mae technoleg cyfryngau newydd yn galluogi strwythurau newydd a democratig sy'n heibiadu'r cyfryngau sefydledig. Mae'n cynnig dewis arall i'r ffordd y mae sefydliadau cyfryngau a llywodraethau'n dylanwadu ar gynnwys newyddion a barn pobl drwy hysbysebu, cysylltiadau cyhoeddus a rheoli gwybodaeth. Fodd bynnag, byddai nifer o Farcswyr yn credu bod y farn hon am y Rhyngrwyd yn or-syml ac yn naïf. Byddent yn nodi bod y rhan fwyaf o bobl yn mynd ar y rhyngrwyd drwy safleoedd porth busnesau mawr megis MSN neu Yahoo. Mae'r safleoedd hyn hefyd yn rhoi crynodebau o'r newyddion felly maent yn helpu i reoli barn pobl a rheoli'r wybodaeth sydd ar gael i bobl.

## Cwestiynau

1. Beth yw ystyr yr hen gyfryngau (traddodiadol)?
2. Beth yw pum nodwedd technoleg cyfryngau newydd yn ôl Lister et al.?
3. Beth yw ystyr 'pentref byd-eang' McLuhan?

© CBAC / WJEC 2015

4. Pam mae Marcswyr yn llai gobeithiol am allu'r Rhyngrwyd i ddatblygu rhwydweithiau electronig newydd sy'n heibiadu sefydliadau sefydledig?

### Allweddeiriau

- Digidol - y dull modern o drosi delweddau, sain a thestun yn god deuaidd; cynnig mwy o ddewis a chysondeb ansawdd rhwng platfformau cyfryngau.
- Pentref byd-eang - term a fathwyd gan McLuhan i gyfeirio at seiber-gymunedau sydd ar gael dros y Rhyngrwyd.
- Hyperdestunol - y dolenni gwe electronig sy'n hyrwyddo defnydd mwy unigol a rhyngweithiol o'r cyfryngau gan unigolion.
- Rhyngweithiol - gall unigolion ymgysylltu â thechnoleg cyfryngau newydd mewn modd personol sy'n cynnig mwy o ddewis o gymharu â ffordd oddefol y gorffennol o ddefnyddio'r cyfryngau.
- Amlblwyfyddion - safbwynt damcaniaethol, yn agos at swyddogaetholdeb, sy'n ystyried bod cymdeithas wedi'i gwneud o wahanol grwpiau a bod y cyfryngau'n darparu allbwn amrywiol i fodloni eu gwahanol ddiddordebau a gwerthoedd.
- Rhithwir - gall unigolion ymgolli mewn bydoedd rhithwir afreal megis gemau cyfrifiadurol neu fyd ffug Second Life.

## Dyfodol y Cyfryngau

### Bwledi

- Mae'r Rhaniad Digidol yn cyfeirio at bolareiddio cymdeithas rhwng pobl sydd wedi'u grymuso'n ddigidol a phobl ddigidol dlawd.
- Rhagwelir y daw technoleg symudol yn fwy a mwy anweladwy wrth iddi wau ei hun i ffabrig bywyd bob dydd.
- Drwy'r chwyldro digidol, rydym yn dechrau gweld diwedd gwahaniaethu ar sail oed o ran defnyddio cyfryngau.
- Mae gan Farcswyr ac eraill wahanol farn am swydd gaeth y cyfryngau yn y dyfodol.

### Testun

Nid yw cymdeithaseg yn edrych i'r dyfodol fel rheol, ond gellir gwneud rhai rhagfynegiadau clir am y dyfodol o edrych ar sut y defnyddir y cyfryngau ar hyn o bryd. Fel unigolion, rydym yn gwneud mwy a mwy i bersonoli'r ffordd yr ydym yn defnyddio'r cyfryngau. Er enghraifft, mae'r ffaith bod mwy a mwy o bobl yn berchen ffonau clyfar yn golygu, ar draws gwahanol leoliadau, bod anghenion electronig unigolion (megis darparu apiau personol iddynt) yn cydgyfeirio â gweithgareddau ar-lein megis e-bost a chwilio ar y Rhyngrwyd. Y gwahaniaeth rhwng y dyfodol a'r presennol yw y bydd technoleg ffonau clyfar yn anweladwy o ran y ffordd y bydd yn gwau ei hun i ffabrig bywyd bob dydd nes na fydd modd gwahaniaethu'r ddau. Fodd bynnag, ceir perygl o raniad digidol rhwng pobl sydd wedi'u grymuso'n ddigidol a phobl 'ddigidol dlawd'; pobl na allant fforddio technolegau cyfryngau newydd.

Swyddogaeth arall y cyfryngau yn y dyfodol fydd dileu syrffed. Disgrifiwyd cymdeithas ôl-fodern fel bod yn fwyfwy arwynebol heb ddim dyfnder iddi. Felly, mae pobl yn gyson yn chwilio am adloniant ac yn llenwi'r mannau gwag yn eu bywydau â chynnwys. Mae cyfryngau symudol yn cynnig hyn, p'un a yw pobl mewn lifft neu ar drên neu hyd yn oed yn yr ystafell ymolchi. Mae'n debygol y bydd y ffôn symudol hefyd yn ffrwd gyson o

wybodaeth, boed hynny'n borthiannau newyddion, canlyniadau chwaraeon, negeseuon Facebook neu drydar gan ffrindiau neu bobl enwog.

Wrth i ddefnyddio'r technolegau newydd hyn gael ei drwytho a dod yn gyd-ddibynnol, maent yn newid y ffordd yr ydym yn byw ac yn rhyngweithio â'n gilydd. Er enghraifft, rydym yn dechrau gweld diwedd gwahaniaethu ar sail oed o ran defnyddio cyfryngau. Er enghraifft, mae defnyddio ffonau symudol, chwarae gemau ac ymddygiad digidol erbyn hyn gan fwyaf yn weithgareddau mwyafrifol ar draws pob grŵp oedran. Fodd bynnag, fel y nodir uchod, ceir pryder am bobl 'ddigidol dlawd'.

Mae Marcswyr yn pryderu y bydd tueddiadau ôl-fodern yn y cyfryngau'n arwain at boblogaeth sy'n fwy arwynebol ac anwybodus. Er enghraifft, gyda mwy o sianeli mae'n haws osgoi rhaglenni newyddion, gyda nifer o bobl yn credu eu bod yn ddiflas ac yn anniddorol. Mae'r rhan fwyaf o sianeli newyddion 24 awr, hyd yn oed, yn dewis chwarae dolen 30 munud o benawdau ac ychydig iawn o fanylion neu sylwadau am y straeon newyddion hyn. Mae Marcswyr hefyd yn pryderu y bydd mwy a mwy o ddefnyddwyr yn dewis cynnwys dihangfaol neu'n cael eu bwydo â diet o wybodaeth nad yw'n gwneud dim ond atgyfnerthu'r status quo. Fodd bynnag, gallai ôl-fodernwyr ac amlblwyfyddion ddadlau bod cefnogaeth boblogaidd i deledu realaeth, operâu sebon a chaneuon pop yn darparu seiber-fondio sy'n gwneud i ddinasyddion deimlo'n gyfforddus gyda'i gilydd. Gwelsom hefyd yn 'chwyldroadau Arab' 2011 sut y llwyddodd gwybodaeth ar y Rhyngrwyd a rhwydweithio cymdeithasol i uno pobl gan arwain at gael gwared â rhai unbeniaid a hybu newid cymdeithasol.

### Cwestiynau

1. Ym mha ffyrdd y mae unigolion yn gwneud mwy a mwy i bersonoli'r ffordd y maent yn ymgysylltu â'r cyfryngau?
2. Ym mha ffyrdd y mae pobl yn defnyddio'r cyfryngau mewn cymdeithas ôl-fodern?
3. Amlinellwch safbwyntiau pesimistaidd ac optimistaidd am y cyfryngau yn y dyfodol.

### Allweddeiriau

- Chwyldroadau Arab - gwrthryfeloedd y bobl yn 2011 mewn gwledydd megis Tunisia a'r Aifft i ddymchwel eu harweinwyr.
- Seiber-fondio - y syniad bod rhith gymunedau'n datblygu o ymgysylltu rhwng pobl a'r cyfryngau.
- Unben - arweinydd sy'n rheoli drwy ormes.
- Rhaniad digidol - gwahaniaethau mewn mynediad at y cyfryngau newydd ymysg gwahanol grwpiau cymdeithasol.
- ôl-foderniaeth - safbwynt damcaniaethol sy'n dadlau y bu newid diwylliannol arwyddocaol ers cymdeithas ddiwydiannol gan achosi mwy o unigoliaeth, dewis ac amrywiaeth.
- Status quo - Lladin am gadw pethau fel y maent.

## Hollbresenoldeb a'r Cyfryngau

### Bwledi

© CBAC / WJEC 2015

- Mae ffonau clyfar wedi chwarae rhan bwysig mewn gwneud y cyfryngau'n hollbresennol.
- Mae'r chwyldro digidol wedi cynnig mwy o ddewis drwy amrywiaeth helaeth ei allbwn.
- Ar y llaw arall, mae pesimistiaid yn galw'r broses hon yn imperialaeth ddiwylliannol i bwysleisio ei heffaith fyd-eang a natur Americanaidd y rhan fwyaf o gynnwys y cyfryngau.

## Testun

Dangosodd yr adran flaenorol y ceir dadleuon pwysig am yr effaith y gall y cyfryngau ei chael ar gymdeithas gyfoes a chymdeithas y dyfodol. Yn y gorffennol, byddai pobl yn defnyddio'r cyfryngau fesul dogn bach: efallai y byddent yn darllen y papur newydd yn ystod y dydd, yn gwylio'r teledu gyda'r nos ac yn mynd i'r sinema unwaith yr wythnos. Erbyn hyn, mae'r cyfryngau'n hollbresennol, sy'n golygu eu bod yn bresennol ym mhobman drwy'r amser. Cafwyd llawer o drafodaeth hyd yn hyn am ffonau clyfar; y rheswm am hyn yw eu bod yn chwyldroi sut, pryd a ble y gallwn gael mynediad at gymaint o gynnwys cyfryngau heddiw. Mae amlblwyfyddion yn dadlau na all hyn ond bod yn beth da, gan ei fod yn cynyddu dewisiadau ac amrywiaeth darpariaeth y cyfryngau.

Mae'r bobl sydd â barn gadarnhaol ac optimistaidd am y cyfryngau hollbresennol yn credu bod y chwyldro digidol wedi cynnig mwy o ddewis drwy amrywiaeth helaeth ei allbwn. Maent yn nodi'r amrywiaeth o sianeli teledu a radio digidol, neu hyd yn oed yr amrywiaeth eang o gylchgronau print sydd ar gael mewn siopau yng nghanol trefi neu i'w harchebu drwy'r post. Fel y nodwyd eisoes, mae gan niferoedd sylweddol o'r boblogaeth safle rhwydweithio cymdeithasol neu maent yn perthyn i seiber-gymunedau eraill. Heddiw, gall pobl gael symiau enfawr o wybodaeth drwy'r Rhyngrwyd a gallant ei chael yn symudol gyda ffôn clyfar.

Mae'r bobl sydd â barn negyddol am y cyfryngau hollbresennol yn credu eu bod yn hyrwyddo gwerthoedd diwylliannol Gorllewinol (ac Americanaidd yn benodol) yn fyd-eang. Galwyd y broses hon yn imperialaeth ddiwylliannol i bwysleisio ei heffaith fyd-eang. Ystyrir bod corfforaethau trawswladol sy'n berchen ar y technolegau newydd (megis Microsoft, Yahoo a News Corporation) mor gyfoethog a phwerus nes bod rhai'n credu eu bod yn fygythiad i ddemocratiaeth hyd yn oed. Er enghraifft, galwodd cyn-olygydd y Times Rupert Murdoch yn 'rhith Brif Weinidog' pan oedd Margaret Thatcher yn Brif Weinidog yn y 1980au: 'Roedd Murdoch a Mrs Thatcher yn ymgynghori'n rheolaidd am bob mater polisi pwysig'. Y ddadl yw, gan fod Murdoch yn berchen ar ddarn mor bwysig a dylanwadol o gyfryngau Prydain (gan gynnwys y Sun, The Times, Sunday Times, News of the World a Sky TV) nad yw unrhyw lywodraeth am ei bechu, sy'n awgrymu ei fod yn cael beth bynnag yr hoffai. Yn olaf, wrth ymateb i'r hawliad bod y chwyldro digidol yn rhoi mwy o ddewis i bobl, mae pesimistiaid yn dadlau bod y dewis yn arwynebol gan fwyaf. Er mwyn denu gwylwyr i gael refeniw hysbysebu, ystyrir bod y cyfryngau'n 'gorsymleiddio'. Dadl Neil Postman (1996) yw bod newyddion go iawn yn cael ei wanedu i fformat sy'n fwy o adloniant - ei enw ar hyn oedd 'infotainment'. Ei farn ef yw bod hwn wedi'i ddominyddu gan ddiwylliant pobl enwog a straeon sy'n creu cyffro heb lawer o newyddion cadarn.

## Cwestiynau

© CBAC / WJEC 2015

1. Ym mha ffyrdd y mae'r ffôn clyfar wedi gwneud y cyfryngau'n hollbresennol?
2. Ym mha ffyrdd y mae'r cyfryngau wedi cynyddu dewis defnyddwyr?
3. Sut y gellir herio dewis cyfryngau fel dewis ffug?

### Allweddeiriau

- Imperialaeth ddiwylliannol - seilio negeseuon y cyfryngau ar werthoedd Gorllewinol ac Americanaidd yn benodol; gall hyn orlethu normau a gwerthoedd lleol.
- Gorsymleiddio - yr arfer o ostwng ansawdd cyfryngau er mwyn apelio at gynulleidfaoedd ehangach.

## Newidiadau mewn perchnogaeth a rheolaeth o'r cyfryngau

### Cyfryngau mwy a mwy byd-eang

### Bwledi

- Mae'r cyfryngau wedi magu nodweddion mwy a mwy byd-eang, gan gael eu dominyddu gan uwchgwmnïau byd-eang.
- Fodd bynnag, mae llawer o gyfryngau'n cael eu cynhyrchu'n lleol o hyd, ac ymddengys bod defnyddwyr yn gwrthsefyll darlledu byd-eang i raddau.
- Nid yw llif cynnwys byd-eang yn unffordd; gellir ystyried ei fod yn broses ddwy ffordd.
- Mae pobl yn defnyddio'r cyfryngau i gyfathrebu â'i gilydd yn lleol ac yn fyd-eang.

### Testun

Yn draddodiadol, roedd y rhan fwyaf o wledydd yn datblygu eu cyfryngau eu hunain, drwy bapurau newydd cenedlaethol, cylchgronau a sianeli teledu a radio gwladol. Er bod y nodwedd hon yn dal i fodoli yn yr unfed ganrif ar hugain, mae newidiadau arwyddocaol yn digwydd. Mae'r cyfryngau wedi magu nodweddion mwy a mwy byd-eang. Heddiw, caiff y cyfryngau eu dominyddu gan uwch gwmnïau mawr sydd wedi dod yn gorfforaethau byd-eang gan ddominyddu marchnad cyfryngau'r byd. Mae enghreifftiau'n cynnwys Sony, Disney, Time-Warner-AOL a News Corporation. Mae'r newid byd-eang hwn wedi arwain Thomas McPhail (1981) i ddefnyddio'r term 'gwladychu electronig' i ddisgrifio sut y mae gwerthoedd Americanaidd yn 'treiddio'n ddiwylliannol' i wledydd ledled y byd. Galwyd y broses hon hefyd yn 'Hollywoodeiddio', sy'n adlewyrchu'r ffaith bod cymaint o ffilmiau byd-eang yn cael eu gwneud yn UDA ac yn adlewyrchu gwerthoedd Americanaidd. Yn ogystal â hyn, mae nifer enfawr o amserlenni teledu'r byd nawr yn cynnwys rhaglenni teledu wedi'u gwneud yn UDA. Er gwaethaf y ffaith bod diwylliant UDA yn dominyddu'r byd fel hyn, mae BBC Worldwide, is-gwmni sy'n eiddo'n llwyr i'r BBC, hefyd yn un o brif gwmnïau'r byd ac roedd ganddo refeniw dros £1 biliwn yn 2009/10. Mae Awstralia a Seland Newydd hefyd wedi cyfrannu at gyfryngau byd-eang drwy eu diwydiannau ffilm a rhaglenni teledu megis Neighbours.
Mae rhai gwledydd wedi ceisio gwrthsefyll yr ymosodiad byd-eang hwn gan ddiwylliant Americanaidd drwy amddiffyn eu cyfryngau eu hunain. Er enghraifft, mae gan Ffrainc gwotâu gofynnol o ffilmiau a gynhyrchwyd yn Ffrainc sy'n gorfod bod ar gael mewn sinemâu, yn ogystal â chwota gofynnol o gerddoriaeth o Ffrainc sy'n gorfod cael ei

chwarae ar sianeli radio cerddorol. Ceir rhywfaint o dystiolaeth hefyd o farchnadoedd lleol yn gwrthsefyll cynnwys byd-eang. Er enghraifft, mae Mackay (2004) yn nodi sut y bu'n rhaid i MTV Europe a chwmni teledu Star yn India ddarparu llawer mwy o ddeunydd a gynhyrchwyd yn ddomestig wedi i ddefnyddwyr wrthod darlledu byd-eang. Mae'n disgrifio hefyd sut yr ystyrir bod BSkyB yn gwmni Prydeinig sy'n rhoi newyddion Prydeinig, er ei fod yn rhan o ymerodraeth fyd-eang Rupert Murdoch. Mae hyn er gwaethaf y ffaith y gellir ei dderbyn ledled Ewrop a'i fod yn cael ei drawsyrru o loeren yn Luxembourg. Cafwyd twf hefyd mewn sianeli ieithoedd lleol arbenigol megis S4C (Cymraeg) a BBC Alba (Gaeleg). Gellid ystyried bod y rhain yn mynd yn groes i duedd globaleiddio drwy ganolbwyntio ar ieithoedd lleol.

Mae Mackay (2004) hefyd yn nodi her ddiddorol arall i thesis Americaneiddio. Mae'n nodi nad yw llif diwylliant byd-eang yn unffordd yn unig. Er enghraifft, mae gan telenovas a wnaethpwyd yn America Ladin farchnad sylweddol yn UDA ac mewn gwledydd Ewropeaidd megis Portiwgal a Sbaen. Mae cerddoriaeth y byd yn enghraifft arall o lif diwylliannol sylweddol yn mynd i'r cyfeiriad arall. Mae hefyd yn bwysig gwahaniaethu rhwng mathau o raglenni. Er enghraifft, er bod UDA yn allforio llawer iawn o ffuglen, nid yw'n cynhyrchu llawer o raglenni dogfen o gwbl. Mae'n wir hefyd mai rhaglenni a gynhyrchwyd yn ddomestig ledled y byd sy'n tueddu i gael y cynulleidfaoedd uchaf a chael eu dangos ar yr oriau gwylio brig. Mae nifer o fewnforion o'r UDA yn rhad ac fe'u defnyddir i lenwi slotiau amser llai poblogaidd.

Mae perchenogaeth y cyfryngau torfol drwy ddatblygu uwchgwmnïau cyfryngau mawr yn cadarnhau rhagfynegiad Karl Marx y bydd cwmnïau'n trosfeddiannu ac yn uno, gan symud yn fwyfwy tuag at sefyllfa o fonopoleiddio. Mae Ben Bagdikian (2004) yn adlewyrchu'r crynodiad cyflym hwn o gorfforaethau cyfryngau drwy nodi mai dim ond saith cwmni cyfryngau mawr sy'n dominyddu yn UDA: Time-Warner-AOL, Disney (ABC), News Corporation, Sony, Bertelsmann, Viacom (CBS) a General Electric (NBC). Ar lefel unigol, mae pobl yn defnyddio cyfryngau byd-eang megis e-bost, Skype, Facebook a Twitter.

### Cwestiynau

1. Beth yw ystyr termau megis 'gwladychu electronig' a 'Hollywoodeiddio'?
2. Pa dystiolaeth sy'n bodoli o rywfaint o wrthsefyll cyfryngau byd-eang?
3. Sut y gellir ystyried bod llifoedd diwylliannol yn broses dwy ffordd?

### Allweddeiriau

- Gwladychu electronig - term sy'n disgrifio natur imperialaidd a dominyddol cyfryngau'r Gorllewin.
- Telenovas - operâu sebon wedi'u gwneud yn America Ladin.

## Integreiddio

### Bwledi

- Mae integreiddio llorweddol yn golygu bod cwmnïau cyfryngau'n berchen ar amrywiaeth eang o gyfryngau.
- Mae integreiddio fertigol yn golygu trosfeddiannu cwmnïau cyfryngau eraill yn y gadwyn gynhyrchu, naill ai'n gyflenwyr uwchlaw neu'n gwmnïau islaw.
- Mae cwmni Rupert Murdoch, News Corporation, yn rhoi enghraifft dda o integreiddio llorweddol a fertigol.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

## Testun

Mae integreiddio'n cyfeirio at arfer cwmnïau cyfryngau o fod yn berchen ar amrywiaeth o gwmnïau cyfryngau eraill hefyd. Mae integreiddio llorweddol yn golygu bod yn berchen ar amrywiaeth eang o blatfformau cyfryngau, megis cwmnïau papurau newydd, teledu a ffilm. Gellir cyflawni hyn drwy ehangu mewnol neu drwy uno a throsfeddiannu cwmnïau cyfryngau eraill. Mae buddiannau integreiddio llorweddol yn cynnwys darbodion maint a mwy o bŵer yn y farchnad o ganlyniad i gynyddu maint yr uwchgwmni cyfryngau. Mae integreiddio fertigol hefyd yn golygu uno a throsfeddiannu cwmnïau cyfryngau eraill, ond yn yr achos hwn, targedir cyflenwyr uwchlaw neu gwmnïau sy'n gysylltiedig â chynulleidfaoedd islaw. Y pwrpas yma yw cynyddu elw drwy ddefnyddio un cwmni i hyrwyddo un arall. Gelwir y broses hon yn synergedd, ble defnyddir un cwmni cyfryngau i hyrwyddo un arall mewn modd ffafriol. Felly, er enghraifft, mae Time-Warner AOL yn gwneud ffilmiau ac yna'n eu dosbarthu drwy eu cadwyn eu hunain o sinemâu.

Un enghraifft o integreiddio llorweddol yw Rupert Murdoch yn ehangu News Corporation sy'n disgrifio ei hun fel 'clwstwr o fusnesau cyfryngau'. Mae News Corporation yn cynnwys cyfanswm o dros 800 cwmni'n fyd-eang. Mae'r rhain yn cynnwys cynhyrchu a dosbarthu ffilmiau sinema (Twentieth Century Fox) a rhaglenni teledu (Sky TV a Fox Channels yn UDA); darlledu lloeren (BSkyB yn Ewrop a Star TV ar draws Asia); darlledu Cebl (UDA); papurau newydd (175 o wahanol bapurau newydd yr wythnos yn y DU, Awstralia, Seland Newydd, Fiji, Papua New Guinea ac UDA); cylchgronau (e.e. Vogue); cyhoeddi llyfrau (Harper-Collins) a'r safle rhwydweithio cymdeithasol (MySpace). Mae ymerodraeth News Corporation Murdoch mor fawr nes y gall gymorthdalu un cynnyrch ag arian un arall er mwyn cynyddu ei gyfran o'r farchnad. Un enghraifft o hyn oedd gostwng pris The Times yn 1994 i 20c yn unig. O ganlyniad i'r pris aneconomaidd hwn, cododd gwerthiannau 15% mewn wythnos ac roedd nifer o bobl yn ei weld fel ymdrech i ddiweddu busnes yr Independent, papur newydd a oedd yn cystadlu yn ei erbyn.

Mae arwahanu fertigol yn cynnwys rheoli pob agwedd ar y diwydiant cyfryngau er mwyn traws-hyrwyddo a hysbysebu cynhyrchion a gwasanaethau er mwyn cynyddu elw. Mae'n integreiddio'r cyfryngau hyn er mwyn hyrwyddo a hysbysebu ei gilydd. Felly, er enghraifft, defnyddiodd Rupert Murdoch ei bapur newydd y Sun i farchnata Sky TV a chynyddu ei gronfa o gwsmeriaid pan oedd y cwmni'n newydd. Yn gyflym, sefydlodd gyfran o'r farchnad na allai'r cwmni teledu lloeren a oedd yn cystadlu yn ei erbyn, BSB, gystadlu ag ef; unodd y ddau gwmni i greu BSkyB. Felly, gall integreiddio fertigol naill ai godi rhwystrau i fynediad neu gynnig potensial i gau cystadleuwyr allan os oes gan gwmni bŵer yn y farchnad.

## Cwestiynau

1. Beth yw ystyr integreiddio llorweddol yn y cyfryngau?
2. Beth yw ystyr integreiddio fertigol yn y cyfryngau?
3. Sut y gall integreiddio llorweddol a fertigol gyda'i gilydd gynyddu pŵer yn y farchnad a lleihau cystadleuaeth yn y cyfryngau?

## Allweddeiriau

© CBAC / WJEC 2015

- Darbodion maint - term economaidd sy'n disgrifio sut mae costau cyfartalog yn gostwng wrth i faint cwmni gynyddu.
- Synergedd - pan mae dau neu fwy o gynhyrchion cyfryngau'n cydweithio i hysbysebu neu hyrwyddo ei gilydd yn rhad.

## Cyfryngau Gwladol

### Bwledi

- Ym Mhrydain, mae PSB yn cyfeirio at weithredoedd y BBC a Channel 4.
- Er y rhoddir annibyniaeth wleidyddol i'r BBC, mewn nifer o wledydd, defnyddir cyfryngau sy'n eiddo i'r wlad i fynd ati'n amlwg i hyrwyddo propaganda'r llywodraeth.
- Fel rheol, mae amlblwyfyddion o blaid PSB gan ei fod yn rhoi mwy o ddewis ac yn aml yn darparu ar gyfer diddordebau lleiafrifol.
- Fel rheol, mae Marcswyr yn beirniadu PSB, gan ddweud ei fod yn adlewyrchu'r un gwerthoedd â chyfryngau masnachol, gan hyrwyddo buddiannau cyfalafiaeth yn gyffredinol.
- Ym Mhrydain, ystyrir bod y BBC, er mwyn cyfiawnhau ffi'r drwydded, yn darparu adloniant ar gyfer diwylliant torfol ac yn cael ei redeg mewn modd mwy a mwy masnachol.
- Mae refeniw blynyddol y BBC bron yn hanner refeniw blynyddol BSkyB.

### Testun

Fel rheol, mae cyfryngau gwladol yn golygu sianeli teledu a radio sy'n eiddo i'r cyhoedd, megis y BBC. Fodd bynnag, mewn rhai gwledydd, yn enwedig rhai â llywodraethau totalitaraidd neu unbeniaid, gall y wlad hefyd reoli papurau newydd. Mewn gwledydd o'r fath, mae'r cyfryngau'n tueddu i fod wedi'u llywio mewn modd amlwg, ond nid yw hyn yn wir fel rheol mewn gwledydd democrataidd. Er enghraifft, mae'r BBC ym Mhrydain yn falch o fod yn wrthrychol ac yn wleidyddol niwtral. Yn wir, mae'r rhan fwyaf o lywodraethau Ceidwadol a Llafur wedi cyhuddo'r BBC o ddangos tuedd yn eu herbyn. Er bod Darlledu Gwasanaethau Cyhoeddus (PSB) ym Mhrydain yn cyfeirio gan fwyaf at weithredoedd y BBC, mae hefyd yn cynnwys Channel 4 sy'n eiddo i'r cyhoedd ond a redir yn fasnachol ar refeniw hysbysebu. Mae'r BBC hefyd yn darparu BBC Alba (gorsaf teledu Gaeleg yn yr Alban) ac yn ddiweddar cymerodd awenau'r sianel Gymraeg S4C.

Mae swyddogaeth PSB ym Mhrydain yn destun dadleuon gwleidyddol. Mae amlblwyfyddion fel rheol o blaid PSB, gan ystyried ei fod yn rhoi cydbwysedd i gyfryngau masnachol/annibynnol gan ddarparu ar gyfer pob marchnad, nid dim ond rhai proffidiol. Felly, mae'r BBC yn darparu sianeli radio i gynulleidfaoedd cymharol fach na fyddent o reidrwydd yn gwneud synnwyr masnachol i ddarparwr annibynnol: Radio 3 (cerddoriaeth glasurol), Radio 4 (llais), Radio 4 extra (comedi a drama) a'r Asian Network. O ran sianeli teledu, mae BBC1 (a BBC2 i raddau llai) yn cystadlu am gynulleidfaoedd torfol yn erbyn ITV a sianeli lloeren a chebl prif ffrwd. Fodd bynnag, mae BBC3 yn darparu comedi, drama ac adloniant i gynulleidfaoedd lleiafrifol ac mae BBC4 yn darparu rhaglenni dogfen a rhaglenni diwylliannol o safon uchel. Er bod darlledwyr masnachol erbyn hyn yn darparu dewis o raglenni (megis ITV2-4) mae'r rhan fwyaf o'u rhaglenni'n ailddarllediadau o ITV1 neu'n rhaglenni rhad a brynwyd ganddynt.

© CBAC / WJEC 2015

Mae Marcswyr yn beirniadu PSB yn gyffredinol, gan ddweud eu bod yn adlewyrchu buddiannau cyfalafiaeth. I gyfiawnhau ffi'r drwydded, rhaid i ddarparwyr PSB megis y BBC ddenu cynulleidfaoedd mawr, yn enwedig ar eu prif sianeli. Felly, mae'r cynnwys yn tueddu i adlewyrchu cynnwys cystadleuwyr masnachol. Caiff y BBC eu cyhuddo'n rheolaidd o 'orsymleiddio' eu hallbwn er mwyn denu gwylwyr a gwrandawyr. Er eu bod wedi'u hariannu gan arian cyhoeddus, mae strwythur a dulliau rheoli PSB yn debyg i berchenogion a rheolwyr cyfryngau masnachol. Er enghraifft, dewisir y bobl a benodir i Ymddiriedolaeth y BBC, sy'n goruchwylio'r BBC, o blith 'y mawr a'r da'; pobl o gefndiroedd cyfoethog a chymdeithasol freintiedig. Yn olaf, gan y gall y llywodraeth bennu, rhewi neu gynyddu ffi'r drwydded (eu prif ffynhonnell incwm) mae PSB yn tueddu i beidio â beirniadu llywodraethau'n ormodol. Mewn rhai gwledydd, gall llywodraethau fynd ati'n amlwg i ddefnyddio PSB at ddibenion propaganda neu i sensro rhaglenni'n uniongyrchol.

Dros amser, mae'r BBC wedi cael ei annog yn fwyfwy i redeg ar sail fasnachol, a hoffai llawer o wleidyddion Ceidwadol ei weld yn cael mwy o arian drwy hysbysebu. Dilëwyd nifer o reoliadau'r BBC gan Ddeddf Darlledu 1996. Un ymateb oedd ffurfio'r UKTV aml-sianel yn 1997 sy'n eiddo i BBC Worldwide a Virgin Media ar y cyd. Mae'r rhwydwaith yn cynnig deg sianel (gan gynnwys Gold, Dave ac Yesterday) ac yn darparu amrywiaeth o raglenni adloniant, ffordd o fyw a ffeithiol wedi'u hariannu gan hysbysebu. Mae beirniaid yn dadlau bod y BBC, oherwydd pwysau dwys gan gannoedd o sianeli digidol, yn lleihau rhaglenni o safon megis rhaglenni dogfen ac yn cynhyrchu mwy o adloniant ar gyfer diwylliant torfol. Fodd bynnag, mae nifer o gystadleuwyr a deddfwyr wedi cyhuddo'r BBC o fod â phresenoldeb gwefan a ariennir gan ffi'r drwydded sydd o safon mor uchel o safbwynt addysg a gwybodaeth fel na allai cystadleuwyr masnachol gystadlu ag ef. Dadleuodd y beirniaid fod hyn yn ffordd amhriodol o ddefnyddio arian cyhoeddus ac yn gystadleuaeth annheg. O ganlyniad i rewi ffi'r drwydded tan 2005, cyhoeddodd y BBC yn 2011 y byddai'n lleihau ei gyllideb ar-lein £34 miliwn. Yn 2010, roedd refeniw'r BBC o £3.6bn bron yn hanner refeniw BSkyB a oedd â 10 miliwn o danysgrifwyr yn y DU ac Iwerddon a refeniw o £5.9bn, sy'n llawer uwch nag £1.9bn ITV.

### Cwestiynau

1. Beth yw ystyr Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus?
2. Beth yw barn gyffredinol amlblwyfyddion am PSB?
3. Pam mae Marcswyr yn beirniadu PSB?
4. Pa dueddiadau a arsylwyd yng ngweithredoedd y BBC?

### Allweddeiriau

- Diwylliant torfol - ble caiff cynnwys cyfryngau ei gynhyrchu'n unol â fformiwla er mwyn gwneud arian yn hytrach nag er mwyn adlewyrchu talent neu rinwedd artistig.

## Cydgyfeiriant Technolegol

### Bwledi

- Mae uwchgwmnïau cyfryngau'n croesawu cydgyfeiriant technolegol.
- Ystyrir bod cydgyfeiriant technegol yn fodd o gynyddu cyfran yn y farchnad drwy gysylltiadau di-dor â'r defnyddiwr a drwy gynyddu elw.

© CBAC / WJEC 2015

- Er bod uwchgwmnïau cyfryngau'n eiddgar i ddarparu bwndeli cyfryngau, nid oes rhaid i ddefnyddwyr eu cymryd.

## Testun

Mae cydgyfeiriant technegol yn digwydd pan mae modd defnyddio sawl technoleg ar un platfform cyfryngau, megis ffôn clyfar. Ar wahân i anfon a derbyn galwadau, gellir defnyddio ffonau clyfar ar gyfer e-bost, y rhyngrwyd, teledu, cerddoriaeth mp3, gemau ac amryfal 'apiau' (rhaglenni) gwasanaethau. Mae cydgyfeiriant technolegol yn adlewyrchu i ba raddau y mae cyfryngau digidol a seiber-gyfryngau wedi integreiddio yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae hefyd yn cael ei yrru gan gyd-dyriadau cyfryngau byd-eang er mwyn cynyddu gwerthiannau ac elw drwy gysylltu technolegau â'i gilydd.

Mae hanes y cyfryngau yn y 50 mlynedd diwethaf wedi dangos cynnydd mewn crynodiad perchenogaeth wrth i nifer y cwmnïau cyfryngau leihau drwy uno a throsfeddiannu. Dros amser, mae hyn yn amlwg yn cynyddu maint a phŵer y cwmnïau cyfryngau sy'n weddill. Hefyd, drwy integreiddio'n llorweddol ac yn fertigol, maent yn darparu mwy o gyfleoedd mwy cysylltiedig am gydgyfeiriant technolegol. Drwy gysylltu technolegau â'i gilydd drwy frandiau a chysylltiadau 'mewnol', mae hyn yn cynnig cyfleoedd i gynyddu elw a chyfleoedd am synergedd (defnyddio un dechnoleg i hyrwyddo un arall).

O safbwynt defnyddwyr, gwerthir cydgyfeiriant technolegol ar sail cyfleustra a phris. Drwy becynnu technolegau gyda'i gilydd, caiff pobl eu marchnata â syniad cysylltiadau di-dor ac arbedion drwy brynu 'bwndel' yn hytrach nag eitemau unigol. Felly, mae BSkyB yn marchnata ei hun ar ffurf teledu lloeren sy'n derbyn sianeli teledu Sky TV, ond hefyd drwy ddarparu mynediad at gatalog ar alw o ffilmiau a rhaglenni teledu yn ogystal â band eang di-dâl a galwadau ffôn di-dâl y tu allan i oriau brig. Yn yr un modd, mae Apple yn darparu cyswllt uniongyrchol rhwng eu iMacs, iPods ac iPads gydag iTunes a'u iStore o 'apiau'. Mae'r cyfleoedd am gynyddu elw o gydgyfeiriant technolegol yn glir; mae refeniw'n deillio o nifer o dechnolegau yn hytrach nag o un.

Mae Marcswyr yn pryderu am y pŵer a gaiff uwchgwmnïau cyfryngau o gydgyfeiriant technolegol. Ar wahân i gloi pobl mewn bwndeli drud na fyddant o reidrwydd yn eu defnyddio'n llawn, gellir defnyddio un dechnoleg i hyrwyddo un arall. Fodd bynnag, gallai eraill nad ydynt yn Farcswyr bwysleisio buddiannau torri costau a chyfleustra i'r defnyddiwr. Byddent hefyd yn nodi bod cydgyfeiriant technegol yn digwydd ar wahân i fwndeli corfforaethol. Felly er enghraifft, gall pobl â chyfrifiaduron PC brynu eu cerddoriaeth MP3 o iTunes Apple, neu gall pobl â chaledwedd Apple brynu eu hadloniant gan gwmnïau megis Amazon.

## Cwestiynau

1. Beth yw cydgyfeiriant technolegol?
2. Beth yw buddiannau posibl bwndeli uwchgwmnïau i ddefnyddwyr?
3. Pam mae Marcswyr yn pryderu am fwndeli uwchgwmnïau o gydgyfeiriant technolegol?

## Allweddeiriau

© CBAC / WJEC 2015

- iTunes - siop ar-lein a redir gan Apple sy'n gwerthu cerddoriaeth a ffilmiau i'w llwytho i lawr.

## Syniadau Amlblwyfyddion, ôl-fodernwyr a Marcswyr

### Bwledi

- Nid yw amlblwyfyddion yn poeni am grynodiad perchenogaeth, gan eu bod yn dadlau mai gofynion y gynulleidfa yw prif sbardun cynnwys y cyfryngau.
- Maent yn dadlau, os na fydd y cyfryngau'n adlewyrchu gwerthoedd eu cynulleidfa, y byddant yn colli eu cynulleidfa ac yn mynd i'r wal.
- Mae Marcswyr yn dadlau bod y cyfryngau'n adlewyrchu buddiannau eu perchenogion a'r dosbarth cyfalafol.
- Yn ôl Ysgol Frankfurt, cyflawnir hyn drwy i'r cyfryngau weithredu'n bennaf fel sefydliad dargyfeiriol.

### Testun

Mae Amlblwyfyddion yn dadlau nad yw crynodi perchenogaeth yn bwysig, gan fod cwmnïau cyfryngau'n eiddo i randdeiliaid, ac nad oes gan y perchenogion lawer o reolaeth na dylanwad uniongyrchol. Yn hyn o beth, mae'r ôl-fodernwyr yn eu cefnogi, gan eu bod yn gweld y pŵer wedi'i wasgaru ac nid wedi'i grynodi. Gan eu bod yn gweld bod cymdeithas, cynulleidfaoedd a chynhyrchion cyfryngau wedi'u gwasgaru, mae hyn yn tanseilio pŵer unrhyw un ffynhonnell neu leoliad. O ganlyniad i hyn, mae amlblwyfyddion ac ôl-fodernwyr yn tueddu i ystyried bod rheolwyr yn cael llonydd gan berchenogion i redeg eu hallfeydd cyfryngau eu hunain. Fodd bynnag, mae beirniaid yn dadlau ei bod yn ymddangos bod rhai uwchgwmnïau cyfryngau'n cael eu dominyddu a'u rheoli gan berchenogion megis Rupert Murdoch, Silvio Berlusconi a Leo Kirch. Ceir tystiolaeth storïol gan newyddiadurwyr bod Rupert Murdoch yn ymyrryd mewn polisïau golygyddol, a'i fod ar adegau hyd yn oed yn ysgrifennu tudalennau blaen a golygyddol ei bapurau newydd. Fodd bynnag, byddai amlblwyfyddion yn dadlau, hyd yn oed os oes gan berchenogion rywfaint o reolaeth, bod rhaid i allbwn y cyfryngau adlewyrchu gwerthoedd consensws ehangach er mwyn bod yn llwyddiannus yn fasnachol. Os nad yw'r cyfryngau'n adlewyrchu gofynion y bobl, ni chânt fwy o ddarllenwyr na chynulleidfaoedd.

Y safbwynt Marcsaidd traddodiadol am berchenogaeth cyfryngau yw bod gan berchenogion ddylanwad a rheolaeth uniongyrchol neu anuniongyrchol dros y negeseuon y mae'r proletariat yn eu cael gan y cyfryngau. Hyd yn oed os nad ydynt yn ymyrryd yn uniongyrchol, byddant yn cyflogi golygyddion a newyddiadurwyr i gynhyrchu cynnwys sy'n adlewyrchu eu buddiannau dosbarth llywodraethol. Fodd bynnag, yn amlach na pheidio, gwneir hyn yn gynnil. Er enghraifft, mae'r Ysgol Frankfurt neo-Farcsaidd yn ystyried bod y cyfryngau'n sefydliad dargyfeiriol, sy'n creu ac yn dosbarthu nwyddau diwylliannol dargyfeiriol. Drwy ganolbwyntio ar glebran, materion dibwys a chyffrogarwch, mae'r cyfryngau'n helpu pobl i anghofio am faterion pwysig megis eu cyflog isel, eu hamodau gwaith a'u gormes dosbarth. Mae Grŵp Cyfryngau neo-Farcsaidd Prifysgol Glasgow hefyd yn ystyried bod cynnwys cyfryngau'n hybu buddiannau pobl sy'n rhedeg cyfalafiaeth. Maent yn dadlau, er mwyn denu refeniw hysbysebu, bod eu cynnwys yn 'ddiogel' a'u bod yn gyffredinol yn osgoi unrhyw beth a allai boeni neu sarhau pobl.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

Mae Paul Trowler yn dadlau, hyd yn oed pe bai llywodraethau'n dymuno cyfyngu ar bŵer uwchgwmnïau cyfryngau, na allant feiddio gwneud hynny mewn democratiaeth. Mae'n beryglus digio'r cyfryngau torfol gan y gallant helpu i siapio barn y cyhoedd. Efallai mai dyma pam y bu i Tony Blair fynd ati i geisio cefnogaeth Rupert Murdoch a'i ymerodraeth cyfryngau pan yr oedd yn arweinydd y Blaid Lafur. Mae hyd yn oed Murdoch ei hun wedi brolio bod ei ymerodraeth cyfryngau'n 'ethol llywodraethau'. Datganodd The Sun "It's The Sun Wot Won It" ar eu tudalen flaen ar ôl cefnogi'r Ceidwadwyr yn eu hetholiad llwyddiannus yn 1992.

Fodd bynnag, mae rhai'n gwrthod y ddamcaniaeth ddrwgdybus hon, gan ddadlau mai Murdoch sy'n hoff o gefnogi enillwyr. Newidiodd deyrngarwch The Sun i gefnogi Llafur Newydd yn 1997 gan ei fod yn disgwyl i Blair ennill. Newidiodd ei deyrngarwch yn ôl i'r Ceidwadwyr ar gyfer etholiad 2010 gan ei fod yn disgwyl iddynt hwy ennill.

### Cwestiynau

1. Beth yw'r farn amlblwyfol am berchenogaeth a rheolaeth y cyfryngau?
2. Beth yw'r farn Farcsaidd am berchenogaeth a rheolaeth y cyfryngau?
3. Pam mae llywodraethau'n gyndyn i ddigio barwniaid cyfryngau fel Rupert Murdoch?

### Allweddeiriau

- Damcaniaeth ddrwgdybus - y syniad bod elitau cymdeithasol, gwleidyddol ac economaidd yn cydweithio i hybu eu buddiannau ei gilydd.
- Sefydliad dargyfeiriol - pan mae'r cyfryngau'n cefnogi cyfalafiaeth drwy helpu pobl i anghofio am realaeth eu dieithrio a'u gormes dosbarth cymdeithasol.
- Democratiaeth - system wleidyddol ble mae pobl yn pleidleisio mewn etholiadau i benodi llywodraethau.
- Ysgol Frankfurt - cymdeithasegwyr neo-Farcsaidd a ffodd i UDA i ddianc rhag erledigaeth yr Almaen Natsïaidd. Gwelsant sut yr oedd Hitler yn defnyddio'r cyfryngau'n wych i hyrwyddo ei bropaganda.
- Grŵp Cyfryngau Prifysgol Glasgow - cymdeithasegwyr neo-Farcsaidd sy'n canolbwyntio'n benodol ar ddadansoddiadau manwl o gynnwys negeseuon newyddion a gyflëir gan y cyfryngau.
- Proletariat - term Marcsaidd am y dosbarth gwaith.

# Beth yw gwerthoedd newyddion

## Amlblwyfaeth a Gwerthoedd Newyddion

### Bwledi

- Mae amlblwyfyddion yn ystyried bod gwerthoedd newyddion yn adlewyrchu normau, gwerthoedd a barn y boblogaeth.
- Portreadir y cyfryngau fel 'ffenestr ar y byd' sy'n adlewyrchu gwerthoedd y bobl.
- Mae neo-amlblwyfyddion, megis Davies, yn nodi tuedd fodern newyddiadurwyr i 'gorddi' datganiadau i'r wasg gan eu hailgylchu fel newyddion.
- Mae'r farn bod y cyfryngau'n adlewyrchu gwerthoedd y bobl yn cael ei herio gan bobl sy'n dadlau bod y cyfryngau'n siapio gwerthoedd y cyhoedd i raddau.

© CBAC / WJEC 2015

## Testun

Bob dydd, mae llawer mwy o straeon newyddion yn cael eu derbyn mewn ystafelloedd newyddion nag sy'n cael eu hargraffu mewn papurau newydd na'u darlledu ar yr awyr. Felly, mae'n dilyn bod y newyddion yn deillio o broses o ddethol. Mae hyn yn arwain cymdeithasegwyr i ddefnyddio ymadroddion fel bod newyddion yn cael ei 'lunio' neu ei 'gynhyrchu' gan na all y newyddion ei ddewis ei hun. Felly, mae'r hyn sy'n ymddangos mewn adroddiadau papurau newydd neu fwletinau newyddion yn ganlyniad i farn ddynol. Caiff ei olygu gan bobl sy'n dewis beth sy'n werth ei gynnwys. Mae'r ffordd y caiff newyddion ei gyflwyno, o ran amlygrwydd stori newyddion a'r amser a'r lle a roddir i eitemau, yn ganlyniad i benderfyniadau gan olygyddion a newyddiadurwyr. I amlblwyfyddion, mae'r penderfyniadau hyn yn adlewyrchu normau a gwerthoedd consensws. Maent o'r farn bod y cyfryngau'n adlewyrchu agweddau a gwerthoedd y bobl. Felly, mae gwerthoedd newyddion yn adlewyrchu gwerthoedd prif ffrwd cymdeithas.

Mae amlblwyfyddion yn dadlau bod gweithwyr proffesiynol yn y cyfryngau'n dod i ddeall yn gyflym pa straeon newyddion fydd yn hoelio sylw'r cyhoedd. Dros amser, cânt gyfoeth o brofiad o'r hyn y maent yn ei alw'n 'newyddion llosg', y straeon y mae gan y cyhoedd ddiddordeb ynddynt. I amlblwyfyddion, mae'r frawddeg 'gwerthoedd newyddion' yn adlewyrchu'r farn hon am agweddau a gwerthoedd y boblogaeth. Felly, er mai personél cyfryngau sy'n llunio'r newyddion, gwerthoedd consensws yn y pen draw sy'n pennu cynnwys papurau newydd neu fwletinau newyddion. Felly, byddai amlblwyfyddion yn gwrthod unrhyw farn sy'n canolbwyntio ar bŵer personél cyfryngau i 'bennu'r agenda'. Yn hytrach, maent yn cyflwyno darlun o'r cyfryngau fel 'ffenestr ar y byd', neu'n fanylach, fel drych sy'n adlewyrchu cymdeithas.

Fodd bynnag, mae rhai pobl wedi herio'r farn hon bod newyddiadurwyr yn weithwyr proffesiynol diduedd sy'n darparu'r math o newyddion yr hoffai pobl ei glywed. Mae Marcswyr yn credu bod y farn hon yn naïf ac yn dadlau bod y cyfryngau naill ai'n cael eu llywio gan y bobl sy'n berchen arnynt neu'n adlewyrchu gwerthoedd y bobl sy'n gweithio yn y maes. Mae rhai neo-amlblwyfyddion hyd yn oed yn cydnabod bod pobl yn y diwydiant cyfryngau'n llunio'r newyddion i raddau. Er enghraifft, mae Nick Davies yn sôn am 'gorddi' ble mae newyddiadurwyr yn ailgylchu datganiadau i'r wasg gan y llywodraeth a sefydliadau eraill. Mae'n dweud eu bod yn oddefol wrth brosesu deunydd ail-law, sy'n anochel wedi'i gynhyrchu gan adrannau cysylltiadau cyhoeddus i wneud rhyw bwynt gwleidyddol neu hyrwyddo budd masnachol. Mae toriadau swyddi'n digwydd mewn sawl sefydliad cyfryngau, ac mae'n debygol y ceir mwy o gorddi wrth i lai o newyddiadurwyr fod dan fwy o bwysau i ddod o hyd i straeon am y gost isaf bosibl. Er gwaethaf twf y corddi hwn, mae Davies yn dal i haeru, fel newyddiadurwr ei hun, ei fod yn perthyn i broffesiwn anrhydeddus sy'n seiliedig ar 'ddweud y gwir'.

Mae nifer o gymdeithasegwyr yn dal i fod yn feirniadol iawn o'r safbwynt amlblwyfol o werthoedd newyddion. Er cydnabod bod rhaid i'r cyfryngau rannu nifer o werthoedd cymdeithas er mwyn apelio, dadleuir hefyd, gan fod y cyfryngau mor bwerus, bod rhaid iddynt chwarae rhan mewn siapio gwerthoedd y cyhoedd hefyd. Er enghraifft, o safbwynt meddiannu Iraq, mae Monbiot (2004) yn datgan 'mae'n anodd gweld sut y gallai Prydain fod wedi mynd i ryfel pe bai'r wasg wedi gwneud ei gwaith'. Mae eraill yn cyfeirio at y berthynas agos sydd rhwng llawer o newyddiadurwyr a gwleidyddion. O ganlyniad, maent yn ymatal rhag bod yn rhy feirniadol er mwyn cael straeon newyddion da. Felly, mae'r syniad bod y cyfryngau'n adlewyrchu ewyllys y bobl yn cael ei herio gan bobl sy'n credu eu bod yn llawer mwy pwerus nag y mae amlblwyfyddion yn ei awgrymu.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

## Cwestiynau

1. Beth yw ystyr 'mae'r cyfryngau'n ffenestr ar y byd'?
2. O ble y daw gwerthoedd newyddion yn ôl amlblwyfyddion?
3. Beth yw corddi?

## Allweddeiriau

- Corddi - pan fydd newyddiadurwyr yn derbyn datganiadau i'r wasg gan y llywodraeth a sefydliadau eraill heb eu beirniadu, a'u hailgylchu fel straeon newyddion.
- Bwletinau newyddion - rhaglenni newyddion ar y radio neu'r teledu.

## Marcsiaeth a Gwerthoedd Newyddion

### Bwledi

- Mae Marcswyr yn credu bod gwerthoedd newyddion yn cael eu llunio gan berchenogion a newyddiadurwyr, yn hytrach nag adlewyrchu gwerthoedd consensws y bobl.
- Drwy weithredu fel sefydliad dargyfeiriol, mae'r cyfryngau'n helpu i gynhyrchu ymwybod ffug.
- Gall llywodraethau ddefnyddio panig moesol cysylltiedig â'r cyfryngau i gryfhau deddfau a chynyddu pwerau'r heddlu.
- Mae GUMG wedi cynhyrchu dogfennau helaeth o dystiolaeth drwyadl o duedd y cyfryngau newyddion, yn enwedig yn erbyn undebau llafur a grwpiau protest.
- Mae syniadau Marcsaidd am ddylanwadu ar werthoedd newyddion wedi cael eu beirniadu.

### Testun

Mae gan Farcswyr farn fwy digyfaddawd am werthoedd newyddion. Maent yn pwysleisio gallu'r bobl sy'n berchen ar y cyfryngau ac yn eu rheoli i ddylanwadu ar gynnwys y newyddion i adlewyrchu eu buddiannau personol hwy a buddiannau mwy cyffredinol y dosbarth llywodraethol. Yn hytrach nag adlewyrchu gwerthoedd y bobl, fel y mae amlblwyfyddion yn ei hawlio, maent yn ystyried bod 'gwerthoedd newyddion' yn cael eu siapio gan bobl gyfoethog iawn, y Sefydliad a llywodraethau. Mae Marcswyr traddodiadol yn credu bod y dosbarth cyfalafol yn defnyddio'r cyfryngau i ledaenu ideoleg sydd o blaid cyfalafiaeth. Mae hyn fel rheol yn gynnil, nid yn amlwg, ac mae'n aml yn digwydd ar ffurf dargyfeiriadau oddi wrth faterion real anghydraddoldeb ac amddifadedd, megis clebran am bobl enwog a'u hymddygiad wedi'i gyflwyno fel 'newyddion'. Felly, er ei bod yn ymddangos bod y cyfryngau'n adlewyrchu gwerthoedd consensws cyffredinol, mae Marcswyr yn dadlau bod y cyfryngau mewn gwirionedd yn helpu i siapio'r gwerthoedd hynny. Felly, daw'r cyfryngau'n bwerus iawn gyda'r gallu i bennu'r agenda am beth yr ystyrir ei fod yn newyddion. Gelwir hyn yn 'bennu'r agenda'. Ar yr un pryd, gall y cyfryngau watwar neu ddifrïo safbwyntiau sy'n wahanol i ideoleg y dosbarth llywodraethol.

Yn yr 1920au ac yn ddiweddarach, Ysgol Frankfurt oedd un o'r grwpiau cyntaf o Farcswyr i archwilio swyddogaeth ystrywgar y cyfryngau fel sefydliad dargyfeiriol. Maent yn dadlau

© CBAC / WJEC 2015

bod gwerthoedd newyddion wedi symud tuag at faterion personol sy'n creu cyffro, yn enwedig wrth sôn am bobl enwog a'r elît. Mae gwerthoedd newyddion o'r fath yn helpu i gadw'r proletariat yn eu lle drwy eu helpu i anghofio am anghydraddoldebau a natur ecsbloetiol cyfalafiaeth. Dadleuir bod y newyddion wedi troi'n gyfuniad o wybodaeth ac adloniant, gan roi'r hyn a alwodd Neil Postman (1985) yn 'infotainment'. Mae hyn yn cyfrannu at lefelau ymwybod ffug mewn cymdeithas drwy ddarparu diet o straeon newyddion arwynebol sy'n anghymell y boblogaeth rhag cymryd materion o ddifrif. Y canlyniad yw cynulleidfa anwybodus, ddi-hid ac anfeirniadol.

Rhoddwyd sylw i enghraifft o'r cyfryngau'n dylanwadu ar agweddau pobl yn astudiaeth glasurol neo-Farcsaidd Hall et al. o bortreadu mygio yn yr 1970au. Mae'r astudiaeth yn dangos sut y defnyddiodd y llywodraeth y cyfryngau i gynhyrchu panig moesol am ofnau gwirioneddol pobl o fygio, er mwyn cryfhau dulliau plismona. Dadl Hall et al. oedd, mewn cyfnod pan ystyriwyd bod cyfalafiaeth mewn argyfwng (diweithdra uchel a dirwasgiad economaidd, bygythiad terfysgoedd, streic y glowyr, terfysgaeth yr IRA), y defnyddiwyd y cyfryngau i lywio pryderon am 'gwymp cyfraith a threfn' gan feithrin cefnogaeth gyhoeddus i blismona caled. Mae Marcswyr yn dadlau y defnyddiwyd tacteg debyg ar ôl yr ymosodiad '9/11' ar Ganolfan Masnach y Byd. Cynhyrchodd y cyfryngau ofn terfysgaeth a alluogodd y wlad i berswadio'r cyhoedd i dderbyn colli rhai hawliau sifil penodol a chryfhau pwerau'r heddlu.

Mae Grŵp Cyfryngau Prifysgol Glasgow (GUMG) wedi cynnal sawl astudiaeth fanwl o newyddion ar y teledu. Drwy ddadansoddi cynnwys mewn modd semiotig, canfuant fod gwerthoedd newyddion yn fwy cydymdeimladol tuag at fuddiannau pobl bwerus. Canfuant hefyd fod grwpiau di-rym yn aml yn cael eu labelu mewn modd negyddol iawn. Canfuant fod gormod o sôn am anghydfodau diwydiannol gan ganolbwyntio'n benodol ar effeithiau yn hytrach nag egluro eu cefndir neu achosion. Aethant ati i astudio'r iaith a chanfuant ei bod yn cael ei defnyddio mewn modd tueddol iawn, er enghraifft bod undebau llafur yn 'mynnu', ond bod rheolwyr yn gwneud 'cynigion'. Roeddent yn enwi aelodau o undebau a chafodd gweithgareddau eu labelu'n negyddol gyda geiriau megis 'trwbl', 'radical' a 'milwriaethus'. Wrth sôn am wrthdystiadau a phrotestiadau, byddent yn sôn am unrhyw wrthdaro neu aflonyddu cyn dadansoddi pwrpas y brotest. Felly, mae GUMG yn dadlau bod y newyddion yn cael ei gyflwyno mewn modd gor-syml ac unochrog. Maent felly'n cefnogi'r farn Farcsaidd bod gwerthoedd newyddion yn cael eu llywio er mwyn adlewyrchu 'ideoleg ddominyddol'. Maent hefyd yn nodi bod y cyfryngau'n tueddu i ddefnyddio ystadegau'r llywodraeth heb eu beirniadu.

Fodd bynnag, mae cymdeithasegwyr eraill yn beirniadu'r farn Farcsaidd bod gwerthoedd newyddion yn cael eu llywio. Maent yn nodi, mewn gwledydd ble mae'r cyfryngau'n cael eu rheoli'n amlwg (unbenaethau er enghraifft), bod cynnwys y newyddion yn bennaf yn gadarnhaol - gweithwyr yn gwenu a straeon newyddion da. Mae hyn mewn cyferbyniaeth lwyr i'r newyddion pennaf ddrwg sy'n ffurfio gwerthoedd newyddion yn ein cymdeithas ni. Mae rhai rhannau o'r cyfryngau'n eiddo i Ymddiriedolaethau (megis darlledu sector cyhoeddus a phapurau megis The Guardian a The Observer). Felly, nid ydynt yn cael eu rheoli gan gyfalafwyr pwerus. Mae eraill yn dweud bod barn Marcswyr yn nawddoglyd tuag at y gynulleidfa. Maent yn dadlau y bydd pobl sy'n gwrthwynebu gwerthoedd newyddiadurwyr yn eu herio a'u gwrthod.

## Cwestiynau

© CBAC / WJEC 2015

1. Ym mha ffyrdd y dylanwadir ar werthoedd newyddion yn ôl Marcswyr?
2. Sut mae straeon newyddion sy'n creu cyffro'n cyfrannu at ymwybod ffug?
3. Sut y gellir beirniadu'r safbwynt Marcsaidd o werthoedd newyddion?

### Allweddeiriau

- Y Sefydliad - casgliad cymhleth o'r 'mawr a'r da' sydd gyda'i gilydd, yn ôl Marcswyr, yn cynrychioli canol gwir bŵer cymdeithas.
- Ymwybod ffug - pan nad yw'r proletariat yn ymwybodol o wir safle eu dosbarth, sef dosbarth israddol sy'n cael ei ecsbloetio.
- Ymddiriedolaethau - cyrff cyfreithiol a benodir i oruchwylio gweithredoedd sefydliadau.
- Infotainment - Straeon newyddion arwynebol gyda'r bwriad o ddiddanu yn hytrach na rhoi gwybodaeth, er enghraifft, straeon sy'n canolbwyntio ar bobl enwog.

## Neo-Farcsiaeth a Gwerthoedd Newyddion

### Bwledi

- Mae neo-Farcswyr yn credu bod straeon newyddion yn adlewyrchu tueddiadau newyddiadurwyr y cyfryngau, sy'n anymwybodol gan fwyaf.
- Mae newyddiadurwyr yn cael eu hyfforddi a'u cymdeithasoli i rannu un 'golwg ar y byd'.
- Cyflwynir yr olwg hon ar y byd i'r gynulleidfa fel barn synnwyr cyffredin sy'n cael ei mewnoli gan y cyhoedd.
- Gall gwleidyddion gael perthynas agos a chyfarwydd â newyddiadurwyr, sy'n eu galluogi i reoli beth sy'n cael ei gynnwys yn y newyddion.

### Testun

Mae gan neo-Farcswyr lawer yn gyffredin â'r safbwynt Marcsaidd traddodiadol o werthoedd newyddion. Fodd bynnag, maent yn rhoi llai o bwyslais ar ddylanwad perchenogion a rheolwyr y cyfryngau ar newyddion. Yn hytrach, maent yn credu bod straeon newyddion yn adlewyrchu tueddiadau newyddiadurwyr y cyfryngau, sy'n anymwybodol gan fwyaf. Yn enwedig yn y gorffennol, roedd y rhain yn bobl ddosbarth canol, yn aml wedi cael addysg breifat, yn wyn ac yn ddynion gan fwyaf. Er bod y nodweddion hyn yn newid, mae neo-Farcswyr yn dadlau bod y rhan fwyaf o newyddiadurwyr yn dal i gymryd safbwynt 'rhesymol' sy'n adlewyrchu eu cefndir breintiedig wrth ymdrin â'r rhan fwyaf o faterion newyddion. Felly, mae gwerthoedd newyddion yn tueddu i adlewyrchu barn consensws am y byd. Fodd bynnag, nid adlewyrchu gwerthoedd y bobl yw hyn, fel y mae amlblwyfyddion yn ei hawlio, ond newyddiadurwyr yn helpu i siapio'r gwerthoedd consensws hyn drwy fod mewn safle pwerus.

Mae neo-Farcswyr yn credu bod newyddiadurwyr yn rhannu un 'golwg ar y byd'. Fel newyddiadurwyr ifanc, caiff hyn ei atgyfnerthu drwy eu hyfforddiant a'u cymdeithasoli eilaidd i werthoedd newyddiadurol. Er enghraifft, maent yn dysgu'n gyflym gan eu cydweithwyr a'u golygyddion sut y dylid trin gwerthoedd a straeon newyddion. Er enghraifft, dangosodd GUMG sut y mae'r cyfryngau bob amser yn portreadu streiciau a streicwyr diwydiannol yn negyddol. Drwy iddynt atgyfnerthu'r farn hon yn gyson, mae'r

gynulleidfa'n ei derbyn fel gwerth synnwyr cyffredin: mae streiciau'n ddrwg. Drwy bŵer hegemonaidd y proffesiwn newyddiaduraeth, caiff gwerthoedd newyddion eu hatgyfnerthu o fewn y gynulleidfa drwy drip, drip, drip parhaus o negeseuon am werthoedd newyddion. Gelwir hyn yn ddamcaniaeth effeithiau diwylliannol.

Mae neo-Farcswyr yn credu bod system lobi'r senedd yn fodd pwysig i wleidyddion feithrin perthynas dda â newyddiadurwyr er mwyn hybu dosbarthu newyddion mewn modd rheoledig. Rhan o Dŷ'r Senedd yw'r lobi ble mae gwleidyddion a newyddiadurwyr yn rhannu gwybodaeth 'oddi ar y record'. Felly, gall gwleidyddion 'ollwng' straeon dethol i'w hoff newyddiadurwyr. Gan na chaiff gohebwyr yn y lobi byth ddatgelu eu ffynonellau, gall y llywodraeth ddefnyddio eu hoff newyddiadurwyr i ddylanwadu ar y newyddion yn y gobaith o siapio agweddau'r cyhoedd. Pan fydd newyddiadurwyr yn defnyddio ymadroddion megis 'ffynonellau'n agos at y Prif Weinidog' mae hyn yn dystiolaeth o straeon a gafwyd drwy'r system lobi. Hefyd, mae neo-Farcswyr yn feirniadol iawn o'r ffordd y mae 'doctoriaid sbin' yn dylanwadu ar newyddion gwleidyddol yn y cyfryngau. Swyddogion y cyfryngau yw'r rhain sy'n rhyddhau datganiadau i'r wasg wedi'u geirio'n ofalus. Maent hefyd yn hyfforddi a mentora gwleidyddion am beth i'w ddweud mewn cyfweliadau. Yn aml, ni fydd gwleidyddion yn rhoi cyfweliadau os na chânt ddewis pa gwestiynau y maent yn fodlon eu hateb (gydag atebion bachog wedi'u paratoi). Fel ymateb, mae newyddiadurwyr yn gyndyn i fod yn rhy feirniadol er mwyn cael cyfweliadau yn y dyfodol. Cafwyd sôn hefyd am guddio straeon newyddion, ble caiff newyddion drwg gwleidyddol ei ryddhau ar ddyddiau pan fydd papurau'n llawn o ddigwyddiadau eraill, megis priodasau Brenhinol, gan olygu bod newyddion drwg yn cael llai o sylw.

Mae'r agwedd neo-Farcsaidd at werthoedd newyddion hefyd wedi cael ei beirniadu. Nodir nad yw llawer o newyddiadurwyr yn rhannu'r ideoleg ddominyddol a'u bod yn ei gwrthwynebu'n fwriadol. Er enghraifft, mae nifer o newyddiadurwyr ymchwiliol yn herio syniadau cyffredinol ac yn datgelu straeon sy'n 'siglo'r cwch'. Wrth i fwy o newyddiadurwyr ddod o gefndiroedd nad ydynt yn draddodiadol, nid yw barn dynion gwyn dosbarth canol am y byd yn dominyddu cymaint. Fodd bynnag, mae neo-Farcswyr yn dadlau bod barwniaid cyfryngau'n talu cyflogau deniadol i newyddiadurwyr yn benodol am iddynt fabwysiadu golwg 'ddiogel' a cheidwadol ar y byd, beth bynnag yw eu cefndir.

## Cwestiynau

1. Beth yw'r prif ddylanwad ar werthoedd newyddion yn ôl neo-Farcswyr?
2. Sut y mae newyddiadurwyr yn cael eu 'golwg a rennir' ar y byd?
3. Sut y gall gwleidyddion reoli'r newyddion?
4. Sut y gellir beirniadu'r safbwynt Marcsaidd o werthoedd newyddion?

## Allweddeiriau

- Hegemonaidd - cysyniad a gysylltwyd yn wreiddiol ag Antonio Gramsci i egluro sut y mae grwpiau dominyddol yn cadw pŵer drwy ddefnyddio syniadau'n gynnil i sicrhau cydsyniad grwpiau israddol.
- Barwniaid cyfryngau - perchenogion cyfoethog a phwerus uwchgwmnïau cyfryngau.
- Datganiadau i'r wasg - gohebiaeth wedi'i hysgrifennu neu ei recordio a gynhyrchir yn benodol i gyhoeddi stori sy'n werth ei chynnwys yn y cyfryngau newyddion.
- Doctoriaid sbin - pobl sy'n darparu datganiadau i'r wasg ac yn rheoli ac yn mentora gwleidyddion.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

## ôl-foderniaeth a Gwerthoedd Newyddion

### Bwledi

- Mae ôl-fodernwyr yn ystyried mai cymdeithas gyfoes yw'r 'oes gwybodaeth' ac mai'r cyfryngau torfol yw'r cyfathrebwr allweddol ynddi.
- Mae Baudrillard o'r farn bod y cyfryngau newyddion yn helpu i bylu'r gwahaniaeth rhwng breuddwydion a realaeth.
- Mae ôl-fodernwyr yn credu bod gwerthoedd newyddion y cyfryngau'n flaengar gan eu bod yn tanseilio hen argyhoeddiadau.
- Maent yn nodi bod y cyfryngau'n cael eu darllen ac yn cael cyfraniadau mewn modd gwasgaredig, gan gynnwys mwy o fewnbwn uniongyrchol gan y cyhoedd.

### Testun

Mae ôl-fodernwyr yn credu bod cymdeithas yn mynd yn fwyfwy gwasgaredig a'i bod yn arwynebol heb ddim dyfnder iddi. Yn ddiwylliannol, maent yn ystyried mai cymdeithas gyfoes yw'r 'oes gwybodaeth' ac mai'r cyfryngau torfol yw'r cyfathrebwr allweddol ynddi. Mae nifer o ôl-fodernwyr, megis Jean Baudrillard, yn credu bod y cyfryngau newyddion yn mynd yn fwy a mwy croesddywedol. Er enghraifft, mae'n credu bod newyddion y cyfryngau'n grymuso pobl ar y naill law (drwy faint yr wybodaeth sydd ar gael) ond ar yr un pryd yn ein troi ymaith (drwy bwysleisio ar straeon arwynebol sy'n creu cyffro). Mae hefyd o'r farn bod y cyfryngau'n helpu i bylu'r gwahaniaeth rhwng breuddwydion a realaeth gymdeithasol. Mae hyn hyd yn oed yn berthnasol i'r newyddion a gwerthoedd y newyddion. Er enghraifft, hawliodd Baudrillard 'ni wnaeth Rhyfel y Gwlff erioed ddigwydd'. Nid oedd yn golygu na wnaeth y rhyfel ddigwydd yn llythrennol, ond bod adroddiadau newyddion y cyfryngau wedi gwneud iddo ymddangos yn afreal fel ffilm Hollywood. Roedd delweddau o sgriniau gwynt peilotiaid yn gwneud i saethu at dargedau edrych fel gêm gyfrifiadurol mewn arcêd. Mae enghreifftiau eraill o'r newid ôl-fodernaidd hwn yn cynnwys gwleidyddion yn ymddangos ar sioeau siarad a rhaglenni gemau (hyd yn oed Come Dancing) a phortreadu eu bywydau preifat fel petaent yn fwy diddorol na'u polisïau.

Mae ôl-fodernwyr yn dadlau bod y ffordd y caiff y newyddion ei gyflwyno heddiw'n tanseilio hen argyhoeddiadau. Ar yr un pryd, caiff gwerthoedd a dealltwriaethau newydd eu creu o'r delweddau a'r eiconau mwy hollfydol a gyflwynir yn y newyddion. Er enghraifft, mae Cochrane a Pain (2000) yn holi a ydym yn teimlo'n agosach at rai eiconau newyddion byd-eang megis Nelson Mandela nag at ein cymdogion ein hunain. Er bod ein cymdeithas yn fwy a mwy gwahaniaethol, mae'r cyfryngau newyddion yn dal i lunio delwedd or-syml o'r byd a'i chwaraewyr. Yn ddieithriad, portreadir digwyddiadau, gwledydd a phobl fel rhai da neu ddrwg, ffrindiau neu elynion. Nid oes llawer o le i fanylu na thrafod. Effaith hyn, yn ôl rhai cymdeithasegwyr, yw atgynhyrchu cynulleidfa sydd gan fwyaf yn anwybodus, heb ddyfnder - un sy'n chwilio'n fwyfwy am adloniant.

Mae ôl-fodernwyr yn pwysleisio bod gwerthoedd newyddion yn helpu i lunio realaeth, ond mewn modd unigolyddol iawn; gydag amrywiaeth o ystyron a dehongliadau. Fodd bynnag, mae gwrthwynebwyr ôl-foderniaeth yn beirniadu gwerthoedd newyddion am fod yn arwynebol. Maent yn credu bod hyn yn ffactor mewn datblygu diwylliant torfol a chymdeithas dorfol. Byddent yn dweud bod y ffaith bod papur newydd y Sun, cylchgronau megis OK a Hello a rhaglenni radio megis Chris Moyles mor boblogaidd yn

© CBAC / WJEC 2015

adlewyrchu dihangfa dorfol oddi wrth newyddion difrifol. Byddai ôl-fodernwyr yn ymateb drwy ddweud y ceir llawer o bethau gwahanol o fewn y cyfryngau. Mae pobl yn dewis beth i roi sylw iddo yn ôl eu chwaeth unigol ac mae hyn yn berthnasol i'r newyddion hefyd.

Byddent yn herio barn Marcswyr y gall y cyfryngau ddefnyddio eu dylanwad i siapio gwerthoedd pobl. Yn hytrach, maent yn dadlau bod y newyddion yn cael ei 'ddarllen' mewn gwahanol ffyrdd. Yn yr un modd, mae gwerthoedd newyddion yn mynd yn fwyfwy amrywiol gan fod gwahanol unigolion yn dewis gwrando ar eu hoff newyddion hwy. Felly, ni ellir ystyried bod y cyfryngau newyddion yn gyfrifol am siapio cynulleidfa dorfol gan fod pobl yn ceisio, ac yn derbyn, amrywiaeth o ystyron. Mae hyn yn anochel mewn cymdeithas ôl-fodern wasgaredig. Maent hefyd o'r farn bod ffynonellau newyddion yn fwy a mwy gwasgaredig - yn aml ceir lluniau fideo o ffonau symudol y cyhoedd neu gan ddarlledwyr eraill hyd yn oed wrth adolygu digwyddiadau megis chwaraeon. Ystyrir bod hyn yn fath o ddemocrateiddio a rhannu perchenogaeth newyddion.

Fodd bynnag, nid yw'r Marcswyr wedi'u hargyhoeddi; maent yn dadlau bod straeon newyddion yn dal i gael sylw sy'n dangos tuedd gref o blaid y Sefydliad. Maent yn credu mai'r perchenogion a'r rheolwyr sy'n dal i bennu agenda straeon newyddion. Fodd bynnag, mae rhai straeon newyddion yn digwydd y tu hwnt i baramedrau buddiannau'r dosbarth llywodraethol. Byddai neo-Farcswyr yn dadlau mai'r unig reswm am hyn yw eu bod yn adlewyrchu gwerthoedd gwyn, parchus, dosbarth canol proffesiwn y newyddiadurwr.

### Cwestiynau

1. Pam mae Baudrillard yn credu bod y cyfryngau newyddion yn mynd yn fwy a mwy croesddywedol?
2. Ym mha ffyrdd y mae pobl yn darllen y newyddion yn wahanol yn ôl ôl-fodernwyr?
3. Ym mha ffyrdd y mae casglu cynnwys newyddion wedi newid yn ôl ôl-fodernwyr?

### Allweddeiriau

- Diwylliant torfol - ble caiff allbwn y cyfryngau ei gynhyrchu'n unol â fformiwla er mwyn gwneud arian yn hytrach nag er mwyn adlewyrchu talent.
- Cymdeithas dorfol - cymdeithas ble mae apathi'n dominyddu wrth i bobl chwilio am adloniant disynnwyr.

## Sut mae r cyfryngau yn creu panig moesol?

### Cohen - Panig moesol a ' folk devils'

### Bwledi

- Mae gwaith cynnar Cohen ar y modiaid a'r rocwyr yn rhoi astudiaeth achos fyw iawn o'r cyfryngau yn trin a thrafod digwyddiadau a chreu panig moesol o gwmpas 'folk devils'.
- Aeth y cyfryngau ati'n fwriadol i wyrdroi'r hyn a ddigwyddodd yn Clacton er mwyn creu stori newyddion gyffrous ar y dudalen flaen.
- Dywed Cohen bod tair proses bwysig mewn panig moesol: symboleiddio, gor-ddweud a rhagdybio.

- Gall entrepreneuriaid moesol chwarae ar ansicrwydd pobl er mwyn cael y cyfryngau i greu panig moesol.

## Testun

Mae Stanley Cohen (1973) yn awgrymu bod portread y cyfryngau o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn helpu i greu 'folk devils'. 'Folk devil' yw unigolyn neu grŵp sy'n cael eu beirniadu gan y cyfryngau a'u portreadu fel bygythiad i gymdeithas. Mae Cohen yn disgrifio sut aeth y cyfryngau ati bortreadu modiaid a rociaid fel 'folk devils', oherwydd eu bod nhw wedi ymladd yn erbyn ei gilydd mewn trefi glan môr yng nghanol yr 1960au. Dangosodd Cohen bŵer y cyfryngau i ddatblygu'r hyn a alwai ef yn banig moesol. Mae geiriad y term yn bwysig - mae'n dangos sut mae'r cyfryngau yn creu ofn am les moesol y cyhoedd drwy ymateb mewn ffordd sy'n codi mwy byth o ofn ar bobl. Panig moesol yw ymateb llethol gan y cyhoedd i fygythiad maen nhw'n ei weld. Nodwedd bwysig o banig moesol yw'r ffordd mae'n cael ei seilio ar ofnau afresymol, ac yn gwneud môr a mynydd o'r ymddygiad a achosodd y panig yn y lle cyntaf.

Mae llawer o'r afresymoldeb am banig moesol i wneud â'r ffordd mae'r cyfryngau yn portreadu 'folk devils'. Mae Cohen yn disgrifio'r gor-ddweud yn y cyfryngau am fân ymladd yn Clacton ar benwythnos gŵyl y banc gwlyb yn ystod Pasg 1964. Mae o'n disgrifio sut roedd y wasg genedlaethol yn brin o benawdau ac felly eu bod nhw wedi gorliwio'r anrhefn yn Clacton: Daily Telegraph: 'Day of terror by scooter groups'; Daily Express: 'Youngsters beat up town - 97 leather jacket arrests'; Daily Mirror: 'Wild ones invade seaside - 97 arrests'. Er gwaethaf y penawdau newyddion cyffrous, yr hyn a ddigwyddodd yn Clacton go iawn oedd llosgi cwt, torri ambell i ffenestr, ac ychydig o ymladd.

Mae Cohen yn disgrifio tair proses bwysig sy'n gysylltiedig â phanig moesol: symboleiddio, gor-ddweud a rhagdybio. Drwy'r prosesau hyn, dadleua Cohen sut roedd adroddiadau yn y cyfryngau wedi annog mwy o ymddygiad gwyrol mewn gwirionedd.

Felly cyfrannodd y cyfryngau torfol at annog yr union ymddygiad roeddent yn ei gondemnio.
Felly, drwy ragdybio y byddai mwy o drais ar Ŵyl y Banc nesaf, dadleuai Cohen bod y cyfryngau wedi helpu i gynhyrchu proffwydoliaeth hunangyflawnol.

Mae panig moesol felly yn ymwneud â rôl y cyfryngau mewn creu ofnau afresymol am grwpiau gwyrol ac am ymddygiad gwrthgymdeithasol. Mae Cohen yn cynnig amryw o esboniadau pam bod y cyfryngau yn mynd ati i greu 'folk devils' a phanig moesol newydd. Yn gyntaf oll, mae'n dadlau bod rhaid i'r cyhoedd gael pryderon dwfn am ddiwylliant er mwyn iddynt ymateb. Yn ail, mae o'n dadlau bod panig moesol yn digwydd ar adeg o newid cymdeithasol cyflym, sy'n gyfnod ansicr pan fydd pobl yn edrych am fwch dihangol i feio eu hansicrwydd arno. Mae panig moesol yn gallu brawychu a chythruddo'r cyhoedd. Mae'r cyfryngau yn gwaethygu'r broblem drwy bortreadu grwpiau gwyrol fel cythreuliaid a'u hadnabod drwy gyfeirio at eu dillad a'u dulliau teithio.

Byddai cymdeithasegwyr Marcsaidd yn dadlau bod y cyfryngau o blaid grwpiau cryf a phwerus mewn cymdeithas. Er enghraifft, mae entrepreneuriaid moesol yn chwarae ar

© CBAC / WJEC 2015

ansicrwydd pobl (megis golygyddion, prif gwnstabliaid, arweinwyr eglwys, gwleidyddion) ac yn defnyddio'r cyfryngau i fwydo ar yr ansicrwydd hwn ac yn annog panig moesol i chwyddo.
Mae'r cyfryngau'r un mor atebol i greu panig moesol yn fwriadol i'w pwrpas eu hunain. Mae newyddion drwg yn cael mwy o effaith ac yn denu darllenwyr a chynulleidfaoedd. Dadleua McRobbie a Thornton (1995) fod angen ystyried panig moesol o safbwynt datblygiad y cyfryngau a chynulleidfa sy'n fwyfwy soffistigedig.

### Cwestiynau

1. Pam bod yr hyn a ddigwyddodd yn Clacton yn ystod Pasg 1964 wedi bod yn stori ar dudalen flaen y papurau newydd?
2. Ym mha ffyrdd mae Cohen yn dadlau bod y cyfryngau wedi cyfrannu at gynyddu'r union ymddygiad roeddent yn ei gondemnio?
3. O dan ba amgylchiadau mae panig moesol yn fwy tebygol o ddigwydd?

### Allweddeiriau

- Entrepreneuriaid moesol - pobl bwysig sy'n honni eu bod nhw'n gwneud safiad dros foesau'r genedl.
- Symboleiddio - adnabod grwpiau drwy eitemau dillad, dull teithio, steil gwallt ac ati.

## Hall et al. - Plismona'r argyfwng

### Bwledi

- Mae gwaith Hall et al yn astudio sut aeth y cyfryngau ati i greu panig moesol am 'fygio' yn y gynnar yn y 1970au.
- Wrth wneud hyn, dynion ifanc Du a bortreadwyd fel 'mygwyr' nodweddiadol gan y cyfryngau.
- Dadleua Hall et al bod y portread hwn gan y cyfryngau wedi'i wreiddio yn yr anghydfodau eangach mewn cymdeithas a'r tor consensws mewn cymdeithas.
- I ymateb i bryderon y dosbarth rheoli am argyfwng cyfalafiaeth, manteisiodd y cyfryngau ar y cyfle i greu panig moesol i ddargyfeirio'r sylw ac ennyn cefnogaeth y cyhoedd i roi pwerau newydd i'r heddlu.
- Ond, wrth ganolbwyntio ar ddiddordebau'r dosbarth rheoli, mae beirniaid yn dadlau eu bod nhw'n anwybyddu grwpiau eraill oedd â diddordeb personol mewn newid y gyfraith.

### Testun

Ymchwiliodd Hall et al (1979) i'r panig moesol o ganlyniad i'r drosedd 'mygio' yn y 1970au. Yn ogystal â rhoi astudiaeth glasurol o sut mae'r cyfryngau yn creu panig moesol, mae'n rhoi enghraifft ddefnyddiol o'r cyfryngau yn rhoi label ar ddynion Du. Dadleuant fod asiantau gorfodi'r gyfraith yn gweithredu gyda syniadau (stereoteipiau) o sut bobl yw troseddwyr. Mae asiantau rheoli yn rhoi labeli ar fathau neilltuol o bobl, yn yr achos hwn, dynion ifanc Du a bortreadwyd fel 'mygwyr' nodweddiadol. Maent yn dadlau bod y panig moesol wedi arwain at labelu pobl Garibïaidd Affricanaidd fel pobl sy'n debygol o droseddu a'u bod nhw'n fygythiad i bobl Wyn. Mae'r gair mygiwr yn derm y mae'r cyfryngau wedi dechrau ei ddefnyddio o America. Mae hyn wedi arwain at broffwydoliaeth

© CBAC / WJEC 2015

hunangyflawnol gyda chynnydd yn nifer y bobl ifanc Ddu sy'n cael eu harestio. Mae hyn wedi chwyddo'r sefyllfa yn fwy byth wrth i'r cyfryngau bwysleisio nodweddion hil mygwyr os ydynt yn Ddu. Ar yr un pryd, mae teimladau pobl ifanc Ddu o ddieithriad ac anomi yn cynyddu.

A hwythau'n neo-Farcswyr, dadleua Hall et al bod modd defnyddio ymdriniaeth y cyfryngau o fygio yn y 1970au i ddangos sut mae'r cyfryngau a'r gyfraith o blaid buddiannau'r dosbarth sy'n rheoli. Gwnaeth y cyfryngau hyn drwy chwyddo'r broblem ac felly creu panig moesol am fygio. ânt yn eu blaen i ddadlau bod y twf yma mewn straeon am fygio yn y wasg yn gynnar yn y 1970au wedi cyfrannu at y gred gyffredinol bod argyfwng mewn cymdeithas. Gwelwyd bod cyfraith a threfn yn methu'n llwyr, gyda hyn yn amlwg o'r nifer mwy o 'fygwyr' neu ladron ar y stryd. Dadleuant fod gan y cyfryngau, y llywodraeth a'r dosbarth rheoli ddiddordeb personol mewn gorliwio graddfa'r anhrefn treisgar er mwyn i'r cyhoedd gymeradwyo cyfreithiau newydd a rhoi mwy o bwerau i'r heddlu.

Dadleua Hall et al, erbyn y 1970au cynnar, bod y cyfnod 'consensws' ar ôl y rhyfel wedi dod i ben. Roedd rhannau mawr o'r boblogaeth yng Ngogledd Iwerddon yn herio'r consensws yn agored. Hefyd, roedd nifer o streiciau mewn llefydd gwaith a dadleuon diwydiannol. Ar ôl dau ddegawd o gyflogaeth lawn, gwelwyd bod yr economi a oedd ar drai yn gyfrifol am borthi elfennau o aflonyddwch cymdeithasol. Felly, mae'n rhaid deall yr ymdrech i fynd i'r afael â throsedd a thrais ar y strydoedd, yn enwedig ymysg lleiafrifoedd ethnig, yn y cyd-destun hwn. Gwêl Hall et al mai'r dosbarth rheoli sy'n diffinio beth yw anhrefn yn gyntaf oll. Synhwyrodd y cyfryngau'r broblem gymdeithasol hon gan helpu i bortreadu dynion ifanc Du eto fyth fel 'mygwyr' ystrydebol.

Fel gwaith Cohen, mae Hall et al yn portreadu bod y cyfryngau yn cyfrannu at greu darlun o'r hyn sy'n gyfystyr ag 'ymddygiad gwrthgymdeithasol'. Gwelir bod y cyfryngau yn gwneud hyn drwy or-ddweud a gwyrdroi'r ffeithiau. Yn ôl Hall et al, roedd hyn yn tynnu sylw oddi ar y gwir wrthdaro mewn cymdeithas; anghydraddoldeb cymdeithas a'r system gyfalafol. Drwy greu panig moesol am rywbeth yr oedd pobl yn ofni ac yn pryderu, derbyniodd y cyhoedd gyfreithiau a phwerau newydd i'r heddlu. Drwy roi sylw yn y cyfryngau i droseddau ar y stryd, roedd yr amrywiol argyfyngau yn ymwneud â chyfalafiaeth yn ddi-sôn amdanynt. Yn hytrach, yr hyn oedd dan sylw oedd ymdrech foesol a chyfreithiol yn erbyn trais difeddwl. Ond, mae'r rheiny sy'n beirniadu Hall et al yn dadlau bod eu sylw i'r dosbarth rheoli a'r Sefydliad, yn anwybyddu grwpiau eraill sydd â diddordeb personol mewn newid y gyfraith. Beirniadwyd eu gwaith hefyd am bortreadu'r cyfryngau am fod yn rhy benderfynol o lunio'r panig moesol heb ystyried sut y gall cynulleidfaoedd ddehongli'r cyfryngau a dewis beth maent yn ei ddarllen neu'n ei wylio.

## Cwestiynau

1. Sut wnaeth y cyfryngau greu panig moesol am 'fygio'?
2. Yn ôl Hall et al, pam wnaeth y dosbarth rheoli annog y cyfryngau i greu panig moesol?
3. Sut y gellir beirniadu gwaith Hall et al?

## Allweddeiriau

© CBAC / WJEC 2015

- Dieithriad - Term a ddefnyddir gan Farcswyr pan fydd pobl yn teimlo colled ac yn anobeithio am eu sefyllfa.
- Anomi - Term a gysylltir ag Emile Durkheim i gyfeirio at bobl heb integreiddio digon i normau a gwerthoedd cymdeithas.
- Y Sefydliad - casgliad cymhleth o'r 'mawr a'r da' sydd gyda'i gilydd, yn ôl Marcswyr, yn cynrychioli canol gwir bŵer cymdeithas.

## Panig moesol yn ddiweddar

### Bwledi

- Honna McRobbie a Thornton bod y syniad o banig moesol wedi dyddio ac yn dirywio.
- Roedd gan farwolaeth Leah Betts yr holl ddeunydd ar gyfer creu panig moesol clasurol am bobl ifanc a chymryd cyffuriau.
- Cafwyd panig moesol yn ddiweddar am ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

### Testun

Mae McRobbie a Thornton (1995) yn honni bod y syniad o banig moesol wedi dyddio ac yn dirywio. Dadleuant fod y cyfryngau wedi datblygu mwy, a bod cynulleidfa'r cyfryngau wedi dod yn fwyfwy soffistigedig. Ond, mae'r cyfryngau yn dal yn gallu creu panig moesol a throi grwpiau gwyrol yn 'folk devils'. Er enghraifft, gallai enghreifftiau diweddar gynnwys pryderon am 'yobbettes' neu 'alco-yobs'. Mae 'alco-yobs' fel arfer yn cael eu cyfuno â phanig moesol eangach am yfwyr sbri (binge drinkers) o fewn cyd-destun pryderon am ymddygiad pobl a 'chwalfa gymdeithasol' cymdeithas.

Roedd panig moesol yn y cyfryngau am bobl ifanc a gymerai cyffuriau o ganlyniad i farwolaeth yr eneth ysgol ifanc yn y 1990au ar ôl cymryd tabledi ecstasi yn ei pharti pen blwydd yn ddeunaw oed. Oherwydd bod ei theulu hi yn bobl broffesiynol, yn byw yng nghanolbarth Lloegr, a'i bod hi'n cael ei disgrifio yn 'ifanc, yn ddosbarth canol ac yn ddel', roedd gan y stori newyddion y pŵer i greu panig moesol clasurol. Drwy chwalu'r stereoteip arferol o ddefnyddwyr cyffuriau, roedd yr achos yn dangos bod cymryd cyffuriau yn arfer prif-lif ymysg llawer o bobl ifanc. Roedd y cyfryngau yn gallu creu 'folk devils' allan o ddefnyddwyr cyffuriau ifanc; ond yn enwedig y delwyr a'r gwerthwyr oedd yn gwthio'r cyffuriau.

Mae papurau newydd tabloid, yn arbennig, wedi bod yn gyfrifol am greu panig moesol am fewnfudo, gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn cael eu troi'n 'folk devils'. Mae'r cyfryngau yn defnyddio iaith emosiynol, megis 'swamping' a 'welfare scroungers' er mwyn troi barn y cyhoedd a gorliwio'r broblem. Hefyd, mae cysylltiadau yn aml yn cael eu gwneud rhwng ceiswyr lloches a brawychiaeth, heb unrhyw dystiolaeth gadarn i gefnogi cyhuddiadau o'r fath. Grŵp arall sydd wedi creu panig moesol yw pobl ifanc sy'n gwisgo hwdi. Yn 2005, rhoddodd y cyfryngau gryn sylw i'r newyddion bod canolfan siopa Bluewater yn Essex wedi gwahardd siopwyr rhag gwisgo hwdi ac/neu gapiau pêl fas. Pan gyhoeddodd y Prif Weinidog ar y pryd, David Cameron, mewn gwrthwynebiad y dylem ni 'gofleidio hwdi', cafodd ei wawdio gan y cyfryngau. Mae'n well gan y cyfryngau'r syniad syml bod llawer o droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael ei achosi gan hwdis, er nad oes tystiolaeth i gefnogi'r farn ystrydebol hon.

© CBAC / WJEC 2015

### Cwestiynau

1. Pam bod McRobbie a Thornton yn teimlo bod y syniad o banig moesol wedi dyddio ac yn dirywio?
2. Pam oedd gan farwolaeth Leah Betts yr holl ddeunydd ar gyfer creu panig moesol clasurol?
3. Ar beth mae'r panig moesol am geiswyr lloches a hwdis wedi'i seilio?

### Allweddeiriau

- Ceiswyr lloches - pobl sy'n symud i wlad newydd oherwydd eu bod nhw'n ofni am eu lles neu hyd yn oed eu bywyd yn eu gwlad eu hunain.
- Leah Betts - geneth ifanc a fu farw ar ôl cymryd ecstasi yn ei pharti pen blwydd yn ddeunaw oed. Tra roedd hi mewn coma yn yr ysbyty, rhoddodd ei rhieni ganiatâd i'r cyfryngau ddefnyddio llun ohoni hi.

## Sut mae Panig Moesol yn dod i'r amlwg?

### Bwledi

- Mae Cohen a Furedi yn gweld bod cysylltiad neilltuol rhwng panig moesol a chyfnodau o newid mewn cymdeithas.
- Defnyddiwyd panig moesol fel esgus i gynyddu pwerau'r heddlu a chyflwyno cyfreithiau newydd.
- Dadleua Marcswyr bod panig moesol yn cael ei ddefnyddio'n sinigaidd i gorddi pryderon pobl er mwyn gwerthu papurau newydd a denu gwylwyr teledu.
- Dadleua Lea ac Young bod panig moesol yn cydio pan fydd gan y cyhoedd eisoes yr un ofnau a phryderon.

### Testun

Mae Frank Furedi (1994) yn cytuno â Cohen bod cysylltiad rhwng panig moesol a chyfnodau o newid mewn cymdeithas. Mae o'n gweld panig moesol yn datblygu yn arbennig ar adegau pan fydd rhyw deimlad bod rheolaeth gymdeithasol dan fygythiad. Yn yr ystyr hwn, mae'r cyfryngau fel drych yn adlewyrchu'r ofnau a'r pryderon sydd mewn cymdeithas. Mae Cohen ac Young (1981) yn rhannu'r farn hon, gan ddadlau bod troi grwpiau neilltuol yn 'folk devils' yn deillio o newyddiadurwyr yn ymateb i farn gyffredin am grwpiau sy'n herio gwerthoedd gweddus a derbyniol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r safbwynt amlblwyfol o'r cyfryngau fel drych yn adlewyrchu gwerthoedd yn gynulleidfa yn ôl iddynt a rhoi i'r cyhoedd yr union beth maen nhw eisiau.

Mae gwaith y cymdeithasegwyr neo-Farcsaidd Hall et al uchod yn enghraifft o banig moesol am 'fygio' yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno cyfreithiau newydd. Er enghraifft, defnyddiodd y wladwriaeth y panig moesol a dyfodd allan o'r ofn o derfysgwyr Islamaidd i basio cyfreithiau ers 2001 sydd wedi cyfyngu'n sylweddol ar ryddid pobl sy'n cadw ar ochr iawn y gyfraith. Mae'r panig moesol o ganlyniad wedi creu cymaint o ofn am frawychiaeth nes bod y cyhoedd wedi bod yn barod i gefnogi'r cyfreithiau newydd hyn. Mae Marcswyr eraill wedi dadlau bod panig moesol yn cael ei ddefnyddio yn sinigaidd i gorddi ofnau a phryderon pobl er mwyn gwneud mwy o refeniw ac elw. Mae'r syniad bod panig moesol yn cael ei ddefnyddio i wella refeniw yn cael ei gefnogi gan y ffordd mae'r cyfryngau yn

© CBAC / WJEC 2015

cefnu ar straeon unwaith mae'r cyhoedd wedi colli diddordeb ynddynt.

Mae gan Lea ac Young ddadl syml pam bod panig moesol yn datblygu. Dadleuant na fyddai gan banig moesol unrhyw hygrededd oni bai bod rhyw sail gwirionedd iddo. Gwelir bod gan y gynulleidfa syniadau yn barod am grwpiau neilltuol o bobl y credant sy'n fygythiad. Er mwyn i banig moesol gydio, rhaid iddo fynd i'r afael â'r ofnau a'r pryderon hyn. Mae hyn yn debyg i bwynt a wna Cohen wrth iddo ddadansoddi pam bod y panig moesol am y modiaid a'r rocwyr wedi cydio. Roedd gan bobl ofnau a phryderon yn gyffredinol am bobl ifanc - gwelwyd bod ganddynt werthoedd gwahanol i werthoedd prif lif. Roedd straeon am bobl ifanc gwyrol a threisgar yn ymladd mewn trefi glan môr yn cadarnhau i'r darllenwyr oedd yn heneiddio bod cyfraith a threfn ar chwâl, a bod pobl ifanc, ar y cyfan, y tu allan i normau a gwerthoedd parchus cymdeithas. Mae Lea a Young yn rhannu'r farn bod rhaid i'r gynulleidfa fod yn barod i dderbyn y neges er mwyn i banig moesol gydio.

### Cwestiynau

1. Ym mha ffyrdd mae panig moesol yn cael ei gysylltu â chyfnodau o newid mewn cymdeithas?
2. Beth yw'r dystiolaeth bod panig moesol yn arddel y safbwynt amlblwyfol?
3. Sut mae Marcswyr yn egluro'r ffordd mae panig moesol yn cael ei greu?
4. Beth yw sail dadl Lea ac Young am banig moesol?

### Allweddeiriau

- Alco-yobs - pobl ifanc gwyrol y mae eu hymddygiad yn gysylltiedig ag yfed gormod o alcohol.
- Yobettes - merched ifanc sy'n ymddwyn yn ddrwg.

## I ba raddau y maer cyfryngau'n cynhyrchu effeithiau ar eu cynulleidfa

### Model Chwistrell Hypodermig

### Bwledi

- Mae'r model hypodermig yn gysylltiedig â'r safbwynt Marcsaidd ac â gwaith Ysgol Frankfurt yn benodol.
- Mae'n ystyried bod dylanwad y cyfryngau'n cynyddu fel ymateb i ddirywiad y gymuned a chymdeithas fwyfwy unigolyddol.
- Dan amgylchiadau o'r fath, y cyfryngau yw prif bwynt cyfeirio pobl i raddau cynyddol, felly mae'n ddylanwad mwy pwerus.
- Nid yw ymchwil Huesmann et al yn ystyried newidynnau eraill sy'n effeithio ar bobl heblaw'r cyfryngau.
- Mae'r model hypodermig wedi cael ei feirniadu am ddadansoddi gor-syml ac am bortreadu cynulleidfa sy'n rhy oddefol ac yn homogenaidd.

### Testun

© CBAC / WJEC 2015

Mae'r model chwistrell hypodermig yn gysylltiedig â'r safbwynt Marcsaidd. Yn benodol, mae'n gysylltiedig â'r Ysgol Frankfurt neo-Farcsaidd a gafodd brofiad uniongyrchol o arsylwi sut yr oedd y Natsïaid yn llwyddo i reoli'r cyfryngau at ddibenion propaganda. Ystyrir bod y cyfryngau'n gyffur narcotig sy'n llethu gallu pobl i feddwl. Yn yr 1930au, y Natsïaid oedd un o'r grwpiau gwleidyddol cyntaf i ddefnyddio radio a ffilm i gyflyru'r werin. Roedd aelodau o Ysgol Frankfurt megis Herbert Marcuse a Theodore Adorno'n rhagweld posibilrwydd newydd i'r cyfryngau reoli pobl mewn modd a allai fod yn frawychus. Roeddent yn cyflwyno golwg ar fyd cyfoes a oedd wedi'i gyfansoddi o unigolion gwasgaredig yn wynebu mwy a mwy o negeseuon propaganda pwerus: proses a elwir yn narcoteiddio.

Er mai damcaniaeth Farcsaidd yw hon, mae tarddiadau'r model hwn yn rhannu syniadau Durkheim am ddirywiad y gymuned. Ochr yn ochr â hyn, roedd Ysgol Frankfurt yn ystyried bod cymdeithas yn fwyfwy unigolyddol a bod pobl yn cael eu hystyried fel 'atomau' arunig. Roeddent yn dadlau nad oedd gwir ymdeimlad o gymuned i roi siâp ac ystyr i fywydau pobl. Fel damcaniaeth, roedd yn ymateb i'r byd o ansicrwydd ar ddechrau'r ganrif ddiwethaf. Mae'n portreadu'r cyfryngau fel prif bwynt cyfeirio pobl i raddau cynyddol. O ganlyniad, gan yr ystyrir bod y gynulleidfa'n homogenaidd ac yn oddefol, ystyrir bod unigolion yn wan i negeseuon unigol (monosemi).

Er bod y model chwistrell hypodermig yn syml a ddim yn soffistigedig, roedd yn ymddangos y cafodd gefnogaeth gan ddrama radio Orson Welles, War of the Worlds, a ddarlledwyd yn 1938. Drwy ei dramateiddio â bwletinau newyddion ffug rheolaidd, llwyddodd i argyhoeddi nifer o wrandawyr bod goresgyniad o'r blaned Mawrth yn digwydd mewn gwirionedd. O fewn munudau ar ôl dechrau'r darllediad, roedd miloedd o bobl wedi ffoi i'r ffyrdd mewn panig i ddianc o Efrog Newydd. Roedd yr effaith mor ddifrodus nes y newidiwyd rheolau darlledu yn UDA er mwyn atal unrhyw beth tebyg rhag digwydd eto. Fodd bynnag, dadleuir mai'r rheswm am i'r rhaglen radio hon achosi cymaint o banig oedd ei bod wedi'i darlledu ar Nos Calan Gaeaf a'r ffaith bod cymdeithas America'n teimlo'n gyffredinol ansicr ar y pryd. Mae Cantril (1940) yn awgrymu mai cyfuniad o ansawdd realistig y darllediad a sefyllfa gymdeithasol a diwylliannol y gwrandawyr a achosodd yr ofn.

Mae'r model hypodermig yn dal i fod â rhywfaint o ddylanwad mewn cymdeithas gyfoes, yn eironig o fewn y cyfryngau eu hunain, sy'n cwestiynu eu dylanwad eu hunain pryd bynnag y ceir digwyddiad dychrynllyd megis achos Jamie Bulger. Cafwyd mwy o gefnogaeth gan Huesmann et al. (2003) sy'n dadlau bod ymddygiad anhrefnus yn un o effeithiau uniongyrchol y ffordd y mae'r cyfryngau'n portreadu trais. Mae eu hymchwil yn ceisio dangos effeithiau hirdymor gwylio rhaglenni teledu â chynnwys treisgar yn ystod plentyndod ar drais gwirioneddol yn ystod oedolaeth. Gan ddefnyddio 'astudiaeth hydredol', maent yn hawlio y gellid bod cydberthyniad rhwng ymddygiad ymosodol rhai o'r oedolion yn eu hastudiaeth a gwylio trais ar y teledu pan roeddent yn blant. Fodd bynnag, mae eu gwaith wedi cael ei feirniadu am fethu â dangos i ba gyfeiriad y mae'r dylanwad yn gweithredu. Er enghraifft, os yw oedolyn yn ymosodol, gallai hyn adlewyrchu'r ffaith ei fod eisoes yn ymosodol yn blentyn ac felly'n fwy tueddol o wylio rhaglenni mwy treisgar ar y teledu.

Er bod y model hypodermig yn cydnabod sut y gallai'r cyfryngau effeithio ar y cyhoedd, mae wedi cael ei feirniadu am fod yn or-syml. Canfu rhai cymdeithasegwyr megis David Buckingham (1993) nad oedd trais mewn cartwnau'n dylanwadu ar blant gan eu bod yn

© CBAC / WJEC 2015

deall nad yw'n real. Os gall plant ddarllen y cyfryngau, mae'n rhaid ei bod yn wir y gall y gynulleidfa gynnal dadansoddiad mwy soffistigedig. Felly, ystyrir bod y portread hypodermig o gynulleidfa oddefol sy'n amsugno negeseuon y cyfryngau fel sbwng yn naïf. Mae hefyd yn methu â gwahaniaethu rhwng effeithiau tymor byr a hirdymor. Fe'i beirniadwyd hefyd am anwybyddu unrhyw agweddau sy'n bodoli eisoes ymysg y gynulleidfa. Ar yr un pryd, drwy ystyried bod y gynulleidfa'n homogenaidd, mae'n anwybyddu'r ffordd y bydd unigolion yn defnyddio ac yn dethol negeseuon gan y cyfryngau. Fodd bynnag, mae Sweden a Norwy wedi gwahardd deunydd treisgar i blant gan gredu tystiolaeth sy'n awgrymu na all plant dan 10 oed ddweud y gwahaniaeth rhwng ffuglen a realaeth.

### Cwestiynau

1. Dylanwad pwy a arweiniodd Ysgol Frankfurt i gredu y gallai'r cyfryngau fod â rheolaeth bwerus dros eu cynulleidfa?
2. Pa ddigwyddiad yn 1938 yr ystyrir ei fod yn rhoi tystiolaeth o blaid y model hypodermig?
3. A yw gwaith Huesmann et al yn rhoi cefnogaeth argyhoeddiadol i'r model hypodermig?
4. Sut y gellir beirniadu'r model hypodermig?

### Allweddeiriau

- Goddefol - Gwan a diegni.
- Homogenaidd - pan fydd yr un nodweddion gan grŵp cyfan.
- Achos Jamie Bulger - cafodd bachgen ifanc ei arwain o ganolfan siopa a'i lofruddio gan ddau fachgen ysgol; hawliwyd eu bod wedi gwylio ffilm dreisgar cyn hyn.
- Monosemi - un neges gan y cyfryngau.

## Model Cynulleidfa Weithredol

### Bwledi

- Mae'r model cynulleidfa weithredol yn herio'r portread o gynulleidfa oddefol a homogenaidd sy'n amsugno negeseuon y cyfryngau fel sbwng.
- Mae'r model llif dau gam yn ystyried bod negeseuon y cyfryngau'n cael eu dehongli gan yr arweinwyr barn sydd yna'n dylanwadu ar aelodau'r gynulleidfa.
- Mae model hidlo detholus Klapper yn ystyried bod y gynulleidfa'n defnyddio tri hidlydd yn weithredol wrth ymateb i negeseuon y cyfryngau: derbyn detholus, canfyddiad detholus a chof detholus.
- Roedd model deongliadol Morley'n edrych ar wahanol 'ddehongliadau' o Nationwide a chanfu dri ymateb bras: dehongliad dewisol (trechol); dehongliad wedi'i negodi a dehongliad gwrthwynebus.
- Mae'r model cynulleidfa weithredol wedi cael ei feirniadu am orliwio i ba raddau y mae cefndir cymdeithasol yn dylanwadu ar ddehongliad y gynulleidfa.

### Testun

Y model cynulleidfa weithredol cyntaf yw'r model llif dau gam. Mae hwn yn rhannu safbwynt y swyddogaethwyr, gan bwysleisio ar natur drefnus a chonsensws cymdeithas. Fel y model hypodermig, mae hefyd wedi cael ei ddisgrifio fel bod yn naïf, yn yr achos

© CBAC / WJEC 2015

hwn, gan nad yw'n rhoi llawer o bwyslais ar wrthdaro. Mae ei darddiad yn mynd yn ôl i ymchwil Robert Merton yn UDA yn yr 1940au a'r 1950au, ond caiff ei gysylltu agosaf â Katz a Lazarsfeld (1965). Yn hytrach na bod y gynulleidfa'n amsugno negeseuon yn syth o'r cyfryngau, awgrymasant fod proses llif dau gam yn digwydd.

Roedd hyn yn gwrthod y farn or-syml bod gan y cyfryngau torfol effaith lwyr ar gynulleidfa homogenaidd. Yn hytrach, mae'r rhagdybiaeth 'dau gam' yn awgrymu bod dylanwad y cyfryngau'n eithaf cyfyngedig mewn gwirionedd. Y rheswm am hyn yw bod negeseuon y cyfryngau eu hunain yn cael eu cyfryngu gan brosesau megis canfyddiad detholus a chof detholus. Hefyd, mae'r model yn rhoi pwysigrwydd sylweddol i 'arweinwyr barn'. Pobl uchel eu parch a dylanwadol yw'r rhain (ffrindiau, cydweithwyr, perthnasau) y mae pobl eraill yn edrych i fyny atynt. Caiff negeseuon y cyfryngau eu dehongli gan yr arweinwyr barn, ac yna maent hwy'n dylanwadu ar aelodau'r gynulleidfa, sy'n cyfeirio atynt hwy cyn gwneud eu penderfyniadau eu hunain am neges gan y cyfryngau. Felly, caiff negeseuon sy'n llifo o'r cyfryngau eu dehongli gan arweinwyr barn a'u trosglwyddo i adrannau llai gweithredol y boblogaeth.

Cymhelliad y model hwn oedd cynyddu refeniw hysbysebu drwy ddarparu tystiolaeth o effeithiau mesuradwy tymor byr y cyfryngau. Ar yr un pryd, roedd yr ymchwilwyr yn dymuno gwneud yn fach o'r syniad bod gan y cyfryngau nifer o effeithiau mesuradwy hirdymor. Yn amlwg, arweiniodd hyn at ganfyddiadau croesddywedol. Cafodd y cyfryngau eu portreadu fel mai ychydig iawn o effeithiau negyddol yr oeddent yn eu cael ar eu cynulleidfa, ond hawliodd y cyfryngau masnachol eu bod yn sefydliadau pwerus at ddibenion hysbysebu. Defnyddiodd Katz a Lazarfeld y casgliad nad yw'r cyfryngau torfol ond yn atgyfnerthu'r hyn yr oedd pobl eisoes yn ei gredu er mwyn ategu'r syniad nad yw'r cyfryngau'n cael llawer o effaith. Ystyrir bod y syniad hwn o effeithiau cyfyngedig yr un mor naïf â'r effeithiau enfawr a dybir yn y model hypodermig.

Mae beirniadaethau o'r model llif dau gam yn cynnwys y pwynt bod canolbwyntio ar newidiadau tymor byr mewn agweddau a barn yn anwybyddu effeithiau hirdymor. Cafodd y rhan fwyaf o'r ymchwil ei gomisiynu'n benodol i ddangos newidiadau ymddygiad tymor byr yn unig (i annog y posibilrwydd o hysbysebu) ac felly i wneud yn fach o unrhyw fygythiad hirdymor gan y cyfryngau. Nid yw'n egluro'n llawn ychwaith pam y gall y cyfryngau ddylanwadu'n uniongyrchol ar arweinwyr barn ond nid ar y gynulleidfa dorfol. Felly, mae'r casgliad bod effeithiau'r cyfryngau'n gyfyngedig wedi cael ei feirniadu am fod yn or-syml ac yn anystyriol. Mae ei gefndir swyddogaethol wedi'i feirniadu am ystyried bod y cyfryngau'n ddiniwed gan fwyaf ac mai dim ond atgyfnerthu barn bresennol y maent. Byddai Marcswyr yn nodi bod hyn yn wir yn effaith arwyddocaol i'r cyfryngau: atal newid rhag digwydd.

Mae'r ail fodel cynulleidfa weithredol yn canolbwyntio ar y dull deongliadol ac yn cydnabod sut y mae'r gynulleidfa'n hidlo negeseuon y cyfryngau. Datblygodd Klapper (1960) y model hidlo detholus a thrafododd dri hidlydd y mae'r gynulleidfa'n eu defnyddio wrth ymateb i negeseuon y cyfryngau. Y cyntaf yw derbyn detholus ble mae pobl yn dueddol o ddewis derbyn negeseuon gan y cyfryngau y maent yn cytuno â hwy gan fwyaf. Yr ail yw canfyddiad detholus ble mae ymateb pobl i negeseuon yn dibynnu a ydynt yn cytuno â hwy ai peidio. Y trydydd hidlydd yw cof detholus ble nad yw pobl ond yn cofio'r negeseuon hynny y maent yn credu eu bod yn ddilys neu'n wir.

Mae'r model hwn yn ystyried bod cynulleidfaoedd yn weithredol o ran dehongli a gwrthod

© CBAC / WJEC 2015

negeseuon y cyfryngau o gymharu â chynulleidfa oddefol y model hypodermig. Datblygodd David Morley (1980) ei Fodel Deongliadol sy'n pwysleisio sut y mae'r gynulleidfa'n dehongli negeseuon y cyfryngau, yn hytrach nag effeithiau'r cyfryngau ar bobl. Drwy astudio sut yr oedd gwahanol bobl yn gwylio rhaglen deledu newyddion/cylchgrawn gyda'r nos o'r enw Nationwide, dangosodd fod ganddi wahanol ystyron i wahanol bobl. Dadl Morley yw y gellir categoreiddio mathau o ymatebion y gynulleidfa'n dri phrif fath, yn unol â sut y caiff y darllediad ei 'ddehongli' neu ei ddeall:

1. Dehongliad dewisol (trechol): gall y gynulleidfa gymeradwyo prif werthoedd synnwyr cyffredin y rhaglen sy'n ddistaw'n cyfiawnhau'r status quo.

2. Dehongliad wedi'i negodi: mae'r gynulleidfa'n gyffredinol yn derbyn ystyr y rhaglen fel y'i rhoddir ond maent yn ceisio ei addasu neu ei ddiwygio drwy wneud eithriadau neu amodau'n unol â'u sefyllfa eu hunain.

3. Dehongliad gwrthwynebus: gall gwylwyr wrthod a gwrthwynebu dehongliadau a negeseuon y cyfryngau.

Ceisiodd Morley ganfod patrymau y tu ôl i ba fath o bobl oedd yn gysylltiedig â phob un o'r dehongliadau hyn. Fel ymateb i'r rhaglenni Nationwide a ddangosodd i'w gynulleidfa, fe welodd fod undebwyr llafur a myfyrwyr duon yn 'wrthwynebus', a bod rheolwyr banciau'n drechol. Mae'r model cynulleidfa weithredol felly'n herio syniadau o dderbynwyr goddefol i negeseuon y cyfryngau. Yn hytrach, mae'n ystyried bod y cynulleidfaoedd yn mynd ati'n weithredol i ddehongli'r hyn y maent yn ei glywed a'i weld.

Fodd bynnag, mae'r model cynulleidfa weithredol hefyd wedi cael ei feirniadu am orliwio i ba raddau y mae'r gynulleidfa'n eu dehongli o ran isddiwylliant neu gefndir cymdeithasol. Er enghraifft, mae gwaith Morley wedi cael ei feirniadu am roi gormod o bwyslais ar sut y mae cefndir cymdeithasol (oed, rhyw, grŵp ethnig, dosbarth) yn siapio ymateb unigol. Mewn geiriau eraill, mae rhai pobl yn cwestiynu faint o wahaniaeth sydd rhwng pobl o ran eu 'dehongliad' o'r neges a fwriadwyd gan y cyfryngau. Hefyd, roedd ymchwil Morley'n seiliedig ar samplau bach o'r cyfryngau a phobl, gan edrych yn bennaf ar effeithiau tymor byr. Felly, mae'n anwybyddu potensial y cyfryngau i atgyfnerthu effeithiau hirdymor cryf. Mae'r model effeithiau diwylliannol isod yn rhoi sylw i'r feirniadaeth olaf hon.

## Cwestiynau

1. Sut y caiff negeseuon y cyfryngau eu cyfryngu gan arweinwyr barn yn ôl y model dau gam?
2. Beth yw'r tri hidlydd y mae'r gynulleidfa'n eu defnyddio wrth ymateb i negeseuon y cyfryngau yn ôl model hidlo detholus Klapper?
3. Amlinellwch y gwahanol ddehongliadau o'r cyfryngau yn ôl model deongliadol Morley.
4. Sut y gellir beirniadu'r model cynulleidfa weithredol?

## Allweddeiriau

- Arweinwyr barn - aelodau o rwydweithiau cymdeithasol pobl sy'n uchel eu parch yn gyffredinol.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

## Model defnydd a boddhad

### Bwledi

- Datblygwyd y model defnydd a boddhad gan Katz a Lazarsfeld a ddefnyddiodd y cydweddiad bod y cyfryngau fel silff mewn archfarchnad.
- Mae amryw o gymdeithasegwyr wedi mynegi rhestri tebyg o'r ffyrdd y mae'r gynulleidfa'n defnyddio'r cyfryngau.
- Mae'r model yn haeddu clod am bortreadu cynulleidfa sy'n ymgysylltu â'r cyfryngau mewn modd gweithredol a detholus.
- Fodd bynnag, fe'i beirniadwyd am ganolbwyntio ar agweddau cadarnhaol gan anwybyddu agweddau camweithredol ar y cyfryngau.

### Testun

Datblygwyd y model defnydd a boddhad gan Katz a Lazarsfeld. Fel y model cynulleidfa weithredol, roedd yn ceisio ymchwilio i'r gwahanol ffyrdd y mae'r gynulleidfa'n 'defnyddio' cyfryngau. Roeddent yn cymharu'r cyfryngau â silff mewn archfarchnad ble gall pobl ddewis a chymryd yr hyn sydd ei eisiau a'i angen arnynt. Canfu Blumler a Katz (1974) bedwar math o angen yr oedd cynulleidfaoedd yn eu ceisio gan y cyfryngau. Roeddent yn galw'r cyntaf yn goruchwylio; cael gwybodaeth am beth sy'n digwydd yn y byd. Yr ail yw dargyfeirio; pan fydd pobl yn defnyddio'r cyfryngau i gael saib o'u trefn ddyddiol a'u gwaith. Y trydydd yw perthynas bersonol; y perthnasoedd unigol a gaiff pobl drwy brofiadau cyfryngau. Y pedwerydd yw hunaniaeth bersonol; y broses o archwilio eu hunain drwy fyfyrio am gynnwys y cyfryngau a rhaglenni.

Cynigiodd Dennis McQuail (1972) ddadansoddiad bron yn union yr un fath o sut yr oedd cynulleidfaoedd yn defnyddio'r cyfryngau'n weithredol. Awgrymodd fod y cyfryngau'n cael eu defnyddio fel dihangfa neu ddargyfeiriad oddi wrth drefn ddyddiol, fel modd o wella perthnasoedd personol pobl drwy gopïo delfrydau ymddwyn y cyfryngau, fel modd o gadarnhau neu siapio hunaniaeth bersonol drwy'r cyfryngau yr ydym yn eu derbyn ac fel modd o addysg, gwybodaeth a goruchwyliaeth o'r gymdeithas yr ydym yn byw ynddi. Cynhyrchodd James Lull (1990) restr debyg i un McQuail o ddefnyddiau'r gynulleidfa o gyfrwng penodol y teledu: sŵn cefndir, cwmpeini ac adloniant; atalnodi amser a strwythuro'r diwrnod; ffynhonnell o sgwrs ag eraill; a ffynhonnell o wybodaeth ac addysg.

Mae gan y model defnydd a boddhad nifer o gryfderau amlwg. Mae'n rhannu nodweddion y model cynulleidfa weithredol. Ystyrir bod y gynulleidfa'n wahaniaethol yn hytrach na defnyddio tybiaethau homogenaidd y model hypodermig. Mae canolbwyntio ar sut y mae unigolion yn defnyddio'r cyfryngau ac yn cael boddhad ohonynt yn dangos sut y mae gwahanol grwpiau cynulleidfa'n defnyddio'r cyfryngau'n wahanol. Fodd bynnag, fel model o effeithiau'r cyfryngau mae wedi cael ei feirniadu am roi darlun gor-syml o'r cyfryngau fel silff mewn archfarchnad y gall defnyddwyr ei defnyddio i 'ddewis' yr hyn sydd ei angen arnynt. Mae hefyd yn trin pobl fel unigolion hunangynhaliol sydd wedi'u harwahanu o ddylanwadau cymdeithasol, diwylliannol a chefndirol. Fel dull cysylltiedig â swyddogaetholdeb, mae'n gorbwysleisio swyddogaethau cadarnhaol y cyfryngau gan anwybyddu agweddau camweithredol. Yn gysylltiedig â'r pwynt hwn, mae'n methu â chydnabod cryfder rhai negeseuon gan y cyfryngau a all gludo dylanwadau trechol a phwerus, neu allu hysbysebu i greu anghenion ffug.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

### Cwestiynau

1. Ym mha ffyrdd y mae'r model hwn yn cymharu'r cyfryngau â silff mewn archfarchnad?
2. Enwch nifer o'r gwahanol anghenion y mae pobl yn defnyddio'r cyfryngau i'w diwallu.
3. Sut y gellir beirniadu'r model defnydd a boddhad?

### Allweddeiriau

- Anghenion ffug - pan fydd hysbysebu dwys yn perswadio pobl ar gam bod prynu eitem benodol yn hollbwysig i'w lles cymdeithasol.

## Model effeithiau diwylliannol Marcsaidd

### Bwledi

- Mae'r model effeithiau diwylliannol yn seiliedig ar Farcsiaeth ac wedi'i gysylltu'n agos â GUMG.
- Ystyrir bod y cyfryngau'n siapio agweddau a gwerthoedd hirdymor pobl drwy 'drip-drip' parhaus negeseuon ideolegol.
- Dangosodd GUMG dystiolaeth o duedd y cyfryngau ond ni allent ddangos effeithiau hyn ar gynulleidfaoedd.
- Drwy ddadansoddi digwyddiadau yn y cyfryngau megis streic y glowyr, mae Greg Philo'n hawlio ei fod yn dangos tystiolaeth bod credoau'r gynulleidfa'n tarddu o adroddiadau'r cyfryngau.

### Testun

Datblygwyd y model effeithiau diwylliannol gan gymdeithasegwyr Marcsaidd, yn enwedig Grŵp Cyfryngau Prifysgol Glasgow (GUMG). Roeddent yn cydnabod y gall y cyfryngau siapio agweddau a gwerthoedd pobl drwy 'drip-drip' parhaus negeseuon ideolegol. Mae'n ystyried bod effeithiau'r cyfryngau'n gronnus, a'u bod yn cynyddu credoau'r gynulleidfa ac yn atgyfnerthu eu gwerthoedd. Canfuant gydberthyniad rhwng y themâu a ailadroddir yn y cyfryngau a'r hyn y mae grwpiau cynulleidfa yna'n ei gofio, ei ddeall ac yn aml ei gredu. Fel model effeithiau cyfryngau, mae'n cydnabod pŵer y cyfryngau ac yn cydnabod hefyd y gall y gynulleidfa fod yn weithredol wrth dderbyn negeseuon y cyfryngau. Felly, portreadir bod effeithiau'r cyfryngau'n anuniongyrchol, mewn modd sy'n fwy soffistigedig a hirdymor o gymharu â'r model hypodermig.

Ystyrir bod y cyfryngau'n bwerus ond yn gynnil, o ran y ffordd y gallant atgyfnerthu negeseuon ideolegol ac adnewyddu arwyddion a symbolau diwylliannol. Mae rhai pobl yn ystyried bod hyn yn rhywfaint o baradocs. Ystyrir bod y cyfryngau'n chwaraewr pwysig o ran atgynhyrchu'r syniadau diwylliannol, ond eu bod yn gwneud hyn drwy drip-drip syniadau; nid yw'n amlwg nac yn weladwy. Felly, mae'n anodd profi hyn neu eu dal yn gwneud hyn gan ei bod bron yn amhosibl gwahanu dylanwad y cyfryngau a dylanwadau eraill.

Fel Marcswyr, mae cefnogwyr 'effeithiau diwylliannol' yn ystyried mai'r themâu ideolegol sy'n cael eu hatgyfnerthu'n aml yw'r rhai sy'n cyd-fynd â buddiannau trechol. Fel

© CBAC / WJEC 2015

damcaniaeth, mae wedi'i chysylltu'n agos â dadansoddiad o bwy sy'n berchen ar y cyfryngau ac yn eu rheoli, ac o sut y caiff ideolegau trechol eu trawsyrru. Un ffordd o fynegi hyn yw'r pyramid mynediad, ble mae'r cyfryngau'n portreadu syniadau a negeseuon sydd gan fwyaf yn adlewyrchu buddiannau pwerus. I gadarnhau'r farn hon, cynhaliodd GUMG, gan gynnwys aelodau allweddol megis Greg Philo, ddehongliadau semiolegol manwl o negeseuon y cyfryngau. Casgliad GUMG, mewn cyfres o astudiaethau, oedd bod negeseuon cudd y newyddion ar y teledu'n systematig o blaid ideoleg drechol cymdeithas gyfalafol. Fodd bynnag, er gwaethaf dadansoddiadau trwyadl a systematig a oedd yn dangos tuedd o fewn y cyfryngau, ni allai GUMG ddangos effeithiau hyn ar gynulleidfaoedd, yn enwedig yn hirdymor.

Mae Greg Philo (1990) wedi cynnal nifer o astudiaethau ymchwil i geisio goresgyn hyn. Er enghraifft, astudiodd bobl flwyddyn ar ôl diwedd streic y glowyr yn 1984/5. Cyflwynodd 12 llun o'r streic i bobl a gofyn iddynt ysgrifennu a lluniadu eu byrddau stori newyddion eu hunain. Canfu fod pobl yn cadw agweddau clir am streic y glowyr a phicedu pyllau glo. Ei gasgliad oedd bod credoau o'r fath yn deillio'n sylweddol o adroddiadau'r teledu am y digwyddiadau. Canfu fod pobl yn aml yn defnyddio bron yn union yr un geiriau ag a ddefnyddiodd darllenwyr y newyddion dros flwyddyn ynghynt. Mae'r dystiolaeth hon yn ategu'r model effeithiau diwylliannol sy'n dweud bod y gynulleidfa'n mewnoli drip-drip negeseuon y cyfryngau. Yn aml, mae'r berthynas hon rhwng achosion ac effeithiau'n un hirdymor, nid tymor byr.

Cryfder y model effeithiau diwylliannol yw, er nad yw'n dweud bod unigolion yn dderbynwyr goddefol (fel y mae'r model hypodermig yn ei awgrymu), ei fod yn dweud bod gan y cyfryngau effaith bwerus ar ymwybod a chredoau'r gynulleidfa. Fel damcaniaeth, mae o blaid cysyniad pennu'r agenda: gallu'r cyfryngau i sefydlu blaenoriaethau ar gyfer trafodaethau cyhoeddus. Mae'n dangos ei bod yn ymddangos bod y cyfryngau'n dweud wrth bobl am beth i feddwl. Fodd bynnag, mae wedi'i beirniadu am fod yn ddamcaniaeth ac iddi sail ideolegol ei hun.

### Cwestiynau

1. Sut y mae'r cyfryngau'n dylanwadu ar eu cynulleidfa yn ôl y model hwn?
2. Sut y mae gwaith GUMG a Greg Philo'n cefnogi'r model hwn?
3. Sut y gellir beirniadu'r model effeithiau diwylliannol Marcsaidd?

### Allweddeiriau

- Ideoleg - setiau o syniadau sydd fel rheol yn hybu buddiannau grwpiau trechol.
- Semioleg - astudio sut mae symbolau nad ydynt yn eiriau, lliw ac eiconau'n cyfleu negeseuon diwylliannol.
- Byrddau stori - arfer a ddefnyddir yn y cyfryngau o amlinellu rhaglenni a ffilmiau drwy gyfres o gartwnau bach gyda thestun.

## Model ôl-fodern

### Bwledi

- Dadl ôl-fodernwyr yw bod gan y cyfryngau rywfaint o bŵer, ond bod cyffredinoli effeithiau'r cyfryngau'n broses anystyriol, gan fod unigolion yn creu eu hystyron eu hunain o destunau'r cyfryngau.

© CBAC / WJEC 2015

- Mae effaith globaleiddio'n bwysig i ôl-fodernwyr sy'n credu bod y cyfryngau'n cael eu dehongli mewn gwahanol ffyrdd yn unol â diwylliant lleol.
- Mae ôl-fodernwyr yn dweud ein bod wedi ymgolli cymaint mewn cymdeithas cyfryngau nes ein bod fel cynulleidfa'n ei chael yn anodd adnabod realaeth.
- Er bod amlblwyfyddion yn dadlau bod y cyfryngau'n 'ffenestr ar y byd', mae ôl-fodernwyr yn credu bod y cyfryngau fwyfwy'n adlewyrchu arnynt eu hunain. Mae angen gwybodaeth am y cyfryngau er mwyn gwneud synnwyr o'r byd ble'r ydym yn byw heddiw.

## Testun

Mae'r model ôl-fodern o'r cyfryngau'n ystyried y gynulleidfa mewn modd tebyg iawn i'r farn amlblwyfol. Mae'n ystyried bod allbwn y cyfryngau'n eithaf gwasgaredig ac amrywiol, gan gynnig digonedd o ddewis ar gyfer gwahanol chwaethau. Mae'n rhannu rhai o nodweddion y model cynulleidfa weithredol hefyd. Mae ôl-fodernwyr yn dadlau bod gwahanol gynulleidfaoedd yn dehongli ystyron y cyfryngau'n wahanol, a hefyd y gall yr un bobl eu dehongli'n wahanol ar draws amser. Casgliad ôl-fodernwyr felly yw bod cyffredinoli effeithiau'r cyfryngau'n broses anystyriol ac amherthnasol, gan fod unigolion yn creu eu hystyron eu hunain o destunau'r cyfryngau. Fel model o'r cyfryngau, mae ôl-foderniaeth yn ystyried bod y cyfryngau'n cael eu harwain gan y gynulleidfa i raddau helaeth. Fel y model amlblwyfol, mae'n gwrthod unrhyw gysylltiad Marcsaidd rhwng negeseuon ideolegol a grwpiau pwerus. Mae hefyd yn gwrthod unrhyw bennu agenda gan olygyddion cyfryngau neu newyddiadurwyr.

Mae cysyniad globaleiddio wedi'i gysylltu'n agos â dealltwriaeth ôl-fodern o'r cyfryngau. Er bod Marcswyr yn dadlau bod y cyfryngau'n llethu'r byd yn ddiwylliannol â gwerthoedd diwylliannol Eingl-Americanaidd i raddau sy'n gyfystyr â 'gwladychu electronig', mae ôl-fodernwyr yn herio'r farn hon gan ddadlau ei bod yn or-syml ac yn unffordd. Mae Thompson (1995) yn dadlau bod technoleg fodern sy'n defnyddio lloerenni wedi galluogi'r cyfryngau i ailddiffinio'r berthynas rhwng materion byd-eang a materion lleol. Mae'n credu bod dehongli digwyddiadau byd-eang o fewn fframweithiau diwylliannol lleol wedi creu diwylliant cyfryngau cymysg. Yn yr un modd, canfu Liebes a Katz (1993) wahanol ddehongliadau o gynnwys y cyfryngau'n unol â diwylliant lleol. Er enghraifft, roedd nifer o grwpiau Arabaidd yn herio negeseuon cyfryngau Gorllewinol gan eu bod yn adlewyrchu peryglon diwylliant Gorllewinol a dirywiad moesol Gorllewinol.

I ôl-fodernwyr, mae'r cyfryngau'n rhan bwysig o greu a chynnal cymhlethdod cymdeithas ôl-fodern, ble ceir nifer o ystyron a negeseuon.
Mae Dominic Strinati (1999) yn dadlau ein bod yn byw mewn byd ble'r ydym wedi'n hamgylchynu gan sgriniau cyfryngau a delweddau diwylliannol poblogaidd. Mae Jean Baudrillard (1985) yn rhannu'r farn hon, gan ddisgrifio cymdeithas ôl-fodern fel yr 'oes gwybodaeth'. Mae'n defnyddio'r term 'simwlacra' i gyfeirio at sut y mae'r cyfryngau'n pylu'r gwahaniaeth rhwng y cyfryngau a realaeth gymdeithasol. Dangosir afreswm hyn mewn enghreifftiau megis pan roddodd y Sun y pennawd "Free Deirdre Barlow" ar eu tudalen flaen (fel ymateb i stori yn Coronation Street) neu pan ddechreuodd y cyhoedd roi blodau ar y ffordd yn Hampshire ble cafodd y cymeriad dychmygol Victor Meldrew (One Foot in the Grave) ei ffilmio'n marw mewn damwain ffordd. Wrth i graffeg gyfrifiadurol ddod yn fwy gafaelgar a realistig, efallai y bydd yn wir yn anodd gwybod beth sy'n real. Mae rhai pobl yn herio'r syniad bod Americanwyr wedi mynd i'r Lleuad yn 1969 gan ddweud bod y delweddau wedi'u creu ar set ffilm. Roedd un rhaglen ddiweddar am

© CBAC / WJEC 2015

ddinosoriaid mor realistig nes y rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o raglenni natur yn y dyfodol yn cynhyrchu delweddau o anifeiliaid sy'n bodoli yn hytrach na mynd i'w ffilmio mewn gwirionedd.

Er bod y cyfryngau'n arfer hawlio bod yn 'ffenestr ar y byd', heddiw maent yn adlewyrchu arnynt eu hunain. Mae rhaglenni megis Never Mind the Buzzcocks yn dibynnu ar y ffaith bod eu cynulleidfa'n rhannu gwybodaeth am y cyfryngau. Mae Strinati'n dadlau bod rhaglenni a hysbysebu heddiw'n dibynnu ar gyfeirio at enghreifftiau eraill o ddiwylliant poblogaidd, a bod arnynt angen i'w cynulleidfaoedd wybod am y rhain hefyd. Mewn dadansoddiad ôl-fodern clasurol, mae popeth yn gymharol a dim ond o safbwynt unigolyn y gellir deall unrhyw beth. Nid oes dim yn 'dda' nac yn 'ddrwg' mwyach - mater o farn yr arsylwr ydyw.

Mae beirniaid ôl-foderniaeth yn dadlau bod ei phwyslais ar unigoliaeth a gwasgaru'n anwybyddu proses 'treiddio diwylliannol' ble mae diwylliannau'r byd yn mynd yn debycach i'w gilydd drwy eiconau poblogaidd a gysylltir fel rheol â diwylliant Gorllewinol, neu ddiwylliant UDA yn benodol.

### Cwestiynau

1. Ym mha ffyrdd y mae'r model ôl-fodern yn debyg i'r modelau amlblwyfol a deongliadol?
2. Ym mha ffyrdd y mae globaleiddio'n effeithio ar y model ôl-fodern?
3. Sut y mae cysyniad simwlacra'n adlewyrchu syniadau ôl-fodern?
4. Sut y gellir beirniadu'r model ôl-fodern?

### Allweddeiriau

- Imperialaeth ddiwylliannol - term sy'n gysylltiedig â Jeremy Tunstall i ddisgrifio ymerodraeth ôl-drefedigaethol fyd-eang o negeseuon ideolegol Gorllewinol.
- Treiddio diwylliannol - hyrwyddo gwerthoedd diwylliannol Gorllewinol gan dybio eu bod yn well na gwerthoedd eraill.
- Llethu diwylliannol - tybio bod diwylliant brodorol nifer o wledydd y byd yn cael ei erydu gan ddiwylliant Gorllewinol a orfodir arnynt.
- Gwladychu electronig - term sy'n gysylltiedig â Thomas McPhail i ddisgrifio gorfodi syniadau diwylliannol bradwrus a threchol Gorllewinol ar ddiwylliannau'r byd.
- Simwlacra - term sy'n gysylltiedig â Jean Baudrillard sy'n disgrifio pylu'r gwahaniaeth rhwng breuddwydion a realaeth mewn cymdeithas ôl-fodern.

# Technolegau newydd a'r cyfryngau

## Cyflwyniad

### Bwledi

- Mae technolegau cyfryngau newydd yn esblygu'n gyflym iawn gyda datblygiad y sglodyn silicon
- Nid ydym eto'n deall yn llawn beth yw effaith technolegau cyfryngau newydd ar gymdeithas

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

### Testun

Ers yr 1960au, mae datblygiad technolegau cyfryngau newydd wedi ffrwydro. Cysylltir y term yn fwyaf cyffredin â chyfrifiaduron, digido ac unrhyw beth sy'n seiliedig ar y sglodyn silicon, neu gyfryngau electronig megis disgiau DVD a CD-Rom. Mae hen ffurfiau cyfryngau'n cynnwys teledu, ffilm neu gynhyrchion papur. Mae technolegau cyfryngau newydd yn cynnwys gemau cyfrifiadurol, pethau wedi'u llwytho i lawr oddi ar y rhyngrwyd, ffonau symudol sy'n gallu mynd ar y rhyngrwyd a ffeiliau MP3. Mae technolegau newydd yn datblygu mor gyflym nes bod nifer o gynhyrchion wedi dyddio neu'n cael eu disodli o fewn blwyddyn neu ddwy ar ôl cael eu lansio.

Dechreuodd technolegau cyfryngau newydd yn yr 1960au, ac yn yr 1980au, cafwyd byrst o weithgarwch wrth i gyfrifiaduron personol a systemau gemau ddod yn fwy cyffredin. Diolch i ddatblygu'r Rhyngrwyd a rhaglenni cyhoeddi bwrdd gwaith, newidiwyd dulliau cynhyrchu cyfryngau, a chymdeithas efallai, mewn ffyrdd nad ydym yn eu deall yn llawn hyd heddiw. Ceir llawer o ddadlau am effaith y technolegau cyfryngau newydd hyn ar y ffordd y caiff gwybodaeth ei rheoli a'i llywio. Maent hefyd yn newid y ffyrdd y caiff cymdeithas ei threfnu. Gallai enghreifftiau gynnwys sut y mae pobl wedi gallu defnyddio technoleg ffonau symudol i drefnu protestiadau a gwrthryfeloedd. Un o'r enghreifftiau diweddaraf yw sut y trefnwyd protestiadau i ddymchwel Arlywydd Mubarak yr Aifft yn 2011.

### Cwestiynau

1. Pa dechnolegau cyfryngau newydd sydd wedi datblygu yn y deng mlynedd diwethaf?
2. Pa dechnolegau cyfryngau newydd allai ddatblygu yn y deng mlynedd nesaf?
3. A yw effaith technolegau cyfryngau newydd yn beth da i gymdeithas?

### Allweddeiriau

- Technoleg Cyfryngau newydd - technolegau cyfryngau sy'n gysylltiedig â chyfrifiaduron a'r sglodyn silicon.

## Beth yw effaith technolegau cyfryngau newydd ar y ffordd y caiff cynhyrchion eu cynhyrchu a'u defnyddio?

### Bwledi

- Mae technolegau cyfryngau newydd yn fusnes masnachol mawr
- Mae pobl wedi cynnwys y dechnoleg hon yn eu bywydau bob dydd
- Mae llawer o dechnoleg newydd yn rhyngweithiol felly mae pobl yn cyfrannu at newid neu greu cynnwys.
- Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgarwch hwn yn ddiddrwg, ond gall ffurfio platfform i weithgareddau peryglus hefyd.

### Testun

Mae cynhyrchu cyfryngau newydd yn derm a ddefnyddir i ddisgrifio datblygu ffurfiau cyfryngau newydd megis gwefannau, rhwydweithiau cymdeithasol, sain a dylunio gemau.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

Mae hwn yn faes o dwf enfawr i bobl â sgiliau technegol, felly datblygwyd cwmnïau mawr megis Pixar i greu ffilmiau digidol. Mae angen timau cynhyrchu i ddatblygu gemau, straeon ac offer ac mae'r rhain wedi gwella'n gyflym iawn ers dyddiau gemau fideo cynnar megis Pong. Nid yw gwefannau'n statig fel tudalennau fflat print mwyach; maent yn llifol ac yn seiliedig ar graffeg a fideo.

Un o nodweddion amlycaf ffurfiau technoleg newydd yw'r galw am gynnwys rhyngweithiol. Nid yw'r cyfryngau'n cael eu derbyn yn oddefol mwyach, ac mae pobl yn disgwyl gallu cyfrannu mwy drwy gymryd rhan mewn cynhyrchu cyfryngau. Gall hyn fod ar lefel sylfaenol megis pleidleisio dros gyfranogwyr ar raglenni gemau neu gall fod ar ffurf gwylio nodweddion ychwanegol a thanysgrifio i wefannau sy'n gysylltiedig â rhaglenni a ffilmiau. Fel y nododd Silverstone (1992), mae'r cyfrifiadur a'r teledu wedi dod yn rhan o drefn ddyddiol y cartref. Bydd bod yn berchen ar y dechnoleg ddiweddaraf yn rhoi statws i unigolion a chartrefi. Mae'r dechnoleg hefyd yn aml yn cael ei harddangos er mwyn i bobl eraill ei hedmygu, yn ogystal â chael ei defnyddio gan bobl fel rhan o'u bywydau bob dydd.

Effaith hyn yw y gall unrhyw un a chanddo gyfrifiadur fod yn darged i ymgyrchoedd marchnata sydd wedi'u hanelu'n benodol at eu bywydau hwy. Hefyd, mae gan unrhyw un a chanddo gyfrifiadur gyfle i sefydlu gwefan a chyhoeddi unrhyw beth yr hoffai i'r byd i gyd ei weld. Mae presenoldeb Wiki, fforymau a safleoedd rhwydweithio cymdeithasol wedi golygu bod gan bobl y gallu i ryngweithio â gwefannau a golygu gwybodaeth, ac yn aml, ychydig iawn o reolaeth allanol sydd dros yr hyn a wnânt. Gweithgarwch diddrwg yw hyn gan fwyaf. Fodd bynnag, mae nifer o asiantaethau wedi dechrau pryderu am weithgarwch grwpiau mwy niweidiol megis pedoffilyddion a therfysgwyr. Mae'n werth nodi hefyd bod llu o droseddau cyfrifiadurol wedi datblygu, megis twyll cardiau credyd a dwyn hunaniaeth.

### Cwestiynau

1. Rhestrwch y dechnoleg cyfryngau newydd sydd yn eich cartref chi.
2. Sawl awr bob wythnos sy'n cael eu treulio'n defnyddio technoleg cyfryngau yn eich cartref chi?
3. Sut y caiff y dechnoleg cyfryngau ei defnyddio?

### Allweddeiriau

- Pong - gêm gyfrifiadurol gynnar a sylfaenol iawn yn seiliedig ar denis bwrdd
- Ffilmiau digidol - ffilmiau a disgiau DVD wedi'u gwneud yn llwyr drwy ddefnyddio technoleg gyfrifiadurol a CGI

## Beth yw damcaniaeth cydgyfeiriant a sut y mae'n gysylltiedig â thechnoleg cyfryngau newydd?

### Bwledi

- Mae technolegau newydd wedi effeithio ar sut y mae pobl yn cysylltu â'r cyfryngau
- Mae technolegau cyfryngau cyfoes yn rhyngweithiol, felly nid yw pobl yn defnyddio technoleg yn oddefol

© CBAC / WJEC 2015

- Mae rhai sylwebwyr wedi awgrymu bod ffurfiau cyfryngau'n cydgyfeirio gan fod cynhyrchwyr a defnyddwyr wedi'u cysylltu'n agosach drwy'r amser
- Mae eraill yn awgrymu bod pobl yn mynd yn fwy gwahanol i'w gilydd gan nad ydynt i gyd yn defnyddio'r un ffurfiau cyfryngau bellach

## Testun

Bathodd Henry Jenkins y term 'diwylliant cydgyfeiriant' i ddisgrifio'r mathau newydd o newidiadau technolegol sy'n digwydd. Gyda'r term hwn, mae'n disgrifio'r ffordd y gall cynnwys cyfryngau lifo ar draws mwy nag un math o gyfryngau; er enghraifft, gellir gwerthfawrogi cerddoriaeth am ansawdd y fideo sy'n cyd-fynd â hi. Fodd bynnag, mae'r broses hon yn bell o fod yn syml, oherwydd ceir newid diwylliannol wrth i dderbyn y cyfryngau hefyd gynnwys cyfraniad gweithredol at y cyfryngau. Ar y lefel fwyaf sylfaenol, er enghraifft, ceir nifer o enghreifftiau o wefannau a straeon ar gyfer dilynwyr rhaglenni teledu poblogaidd sy'n cyd-fynd â'r rhaglenni hynny. Bydd cynhyrchwyr y rhaglenni teledu'n edrych ar y safleoedd hyn i weld pa straeon a chymeriadau yw'r rhai mwyaf poblogaidd, a bydd yr ymchwil hwn yn dylanwadu ar straeon a rhaglenni yn y dyfodol.

Mae'r newid hwn i'r ddynameg rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr diwylliant hefyd wedi cael ei alw'n ddiwylliant cyfranogol. Awgrymir bod hyn yn newid i ddiwylliant a chymdeithas ei hun gan ei fod yn effeithio ar sut y mae pobl yn meddwl am wleidyddiaeth, systemau cyfreithiol a hysbysebu.

Mae'r gwahaniaeth rhwng hysbysebu ac adloniant yn pylu mwy a mwy, ac mae rhaglenni megis X factor a Pop Idol yn gwerthu math penodol o gerddoriaeth ac adloniant gan annog pobl i deimlo mai hwy sy'n rheoli'r hyn y maent yn ei weld. Mae Jenkins yn mynd yn ei flaen i awgrymu bod diwylliant cydgyfeiriant wedi effeithio ar wleidyddiaeth hefyd. Mae dinasyddion yn fwy tueddol o gymryd rhan mewn gweithgareddau ymgyrchu dros safbwyntiau gwleidyddol nad ydynt mewn gwirionedd yn rhan o wleidyddiaeth prif ffrwd. Gellid defnyddio'r ddamcaniaeth hon ar gyfer gweithgarwch gwleidyddol poblogaidd, nad yw'n brif ffrwd, y 'Tea Party' yn America sy'n hyrwyddo meddylfryd y Dde Newydd sy'n gwneud llawer o bobl wybodus yn anghyfforddus.

Fodd bynnag, mae Jenkins wedi cael ei feirniadu gan bobl sy'n cytuno y bu newid diwylliannol a chymdeithasol enfawr oherwydd technoleg cyfryngau rhyngweithiol newydd. Mae'r beirniaid hyn wedi cynnig 'damcaniaeth dargyfeiriad'. Mae'r ddamcaniaeth hon yn awgrymu bod technolegau cyfryngau yn galluogi pobl i wahanu a mynd yn llai tebyg i'w gilydd gan fod pobl heddiw'n arbenigo mewn rhai cynyrchiadau ac arddulliau cyfryngau penodol ac nad oes llawer o bobl mewn sefyllfa i weld y darlun mawr o ran beth sy'n digwydd. Gall pobl sy'n hoff o ffuglen wyddonol ddewis gwylio'r cynhyrchion cyfryngau o'u dewis hwy'n unig ac anwybyddu popeth nad ydynt yn dewis ei wylio. Mae Fidler yn awgrymu bod cynnwys y cyfryngau'n cael ei wasgaru fwyfwy a bod pobl yn mynd yn fwy a mwy arbenigol er eu bod i gyd yn defnyddio technolegau tebyg. Gellir cysylltu hyn â syniadau ôl-fodernwyr sy'n ystyried bod cymdeithas yn mynd yn wasgaredig ac yn fwy unigolyddol.

## Cwestiynau

1. Beth yw ystyr y term 'cydgyfeiriant' wrth gyfeirio at y cyfryngau?

© CBAC / WJEC 2015

2. Beth yw ystyr y term 'dargyfeiriad' wrth gyfeirio at y cyfryngau?
3. Beth yw effeithiau cynnwys rhyngweithiol ar gynhyrchu cyfryngau?
4. Beth yw effeithiau cynnwys rhyngweithiol ar ddefnyddio cyfryngau?

### Allweddeiriau

- Cydgyfeiriant - proses yw hon ble mae'r cyfryngau ym mhobman ac mae'r berthynas rhwng cynhyrchwyr a defnyddwyr wedi newid.
- Dargyfeiriad - mae pobl yn mynd yn fwy a mwy arbenigol o ran eu chwaethau cyfryngau

## Beth yw'r rhaniad Digidol?

### Bwledi

- Term yw'r Rhaniad Digidol a ddefnyddir i ddisgrifio gwahaniaethau mewn mynediad at gyfrifiaduron rhwng gwahanol grwpiau cymdeithasol
- Mae'r rhaniad digidol yn adlewyrchu anghydraddoldebau cymdeithasol presennol, felly efallai nad yw'r un mynediad at dechnoleg ar gael i bobl dlawd, merched a phobl hŷn.
- Efallai fod y patrwm hwn yn newid wrth i ferched a phobl hŷn ddefnyddio mwy o'r cyfryngau newydd.

### Testun

Mae'r rhan fwyaf o bobl sy'n damcaniaethu am effaith technolegau cyfryngau newydd yn tybio bod yr un mynediad ar gael i bawb at y dechnoleg ac at y ddealltwriaeth dechnegol o sut i ddefnyddio cynnwys rhyngweithiol. Mae'n seiliedig ar safbwynt ôl-fodern nad yw gwahaniaethau strwythurol dosbarth, oed, ethnigrwydd a rhyw'n arwyddocaol iawn mewn gwirionedd. Fodd bynnag, mewn gwirionedd, nid yw'r dechnoleg na'r sgiliau ar gael i bawb. I bob diben, mae rhai pobl na allant gymryd rhan yn y chwyldro cymdeithasol a achoswyd gan y sglodyn cyfrifiadurol. Mae'r term 'rhaniad digidol' yn ffordd newydd o fynegi'r gwahaniaethau rhwng gwahanol grwpiau cymdeithasol a'u mynediad at y cyfryngau newydd. Defnyddiwyd y term yn yr Unol Daleithiau gan yr Arlywydd Clinton i gyfeirio at y bwlch rhwng pobl gyfoethog a thlawd o ran eu mynediad at gyfrifiaduron.

Ceir gwahaniaethau byd-eang o ran mynediad at y cyfryngau, felly mae rhai gwledydd wedi dod ymhellach nag eraill yn y chwyldro digidol. Oherwydd pellter daearyddol, mae hyd yn oed gwledydd datblygedig megis Seland Newydd ac Awstralia ychydig y tu ôl i Orllewin Ewrop o ran eu gallu i ddefnyddio'r cyfryngau newydd. Mae Servon (2002) wedi hawlio bod y rhaniad digidol wedi agor gwahaniaethau rhwng gwledydd Datblygiad Economaidd Uchel (HED) a Gwledydd Datblygiad Economaidd Isel (LEDC) ble mae tlodi'n golygu na all niferoedd mawr o bobl gymryd rhan yn y cyfryngau. Mae rhywfaint o sensro'n digwydd mewn rhai gwledydd, hyd yn oed, felly mae rhywfaint o wybodaeth ar gael yn y Gorllewin ond nid yn Tsieina.

Mae gwahaniaethau addysgol yn golygu bod y cyfryngau newydd ar gael yn rhwyddach i bobl sydd wedi cael lefel dda o addysg. Yn ymarferol, gall hyn olygu dynion oherwydd, yn fyd-eang, mae llawer o ferched o hyd nad ydynt yn cael cymaint o addysg â dynion. Yn aml, tybir mai gweithgarwch gwrywaidd yw technoleg felly caiff meddalwedd a gemau

cyfrifiadurol eu dylunio ar gyfer gwrywod, yn aml gan gynnwys delweddau a gemau o drais eithafol. Yn sicr, mae defnyddio'r rhyngrwyd yn newid mewn gwledydd Gorllewinol ble disgwylir i ferched fod yn gyfrifiadurol lythrennog yn y gwaith.

Yn aml, mae namau pobl anabl yn eu rhwystro rhag cael mynediad llawn at y Rhyngrwyd. Gall pobl hŷn hefyd fod dan anfantais oherwydd cyflymder newid technolegol. Efallai fod y patrwm hwn hefyd yn newid o ganlyniad i ffenomenon y 'Porwyr penwyn'. Mae'r term yn cyfeirio at bobl wedi ymddeol sydd â'r amser, yr arian a'r dyhead i dreulio amser ar y Rhyngrwyd neu ddefnyddio ffurfiau cyfryngau newydd i ddilyn diddordebau penodol.

### Cwestiynau

1. Rhestrwch wahanol achosion y rhaniad digidol.
2. Pa dystiolaeth sy'n bodoli bod y rhaniad digidol yn dechrau cau?
3. Pa dystiolaeth sy'n bodoli bod y rhaniad digidol yn dal i fod yn rhaniad cymdeithasol pwysig?
4. Eglurwch pam y byddai rhai llywodraethau'n ystyried bod y rhaniad digidol yn broblem gymdeithasol i'w dinasyddion.

### Allweddeiriau

- Rhaniad digidol - gwahaniaethau mewn mynediad at y cyfryngau newydd ymysg gwahanol grwpiau cymdeithasol
- LED - Gwledydd Datblygiad Economaidd Isel
- HED - Gwledydd Datblygiad Economaidd Uchel
- Porwr Penwyn - unigolyn hŷn sy'n defnyddio technoleg gyfrifiadurol i ddilyn diddordebau
- Sensro - Pan fydd llywodraeth yn gwrthod mynediad i bobl at rai ffurfiau neu fathau o wybodaeth

# Globaleiddio a r cyfryngau

## Beth ydy globaleiddio?

### Bwledi

- Cyfeiria globaleiddio at newid yn y berthynas economaidd a diwylliannol rhwng cwmnïau.
- Cred llawer o bobl fod globaleiddio yn golygu cymryd mantais ar wledydd tlotach a cholli amrywiaeth diwylliannol.

### Testun

Mae globaleiddio yn derm cyffredin yn y byd modern, ond nid pawb sy'n cytuno â'r hyn a olygir wrth ddefnyddio'r term. Ymddangosodd y term am y tro cyntaf yn y 1960au, ond fel term academaidd yn bennaf yn y lle cyntaf, gan gyfeirio at y ffordd yr oedd marchnadoedd ariannol yn gweithio'n fyd-eang. Bellach, nid oedd pobl yn prynu cynnyrch a gynhyrchwyd yn eu gwledydd eu hunain ond yn hytrach yn prynu cynnyrch o bob rhan o'r byd. Yn fuan, cysylltwyd y syniad hwn â'r modd y dechreuodd ffilmiau a syniadau Hollywood gymryd drosodd y diwydiannau ffilm; penderfynodd cwmnïau Americanaidd

brynu'r diwydiant ffilm Prydeinig a arferai gynhyrchu ffilmiau da iawn cyn y rhyfel. Prynwyd nifer o deitlau papurau newydd Prydeinig gan gwmnïau tramor. Cwmnïau o Awstralia sydd yn berchen ar y News of the World, y Sun a'r Times a phrynodd ddyn o Ganada, Conrad Black, y Daily Telegraph.

Bellach, defnyddir y term i ddisgrifio nifer o brosesau yr ymddengys sy'n digwydd yn niwylliant y byd. Parhau mae'r dimensiwn economaidd, ac felly mae cwymp y marchnadoedd ariannol Americanaidd yn 2009 wedi cael effaith ar wledydd ledled y byd. Er hynny, mae hefyd yn broses ddiwylliannol. Wrth i'r byd ddod yn fwy Americanaidd, yn fwy defnyddiwr-ganolog, mae gwledydd yn colli'r cymeriad unigryw a berthynai iddynt ar un adeg. Er enghraifft, y dyddiau hyn, mae'n bosibl prynu byrgers McDonalds neu ddiod Coca Cola ym mhob un o wledydd y byd bron iawn. Mae hyn yn wir, hyd yn oed, mewn gwledydd sy'n adnabyddus am eu harddulliau coginio cenedlaethol fel Ffrainc neu Tsieina.

Gwelwyd symudiad gwrth-globaleiddio cryf gan fod llawer o bobl yn awgrymu fod gwledydd yn colli eu hunaniaeth genedlaethol. Yr hyn sy'n achosi mwy fyth o bryder i rai ydy'r modd y caiff gwledydd tlotach eu hecsbloetio er mwyn darparu nwyddau i farchnadoedd America ac Ewrop. Mae'r Dwyrain Pell yn enwog am 'slafdai' lle mae disgwyl i bobl weithio oriau hir am ychydig iawn o arian er mwyn cynhyrchu nwyddau Gorllewinol drud. Nid yn unig hynny, ond anogir y bobl hyn yn aml i brynu nwyddau Gorllewinol dan yr argraff eu bod yn 'well'. Felly, ar Ynysoedd y Philippines, lle mae pinafal yn tyfu'n naturiol, mae pobl yn prynu sudd pinafal wedi'i becynnu er mwyn dynwared ffordd o fyw'r Gorllewin. Trwy wneud hyn, maent yn aml yn byw bywydau llai iach ac yn colli eu traddodiad bwyta cenedlaethol eu hunain. Er hynny, awgryma Roland Robertson fod globaleiddio wedi arwain at ddiddordeb o'r newydd yn yr elfen leol ymhlith rhai pobl fwy dysgedig a'r enw ar y broses hon ydy 'glocaleiddio' (glocalisation). Enghraifft o hyn ydy poblogrwydd marchnadoedd ffermwyr lle mae pobl yn prynu cynnyrch wedi'i dyfu'n lleol.

### Cwestiynau

1. Beth ydy globaleiddio?
2. Pa nwyddau a gwasanaethau o wledydd gwahanol yr ydych wedi'u prynu yn eich cartref chi yn ystod y mis diwethaf?
3. Pam bod pobl yn gwrthwynebu globaleiddio?

### Allweddeiriau

- Defnyddiwr - ffordd o fyw materol yn seiliedig ar brynu a defnyddio nwyddau
- Slafdai - ffatrïoedd sy'n cyflogi pobl am oriau hir ar gyflogau isel
- Globaleiddio - mae'r byd yn mynd yn llai ac yn colli cymeriad diwylliannol ac economaidd gwahanol wledydd

## Beth yw cwmnïau trawswladol?

### Bwledi

- Rydym yn prynu cynnyrch o bob rhan o'r byd
- Mae llawer o gwmnïau yn gwerthu cynnyrch i farchnad fyd-eang
- Mae cwmnïau hysbysebu yn fyd-eang
- Mae gan rai cwmnïau trawswladol fuddiannau mewn lleoliadau daearyddol amrywiol yn ogystal â mewn gwahanol fathau o gynnyrch cyfryngau.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

### Testun

Mae pobl yn prynu mwy a mwy o fwyd, nwyddau a chynnyrch o wahanol wledydd. Nid oes angen i ni aros tan y tymor afalau yn y DU, gallwn brynu afalau wedi'u mewnforio trwy gydol y flwyddyn. Hefyd, rydym yn disgwyl gallu prynu rhai nwyddau e.e. Cola neu fwydydd cyflym yn unrhyw wlad yn y byd. Rydym yn tueddu i wylio'r un ffilmiau a'r un rhaglenni teledu, felly'r dyddiau hyn, mae rhaglenni a gynhyrchir yn America yn cael eu darlledu yn America a gellir eu gwylio yn y DU o fewn 24 awr.

Er mwyn bod yn wirioneddol lwyddiannus, mae angen i gwmnïau werthu eu cynnyrch ledled y byd. Gelwir cwmnïau mawr sy'n gwerthu brandiau a gwasanaethau ledled y byd yn gwmnïau trawswladol. Gallai enghreifftiau gynnwys British Petroleum, Honda, Disney ac Adidas. Mae gan rai o'r cwmnïau hyn fwy o arian na rhai gwledydd ac fe allent fod hyd yn oed yn fwy grymus na llywodraethau hefyd. Mae llawer o gwmnïau cyfryngau yn drawswladol, yn cynnwys asiantaethau hysbysebu sy'n cynhyrchu hysbysebion y gellir eu trosglwyddo i ieithoedd ac acenion gwahanol am ychydig iawn o gost ychwanegol. Dyma'r mathau o hysbysebion sy'n dibynnu ar drosleisio.

Mae cwmnïau cyfryngau trawswladol yn cynnwys CNN, a Disney, sydd â buddiannau mewn gwyliau, teledu, cyhoeddi, ffilmiau, marchnata a theganau sydd ddim bob amser yn cael eu gwerthu dan yr enw Disney. Cwmni trawswladol pwysig arall ydy News International sy'n eiddo i Rupert Murdoch ac sydd â buddiannau yn Asia, Awstralia, UDA a'r DU yn cynnwys papurau newydd (y Sun, y Times), lloeren (Sky), rhaglenni teledu (y Simpsons), stiwdios ffilm a chwmnïau cyhoeddi.

### Cwestiynau

1. Rhestrwch gymaint â phosibl o gwmnïau trawswladol.
2. Pam fyddai cwmnïau am ddatblygu i fod yn drawswladol?
3. Beth ydy peryglon cael cwmnïau newyddion cyfryngau trawswladol?

### Allweddeiriau

- Cwmnïau trawswladol - cwmnïau sy'n gwerthu eu cynnyrch ar hyd a lled y byd

## Globaleiddio a thechnolegau cyfryngau newydd

### Bwledi

- Mae technolegau newydd wedi gwneud cyfathrebu rhwng gwledydd yn rhad, yn gyflym ac yn hawdd iawn.
- Awgryma lawer o bobl fod hyn yn golygu fod y cyfryngau wedi dod yn gyfrwng i fusnesau Americanaidd sy'n gallu gwerthu eu cynnyrch o amgylch y byd.
- Fodd bynnag, mae sylwebyddion eraill yn awgrymu bod pobl yn ffafrio eu diwylliant eu hunain neu'n cymryd yr hyn maent yn ei hoffi o ddiwylliannau eraill er mwyn creu ffurfiau diwylliannol newydd.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

## Testun

Un o brif effeithiau datblygu technolegau cyfryngau newydd fel y Rhyngrwyd a thelegyfathrebu oedd cyflymu'r broses globaleiddio. Mae busnesau ac economïau'r byd yn awr yn fwy dibynnol ar ei gilydd nag erioed o'r blaen a'r rheswm am hyn ydy bod pobl bellach yn gallu teithio a gwneud busnes yn rhyngwladol. Yn y 1950au, byddai wedi cymryd chwe wythnos i fynd i Singapôr ar gwch felly fe fyddai gwybodaeth a llythyrau busnes wedi cymryd chwe wythnos 'in transit'. Yn awr gall pobl ffonio, e-bostio neu ddefnyddio Skype yn y fan a'r lle.

Mae amryw o sylwebyddion yn awgrymu bod diwylliannau'r byd yn dod yn debycach i'w gilydd a bod dylanwadau cyfryngau o America, yn enwedig, yn cael eu hamsugno i'r diwylliant lleol heb feirniadaeth na dealltwriaeth. Er enghraifft, mae cael ysgrifen Saesneg ar ddillad wedi bod yn boblogaidd mewn gwledydd Asiaidd, ond yn aml, nid yw'r datganiadau hyn yn gwneud llawer o synnwyr, os o gwbl. Dywed Boyd Barrett fod rhai gwledydd hyd yn oed yn mabwysiadu dylanwadau Gorllewinol fel polisi i hybu eu busnesau. Mae Hamelink yn rhoi enghreifftiau o gydamseru diwylliannol o'r fath. Er enghraifft, ym Mecsico, dechreua gemau pêl-droed gyda dawnsfeydd lleol ac un o gymeriadau'r ddawns ydy potel Coca Cola enfawr.

Mae rhai'n anghytuno gyda'r syniad fod diwylliannau yn dod yn debycach oherwydd pan fydd pobl yn cael cynnig drama deledu dda o America neu ddrama dda o'u gwlad eu hunain, mae'n well gan y rhan fwyaf o bobl eu ffurfiau diwylliannol eu hunain. Er enghraifft, y rhaglenni teledu mwyaf poblogaidd yn y DU ydy rhaglenni a chyfresi sebon a gynhyrchir ym Mhrydain, er gwaethaf poblogrwydd sioeau Americanaidd. Dywed Lull fod pobl yn dewis yr hyn maent yn ei hoffi o'u diwylliant eu hunain ac o ddiwylliannau eraill er mwyn creu ffurfiau diwylliannol newydd a elwir yn groesiadau.

## Cwestiynau

1. Pam bod cyflymder globaleiddio wedi cynyddu?
2. Beth ydy anfanteision globaleiddio?
3. Pa ddadleuon sy'n awgrymu nad ydy o'n dinistrio ffurfiau diwylliannol eraill?

## Allweddeiriau

- Cydamseru diwylliannol - mae pob diwylliant yn dod yn debycach ac yn fwy Americanaidd yn gyffredinol.
- Diwylliannau croesiad - diwylliannau newydd ydy'r rhain sy'n deillio o gyfuno dwy ffurf ddiwylliannol wahanol
- 'In transit' - yn teithio o le i le

## Ydy globaleiddio'r cyfryngau yn broblem?

## Bwledi

- Mae cwmnïau trawswladol yn rymus iawn
- Mae cwmnïau trawswladol yn rheoli newyddion a sut yr ydym yn gweld y byd hyd yn oed
- Mae Marcswyr a ffeministiaid yn dweud fod cwmnïau trawswladol yn newid diwylliannau traddodiadol ac yn eu lle, yn rhoi i ni rywbeth sy'n newid eu hystyr

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

## Testun

Rhan allweddol o'r drafodaeth ynghylch globaleiddio ydy'r awgrym fod rhai cwmnïau cyfryngau trawswladol byd-eang wedi dod mor rymus fel nad ydym yn cynhyrchu ein diwylliant ein hunain ond yn hytrach yn prynu diwylliant wedi'i becynnu'n barod. Mae'r diwylliant pecyn rydym yn ei brynu yn ein hannog i ddefnyddio a phrynu mwy o gynnyrch fel bod y cwmnïau cyfryngau yn dod hyd yn oed yn fwy grymus. Mae hwn yn syniad Marcsaidd oherwydd ei fod yn canolbwyntio ar bŵer a'r syniad bod pobl gyfoethog yn dod hyd yn oed yn fwy cyfoethog a hynny ar draul pobl dlawd.

Rhai o'r cewri cyfryngau trawswladol pwysicaf ydy News Corporation, Walt Disney, Viacom ac AOL Time Warner. Rhyngddynt, gall y cwmnïau hyn reoli'r rhan fwyaf o'r newyddion a gawn. Golyga hyn eu bod yn gallu dylanwadu ar safbwyntiau pobl a hyd yn oed newid llywodraethau gwledydd.

Cred llawer Marcsydd mai eu prif gymhellion ydy gwneud arian ar gyfer eu cyfranddalwyr, dod hyd yn oed yn fwy grymus a rheoli gwleidyddiaeth y byd. Gwelir hyn bron iawn fel cynllwyn. Mae amlblwyfyddion yn anghytuno gyda'r safbwynt hwn ac yn awgrymu fod gennym ddigon o ddewis a chystadleuaeth, ac mai'r rhaglenni sydd gennym ydy'r rhai mae pobl am eu gwylio. Unwaith eto, er bod gwrthddadl nad oes darpariaeth ar gyfer chwaeth y lleiafrif, mae llawer o'r adloniant yn ddisylwedd ac nid yw'n cynnig unrhyw her ddeallusol. Mae gennym ffenomen o gannoedd o sianelau teledu a dim byd i'w wylio. Llinell adnabyddus y grŵp pop Pink Floyd (The Wall) oedd "46 channels of shit on my TV to choose from".

Yn y gorffennol, gallai pobl greu eu diwylliannau eu hunain. Bellach, gall cwmnïau cyfryngau mawrion gymryd diwylliannau traddodiadol a'u haddasu er mwyn creu ystyron newydd. Mae'r Disney Corporation, er enghraifft, yn ailysgrifennu llawer o chwedlau traddodiadol ac yn rhoi ynddynt ystyron gwahanol iawn i'r hyn a fwriadwyd yn wreiddiol. Stori grefyddol ydy The Little Mermaid ac mae hi'n gorffen gyda'r fôr-forwyn yn marw gan ei bod hi'n lladd ei hun yn hytrach na lladd rhywun arall. Mae'r fersiwn Disney yn cynnig diwedd hapus lle mae merch sy'n anufuddhau i'w rhieni yn dal yn cael priodi ei thywysog. Efallai bod llawer o bobl yn ffafrio'r fersiwn yma, ond mae'n colli rhywbeth pwysig. Yn ogystal, mae'n dysgu merched fod yn rhaid priodi er mwyn bod yn hapus! Byddai ffeministiaid yn dadlau fod hon yn neges beryglus i ferched. Cred rhai bod fersiwn Disney o realiti yn dallu pobl i hagrwch y byd go iawn. Yn ogystal, os bydd plant yn cael eu dysgu i amharchu eu rhieni, yna efallai y bydd cymdeithas yn colli rhywbeth pwysig iawn.

## Cwestiynau

1. Pa negeseuon am y byd mae ffilmiau Disney yn eu rhoi i blant?
2. Pam fod rhai awduron yn beirniadu ffilmiau Disney?

## Allweddeiriau

- Diwylliant wedi'i becynnu - diwylliant y byddwn yn ei brynu yn hytrach na'i wneud ein hunain
- Prif gymhelliad - y rheswm pwysicaf dros fodoli
- Ffeministiaid - pobl sydd yn credu fod y byd yn cael ei redeg er budd dynion

© CBAC / WJEC 2015

## Pa ddadleuon sy'n awgrymu nad ydy'r cyfryngau wedi'u globaleiddio?

### Bwledi

- Mae'n well gan bobl gynnyrch cyfryngau sy'n adlewyrchu eu profiad a'u diwylliant eu hunain
- Mae llawer o gwmnïau cyfryngau sydd ddim yn gwmnïau Americanaidd
- Mae gan rai cynhyrchwyr cyfryngau sydd ddim yn Americanaidd fwy o ddylanwad mewn gwirionedd na chynnyrch Americanaidd mewn nifer fawr o ardaloedd ledled y byd.

### Testun

Mae dadl gref yn awgrymu nad ydy'r cyfryngau wedi'u globaleiddio o gwbl. Defnyddir agosrwydd diwylliannol er mwyn disodli'r ddadl fod y cyfryngau wedi'u globaleiddio. Golyga'r term agosrwydd diwylliannol fod yn well gan bobl gael cynnyrch cyfryngau mor debyg â phosibl i'w diwylliant eu hunain. Er eu bod yn hoffi sioeau Hollywood a rhai Americanaidd, mae'n well ganddynt eu cynnyrch diwylliannol eu hunain.

Tynna Wildman a Siwek sylw at y ffaith fod iaith yn rhwystr i gyfryngau a fewnforir. Fe wnaiff Americanwyr wylio rhaglenni a gynhyrchwyd yn UDA, Awstralia, y DU a Seland Newydd. Yn amlach fyth, fe wnânt ail-wneud rhaglenni tramor poblogaidd sy'n gweddu i'w diwylliant eu hunain yn hytrach na gwylio'r rhaglenni gwreiddiol. Bu raid i grwpiau tramor fel Abba a Bjork ganu yn Saesneg er mwyn gallu gwerthu eu cerddoriaeth yn UDA a'r DU. Mae Americanwyr sy'n siarad Sbaeneg yn tueddu i wylio rhaglenni a wnaed ym Mecsico neu yn un o'r gwledydd Lladin-Americanaidd eraill yn hytrach na rhaglenni a wnaed yn UDA. Mae Jan wedi tynnu sylw at y ffaith er bod y Simpsons yn cael ei gynhyrchu yng ngwlad Korea, nad yw animeiddwyr Korea yn ei weld yn ddigri ac nid ydynt yn deall yr hiwmor. Yng Nghymru, mae S4C yn boblogaidd iawn, ac yn aml yn cael cynulleidfa ymhlith siaradwyr Saesneg sy'n gwylio'r rhaglenni gydag isdeitlau.

Er bod y rhan fwyaf o'r prif gwmnïau cyfryngau ym meddiant Americanwyr, mae yna bedwar cwmni sydd ddim. Cwmni o'r Almaen ydy Bertelsman, o Ffrainc y daw Vivendi-Universal, yn Awstralia mae cartref News Corporation a chwmni Japaneaidd ydy Sony/Columbia/Tristar. Yn ogystal, nid yw rhai o'r haen nesaf o gwmnïau cyfryngau ym meddiant Americanwyr. Mae'r BBC yn gorfforaeth cyfryngau fawr sydd mewn dwylo cyhoeddus â'r brif swyddfa yn Llundain. Lleolir llawer o gwmnïau recordiau y tu allan i UDA, yn enwedig yn Ewrop a Llundain. Mae llawer o wledydd yn datblygu sianelau teledu cebl a lloeren. Felly mae Al Jazeera yn darlledu i siaradwyr Arabeg o amgylch y byd, ac i siaradwyr Saesneg sydd â diddordeb mewn newyddion gwleidyddol Arabaidd ac Islamaidd. Teimlai llawer o bobl fod Al Jazeera yn rhoi sylw gwell a chywirach i ryfel Iraq o safbwynt pobl y wlad o gymharu â ffynonellau Prydeinig ac Americanaidd.

Awgryma Anthony Giddens fod y syniad o bobl Portiwgal yn gwylio teledu a gynhyrchwyd ym Mrasil yn dangos fod yna gyfeiriad diwylliannol croes. Mae gan Nigeria ei diwydiant ffilm ei hun, a elwir yn Nollywood sy'n boblogaidd dros Affrica i gyd ac mae Bollywood yn mwynhau cynulleidfa ehangach ac yn cynhyrchu mwy o ffilmiau na Hollywood.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

### Cwestiynau

1. Enwch rai rhaglenni o Brydain sydd wedi cael eu hail-gynhyrchu ar gyfer cynulleidfaoedd Americanaidd.
2. Awgrymwch resymau pam fod pobl yn ffafrio cynyrchiadau a wnaed yn eu gwledydd eu hunain.
3. Ydy hi'n wir fod America yn rheoli cyfryngau'r byd? Defnyddiwch dystiolaeth i gefnogi'ch safbwyntiau.

### Allweddeiriau

- Bollywood - ffilmiau a gynhyrchwyd yn Mumbai (Bombay yn flaenorol) ar gyfer cynulleidfaoedd Asiaidd o amgylch y byd.
- Nollywood - ffilmiau a gynhyrchwyd yn Nigeria ar gyfer cynulleidfaoedd Affricanaidd ledled y byd.
- Animeiddwyr - pobl sy'n creu cartwnau
- S4C - cwmni teledu Cymraeg sy'n cynhyrchu teledu ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
- Agosrwydd diwylliannol - mae'n well gan bobl gynnyrch cyfryngau o ddiwylliannau cyfarwydd ac maent yn hoffi rhaglenni sy'n adlewyrchu eu diwylliant eu hunain

## Sut mae rhywedd yn cael ei gynrychioli yn y cyfryngau?

### Beth ydy rhywedd?

### Bwledi

- Tuedda ein diwylliant i orwneud y gwahaniaethau rhwng dynion a merched
- Er gwaethaf y ffaith fod rolau merched wedi newid yn sylweddol, mae'r cyfryngau'n cyflwyno darluniau traddodiadol o fenyweidd-dra a gwrywdod.
- Mae hyn yn beryglus gan fod y cyfryngau'n asiantaeth bwysig o ran cymdeithasoli.
- Tuedda'r cyfryngau i ganolbwyntio ar harddwch ac emosiynau wrth adrodd straeon sy'n cynnwys merched.

### Testun

Mae rhyw yn cyfeirio at y gwahaniaethau biolegol rhwng dynion a benywod. Yn gyffredinol, gorbwysleisir y gwahaniaethau hyn mewn cymdeithas ac felly, er enghraifft, disgwylir i ddynion fod yn dalach na merched fel arfer. Er hynny, nid yw pob dyn yn dalach na phob merch. Mae rhywedd yn gategori cymdeithasol o ddisgwyliadau ac o ymddygiad disgwyliedig sy'n gysylltiedig â'r rhywiau ac yn ffurfio rhan o bwy ydym ni. Nid dim ond bodau dynol sydd â rhywedd; ystyrir bod rhai gwrthrychau yn fenywaidd (colur) ac eraill yn wrywaidd (ceir). Gellir gweld hyn mewn hysbysebion lle cysylltir rhai gwrthrychau â'r naill rywedd neu'r llall. Mae deunydd glanhau a siocled ar gyfer merched, a cheir a thechnoleg ar gyfer dynion.

Mae'r cyfryngau'n asiantaeth bwysig o ran cymdeithasoli, felly maent yn ffurfio ein canfyddiadau o beth ydy bod yn wrywaidd ac yn fenywaidd yn ein diwylliant. Un o'r ffyrdd

pwysicaf y maent yn gwneud hyn ydy trwy greu modelau rôl. Modelau rôl ydy pobl y mae pobl eraill yn anelu i fod yn debyg iddynt a'u copïo. Mae dealltwriaeth dda o bwysigrwydd modelau rôl wrth ffurfio ymddygiad. Yn y 1990au, ceisiodd Gweinidog Merched llywodraeth Llafur Newydd annog modelau rôl cadarnhaol i ferched, gan ddewis pobl fel actoresau, sêr y byd pop a ffigurau eraill yn y cyfryngau fel yr awdur, Susie Orbach. Daeth yr ymgyrch hon i ben yn fuan pan gyhoeddodd llawer o'r modelau rôl hyn eu bod yn feichiog a hynny y tu allan i briodas gonfensiynol. Roedd pryder y byddai hynny'n arwain at gynnydd mewn merched yn eu harddegau yn beichiogi.

Gan fod rhywedd yn cael ei greu gan gymdeithas; gwelir rhywedd fel arfer fel disgwrs. Defnyddir y term hwn gan ôl-fodernwyr i ddisgrifio'r ffordd y mae safbwyntiau confensiynol am rywedd yn newid ac yn addasu yn sylweddol mewn cyfnodau cymharol fyr. Yn y 1940au, roedd merched yn rhan o'r gweithlu fel rhan o ymdrech y rhyfel. Yn y 1950au, disgwylid iddynt fod yn ddomestig ac yn y cartref. Gyda dyfodiad y 1960au, daeth cychwyn ar ffeministiaeth a rhyddhau'r ferch o'r cartref. Erbyn y 1970au, roedd nifer fawr o ferched dosbarth canol yn dychwelyd i'r gweithle ac i yrfaoedd. Yn y 1980au a'r 1990au, gwelwyd newidiadau anferth yn rôl a statws merched gyda dyfodiad y 'girl power' a merched yn gwneud yn well na bechgyn yn y byd addysg. Yn y 1990au, daeth effaith y newidiadau hyn ar ddynion yn bwnc trafod.

Dadleua ôl-fodernwyr a ffeministiaid ôl-fodern fod y modd y portreadir merched yn y cyfryngau wedi gwella: bellach maent yn llai dibynnol, yn dilyn gyrfaoedd ac yn fwy hyderus. Er enghraifft, cynhaliodd Angela McRobbie (1996) ddadansoddiad ôl-fodernaidd o gylchgronau merched fel More a Marie Claire. Mae hi'n gweld nodweddion ôl-fodernaidd y cylchgronau hyn yn eu heironi, eu gor-ddweud a'r modd y maent yn torri tabwau rhywiol. Fe wêl hi'r cylchgronau hyn yn annog cymuned ehangach i genhedlaeth o ferched ifanc sydd wedi cael llawer mwy o gyfleoedd addysgol a galwedigaethol na chenedlaethau blaenorol. Yn sgil y dadansoddiad, mae'n credu bod y pwyslais ar ryw a rhywioldeb yn ailddiffinio beth ydy bod yn ferch; rhydd, grymus, ddim yn ddibynnol bellach ar ganfod dyn a'i gadw.

Er hynny, pryder cymdeithasegwyr ydy pa mor ddwfn ydy effaith y newidiadau hyn ar rywedd o fewn cymdeithas mewn gwirionedd. Er enghraifft, mae rhai cyfryngau'n tueddu i gyflwyno darlun ychydig yn hen ffasiwn o ferched. Maent yn tueddu i ganolbwyntio ar harddwch, corff a rhywioldeb. Maent yn lleoli merched o fewn straeon sy'n ymwneud ag emosiynau a pherthnasau tra bod dynion yn arwyr bywiog. Yn y 1920au, dywedodd Vladimir Propp mai prif swyddogaeth merched mewn straeon ydy gweithredu fel y wobr derfynol i'r arwr ar ôl ei holl anturiaethau. Dywed Gauntlett fod merched yn parhau i fod yn fwy tebygol o fod yn helpu, neu mewn drama deuluol, nag ydynt o fod yn arwyr neu'n bartneriaid cyfartal i ddynion mewn ffilmiau antur.

## Cwestiynau

1. Beth ydy'r gwahaniaeth rhwng rhyw a rhywedd?
2. Pwy ydy'r modelau rôl mwyaf arwyddocaol ar gyfer dynion a merched yn ein diwylliant?
3. Ydy'r cyfryngau'n portreadu darlun realistig o ferched yn ein cymdeithas?

## Allweddeiriau

© CBAC / WJEC 2015

- Model rôl - rhywun a edmygir a'i ddynwared gan eraill, yn enwedig plant
- Rhyw - gwahaniaethau biolegol rhwng dynion a merched
- Rhywedd - disgwyliadau cymdeithasol yn ymwneud ag ymddygiad gwrywaidd a benywaidd

## Sut caiff dynion eu darlunio yn y cyfryngau?

### Bwledi

- Mae'r cyfryngau yn ddiwydiannau sydd o dan ddylanwad dynion ac maent yn cynhyrchu rhaglenni sydd wedi'u teilwrio ar gyfer dynion ac yn eu cyflwyno mewn modd cadarnhaol.
- Mae gwrywdod traddodiadol yn newid i sefyllfa lle mae dynion yn fwy ymwybodol o'u cyrff, yn ymosodol rywiol ac yn dreisgar.
- Mae chwaraeon yn rhan o'r ffordd y cyflwynir dynion yn gystadleuol a threisgar a merched yn wrthrychau rhyw.

### Testun

Tuedda cwmnïau cyfryngau i fod dan ddylanwad dynion ac felly rhoddir delwedd gadarnhaol i ddynion. Yn y gorffennol, byddai hyn wedi'i gysylltu â grym, gormes, atyniad rhywiol, amddiffyn y gwan (merched a phlant), annibyniaeth a rheolaeth. Gellir crynhoi hyn fel gwrywdod hegemonaidd. Hyd yn oed gyda chyfryngau sydd dan ddylanwad benywaidd fel cylchgronau merched, mae dynion wedi parhau i gael eu portreadu fel bachiad, yr allwedd i fywyd hawdd a chyfoethog a bodau rhywiol atyniadol. Fe'u cysylltid â gwaith neu antur, disgwylid iddynt fod yn heterorywiol gryf, ac nid oedd beirniadu arnynt am fod yn llac eu moesau. Yn ogystal, disgwylid yn aml i gymeriadau du gwrywaidd fod â phroblemau personol ac mewn ffilmiau antur fel ffilmiau rhyfel, dyma'r cymeriadau fyddai fel arfer yn marw cyn diwedd y ffilm. Fe'u portreadwyd gan amlaf mewn ffordd hiliol ac ni fyddent yn cael eu cynnwys mewn hysbysebion. Mae hysbysebion hyd heddiw yn tueddu i ddangos dynion gwyn mewn awdurdod yn fwy na neb arall.

Mae'r darlun o ddyn yn newid mwy a mwy ac felly yn ogystal â'r holl syniadau eraill o wrywdod hegemonaidd, disgwylir i ddynion yn awr fod â chyrff rhagorol ac edrych yn ffit ac iach. Cred Frank Mort (1988) fod newidiadau sylweddol wedi digwydd yn y portread o ddynion yng nghanol y 1980au yn sgîl dyfodiad cylchgronau ffasiwn i ddynion a'r hysbysebu cynyddol yn y cyfryngau (a'r ymateb cadarnhaol gan ddynion) o ddeunydd ymolchi fel eli eillio a gel gwallt. Felly disgwylir i ddynion edrych ar ôl eu hedrychiad mewn modd na fyddai wedi bod yn ddisgwyliedig yn syth ar ôl y rhyfel diwethaf. Awgryma Ehrenreich fod dynion Americanaidd yn ymwrthod â chyfrifoldeb teuluol a rhan o lwyddiant cylchgronau dynion fel Playboy ydy dangos fod dynion yn ymosodol rywiol. Mae Katz ac Earp wedi tynnu sylw at y ffaith fod trais gwrywaidd yn rhan gynyddol o sut mae dynion yn cael eu portreadu yn y cyfryngau. Noda Katz a Jhally fod trais cartwnaidd llawer o gynnyrch y cyfryngau'n rhoi'r neges i fechgyn fod gwrywdod yn gysylltiedig â gynnau, trais corfforol a'r gallu i lywodraethu dros eraill. Mae hon yn neges sy'n cael ei hailadrodd trwy ffilmiau a theledu Hollywood.

Mae darlledu chwaraeon proffesiynol dan ddylanwad dynion. Mae mwyafrif yr athletwyr, y sylwebwyr, a'r beirniaid yn ddynion, ac mae'r chwaraeon y rhoddir sylw iddynt yn

© CBAC / WJEC 2015

chwaraeon gwrywaidd gan amlaf. Mae llawer o'r chwaraeon merched ar y teledu yn rhai lle mae'r athletwyr yn un ai dangos eu cyrff neu'n atyniadol : athletau, tennis, gymnasteg a nofio. Mae darlledwyr chwaraeon yn canolbwyntio ar y gwrthdaro rhwng chwaraewyr, yn aml er mwyn cynyddu tensiwn a chyffro'r gêm. Er hynny, dadleuir fod canolbwyntio fel hyn ar ddrwgdeimlad yn cadarnhau'r syniad fod gwrthdaro yn rhan annatod o wrywdod. Cefnogir y safbwynt hwn gan y ffeminist, Bea Campbell, sy'n nodi nad oes gan ddynion mewn teuluoedd un rhiant fersiwn anymosodol arall o wrywdod i'w ddefnyddio fel model rôl.

### Cwestiynau

1. Rhestrwch gymeriadau benywaidd cryf yn y cyfryngau.
2. Rhestrwch gymeriadau gwrywaidd cryf yn y cyfryngau.
3. Awgrymwch resymau pam fod gwrywdod hegemonaidd yn newid yn ein diwylliant.

### Allweddeiriau

- Gwrywdod hegemonaidd - delwedd draddodiadol gref ynghylch sut mae dynion i fod i ymddwyn
- Heterorywiol - gweld y rhywedd arall yn rhywiol atyniadol
- Ymosodol rywiol - yn chwilio am ryw heb ymrwymiad cymdeithasol nag emosiynol i'r partneriaid

## Pa stereoteipiau rhywedd gwrywaidd cyffredin a glustnodwyd yn y cyfryngau?

### Bwledi

- Mae gwrywdod hegemonaidd yn cyflwyno dynion fel creaduriaid grymus a chryf. Yn y gorffennol, byddai hyn hefyd wedi cynnwys elfen o fod yn ofalus tuag at ferched a phlant.
- Yn gynyddol, mae stereoteipiau gwrywaidd yn newid i fod yn un o dri stereoteip cyffredin sef arddull mwy ymosodol dreisgar, arddull mwy gofalus a benywaidd ac arddull mwy eironig ond traddodiadol.

### Testun

Stereoteipiau ydy delweddau gor-syml o unigolion sy'n cynrychioli mathau neu grwpiau o bobl; yn aml yn honni fod nodweddion personol penodol ganddynt. Er enghraifft, mae stereoteip y ferch benfelen dwp ac arwynebol yn jôc stereoteip cyffredin mewn llawer o ffilmiau Hollywood.

Mae yna nifer o stereoteipiau gwrywaidd cyffredin. Clustnododd Rutherford 'Y dyn dialgar'. Yn y stori hon, gwneir cam â'r prif gymeriad, sydd wedyn yn ceisio dial trwy ddinistr, trais a chryfder personoliaeth. Mae'r cymeriad hwn yn portreadu gwerthoedd unigoliaeth ac arwriaeth a maddeuir iddo am dorri'r gyfraith neu am ymddwyn yn wrthgymdeithasol gan fod ei achos yn gyfiawn. Enghraifft debygol o hyn fyddai Rambo neu unrhyw rai o'r cymeriadau yn ffilmiau Stephen Seagal neu Jean Claude Van Damme. Anrhydeddir ac edmygir yr arwr, yn aml er gwaethaf y ffaith ei fod wedi lladd a dinistrio pobl ddiniwed.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

Clustnododd Frank Mort stereoteip newydd yn y 1990au, a'i alw'r Dyn Newydd. Nid oedd y fersiwn hwn o wrywdod mor gyffredin mewn ffilmiau, ond gellid ei weld mewn hysbysebion a'r wasg ffasiwn. Roedd gan y dyn newydd, neu'r metrorywiol, arferion da o ran edrych ar ôl ei hun, roedd ganddo ddiddordeb mewn ffasiwn ac edrych yn dda. Ymddangosai mewn rhaglenni coginio a sioeau gwella tai. Yn ogystal â hyn, mae'r corff dynol wedi cael ei wneud yn ddelwedd rywiol agored i'w edmygu gan ferched. Ar galendrau, ceir lluniau o ddynion â thorso noeth. Un enghraifft posibl o ddyn newydd o'r fath fyddai David Beckham a bortreadir mewn cyd-destun domestig gyda'i blant ac mewn hysbysebion sy'n pwysleisio'r ffaith bod ei wyneb a'i gorff yn edrych yn dda. Portreadwyd Beckham hefyd fel dyn metrorywiol, fe'i gwelir fel dyn mwy gofalus, goddefol ac agored ei feddwl. Mae Beckham yn parhau i geisio cael y corff perffaith ac yn cymeradwyo nwyddau harddwch dyn. Parhau mae'r gred bod gwisgo'n drwsiadus iawn, a bod yn daclus a glân yn golygu y bydd y dyn metrorywiol ar y blaen yn y gweithle.

Ochr yn ochr â thwf y Dyn Newydd, ymddangosodd stereoteip arall; y bachgen newydd ('Laddism'). Disgrifia King hyn fel symudiad yn ôl tuag at ffurfiau traddodiadol gwrywdod; ymateb i ffeministiaeth ac i wrywdod newydd. Cynllunnir cylchgronau fel Nuts, Viz a Loaded i apelio at rywiaeth, chwaraeon ac yfed. Yn aml, mae'r rhain yn ddigri ac yn grafog er mwyn i rywiaeth beidio â chael ei gymryd ormod o ddifrif. Er hynny, mae'n amlwg rywiol a dadleua ffeministiaid ei fod yn annog gormes rhywedd.

### Cwestiynau

1. Pa arferion sy'n debygol gan ddyn metrorywiol?
2. Ydy 'laddism' yn wahanol i wrywdod hegemonaidd?

### Allweddeiriau

- 'Laddism' - ymddwyn mewn ffordd chwareus a direidus, a ddim yn cymryd unrhyw beth ormod o ddifrif
- Stereoteipiau - delweddau gor-syml o unigolion sy'n cynrychioli mathau neu grwpiau o bobl
- Gwrywdod hegemonaidd - syniad cryf traddodiadol o sut y dylai dynion ymddwyn
- Dyn Newydd - dyn sy'n herio patrymau gweithredu gwrywaidd traddodiadol
- Metrorywiol - dyn heterorywiol sy'n tueddu i ymddwyn mewn modd sydd ddim yn wrywaidd hegemonaidd arferol, efallai yn mabwysiadu patrymau a arloeswyd gan ddynion hoyw.

## Delwedd draddodiadol y ferch yn y cyfryngau

### Bwledi

- Gwelir merched yn aml yn y cyfryngau mewn rolau ymostyngol a domestig
- Mae merched mewn cynnyrch cyfryngau sydd wedi'u targedu at ddynion yn cael eu gwerthfawrogi am eu rhywioldeb a'u hymddygiad goddefol.
- Mae merched mewn cynnyrch cyfryngau sydd wedi'u targedu at ferched yn fwy tebygol o gael eu dangos yn gryf ond maent yn parhau i gael eu lleoli yn y cartref ac yn debygol o gael eu cosbi am eu gallu a'u doniau.

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

## Testun

Yn hanesyddol, mae delwedd y ferch yn y cyfryngau'n tueddu i fod yn gyfyng iawn ac wedi'i stereoteipio o fewn ffiniau cul atyniad rhywiol, emosiynau a gwaith domestig. Roedd hysbysebion cynnar nwyddau domestig ar y teledu yn portreadu merched fel defnyddwyr nwyddau'r cartref a dynion fel y rhai oedd yn cael bwyd da, tai cyffyrddus a dillad glân. Actorion gwrywaidd fyddai â'r awdurdod. Tynnodd Tuchman sylw at y ffaith mai addurno oedd unig swyddogaeth merched mewn nifer o ddramâu, fel gwobr rywiol i'r arwr neu fel unigolyn oedd yn ddiamddiffyn ac angen dyn i'w gwarchod rhag perygl.

Edrychodd Goffman ar hysbysebion y 1970au gan ganfod fod merched yn cael eu dangos mewn rolau ymostyngol a sefyllfaoedd goddefol. Byddent yn cael eu gweld yn gorwedd i lawr mewn modd pryfociol neu'n ymostwng i ddyn mewn rhyw ffordd. Mae Skeggs wedi tynnu sylw at y ffaith fod merched yn aml yn cael eu portreadu fel dioddefwyr mewn dramâu llofruddiaeth ond mewn gwirionedd, gan amlaf, mae mwyafrif y merched sy'n cael eu lladd, yn marw o ganlyniad i drais yn y cartref. Mae yna hyd yn oed ddarlun o ymosodiad rhywiol er mwyn cyfleu merched yn cael eu trywanu. Defnyddiodd Laura Mulvey gysyniad yr 'edrychiad gwrywaidd' i ddisgrifio'r ffordd mae merched yn cael eu defnyddio mewn drama er mwyn apelio at ddynion heterorywiol.

Er hynny, nid dim ond cynnyrch cyfryngau a dargedir at ddynion sy'n cynnig rolau cyfyngedig a chyd-destun domestig i ferched. Edrychodd Winship (1987) ar gylchgronau merched a chanfod fod llawer o'r cynnwys yn ymwneud â phriodasau, rhianta a gwaith tŷ. Mae cylchgronau bellach wedi ehangu eu meysydd diddordeb i gynnwys ffasiwn, iechyd, enwogion, colli pwysau a straeon am bobl. Fodd bynnag, ymddengys y rhain yn bell iawn oddi wrth anghenion merched sy'n gweithio bob dydd neu sydd â gyrfaoedd a diddordebau ehangach na chlebran am bobl enwog a harddwch. Mae nifer o ffeministiaid wedi edrych ar gylchgronau i rai yn eu harddegau (Duke, Kreshel, Winship a McRobbie) ac wedi canfod eu bod yn atgyfnerthu agweddau patriarchaidd. Gallai hyd yn oed cylchgronau diweddar fel She a New Woman roi ystyriaeth i ffeministiaeth; ond mae Ang yn honni eu bod yn cael eu targedu at fath arbennig o ferch gyfoethog, gwyn a dosbarth canol. Gwêl ôl-fodernwyr fel Joke Hermes ac Angela McRobbie bod rhai cylchgronau merched wedi gwella. Er enghraifft, cred McRobbie fod y dirywiad yng ngwerthiant Cosmopolitan yn adlewyrchu'r ffaith nad ydy'r cylchgrawn wedi gallu symud ymlaen o neges 'canfod dy ddyn a'i gadw' a welid yng nghylchgronau merched y gorffennol.

Tynnodd Geraghty a Modieski sylw at y ffaith mai ar gyfer merched mae operâu sebon yn cael eu targedu yn benodol. Mae ganddynt gynulleidfaoedd benywaidd a chymeriadau benywaidd atyniadol a chryf. Er hynny, er gwaethaf eu cryfder a'u grym, mae'r cymeriadau hyn yn wynebu llawer o broblemau lle cânt eu cosbi'n symbolaidd am eu hymddygiad. Hefyd, cânt eu cadw'n gaeth i'r cartref neu hyd yn oed os bydd ganddynt swyddi, cânt eu portreadu yn y cartref. Er ei bod yn hen astudiaeth yn awr, dywedodd D.M. Meehan (1983) fod merched mewn operâu sebon yn cael eu darlunio mewn modd stereoteipiol hynod gul: 'gwraig dda'; 'ast'; 'dioddefwraig', ac ati. Fe ganfu hi hefyd fod merched yn cael eu darlunio un ai'n dda neu'n ddrwg, byth fel cyfuniad; fod merched 'da' yn ymostyngol, sensitif ac yn cadw tŷ; tra bod merched 'drwg' yn gwrthryfela, yn annibynnol ac yn hunanol.

## Cwestiynau

1. Pa ddelwedd draddodiadol o ferched a welir yn y cyfryngau?

© CBAC / WJEC 2015

2. Ydy delwedd y ferch yn y cyfryngau wedi newid llawer dros y blynyddoedd?
3. Beth ydy'r gwahaniaethau rhwng y ffordd y portreadir merched yn y cyfryngau sydd wedi'u targedu at ddynion a'r cyfryngau sydd wedi'u targedu at ferched?

### Allweddeiriau

- Agweddau patriarchaidd - agweddau sy'n adlewyrchu buddiannau a grym dyn mewn cymdeithas
- Agweddau ymostyngol - ystyried eu hunain yn llai nag eraill a bod yn rhy ufudd i ddynion
- Pryfoclyd - bod yn rhywiol atyniadol i'r rhyw arall
- Cosbi symbolaidd - mae merched yn cael eu dangos yn profi anhapusrwydd gan eu bod wedi meiddio torri rolau traddodiadol

## Ydy delwedd y ferch yn y cyfryngau'n newid?

### Bwledi

- Mae rolau merched mewn cymdeithas wedi newid yn gyflymach na'r modd y'u darlunnir yn y cyfryngau
- Mae nifer o'r ffyrdd y mae merched yn cael eu dangos yn y cyfryngau'n parhau i wneud sylw o gyrff merched er gwaethaf y ffaith fod peth symudiad tuag at newid a diweddaru'r ddelwedd
- Mae merched hŷn yn cwyno nad ydynt i'w gweld ar y cyfryngau.

### Testun

Yn bendant mae rolau merched mewn cymdeithas wedi newid yn sylweddol dros y 50 mlynedd diwethaf. Gall merched ifanc ddisgwyl cael gyrfaoedd a bywydau tu hwnt i fagu plant a chadw tŷ i ddyn. Nid oes disgwyl i briodasau barhau am byth. Felly, mae'n rhesymol cymryd yn ganiataol y byddai stereoteipiau benywaidd yn y cyfryngau'n adlewyrchu rolau merched yn y byd ehangach.

Yn ymarferol, awgryma'r rhan fwyaf o ymchwil mwyaf diweddar nad ydy'r cyfryngau wedi symud mor gyflym â chymdeithas. Dengys ymchwil Americanaidd fod 38% o gymeriadau benywaidd mewn gemau electronaidd yn gwisgo ychydig iawn o ddillad a bod gan y rhan fwyaf ohonynt gyrff afreal gyda bronnau anferth. Awgryma Kilbourne fod patrymau cylchgronau dynion sy'n dangos cyrff merched, yn aml heb wyneb hyd yn oed, yn gwneud i ferched fod yn wrthrychau yn hytrach na phobl. Mae ffilmiau modern Disney a anelwyd at ferched ifanc iawn yn dangos cyrff afreal, tenau iawn a bronnog a merched sydd yn dibynnu ar ddynion yn emosiynol neu er mwyn byw. Mae hyd yn oed Mulan ddewr, sy'n arbed Tsieina rhag cael ei goresgyn ac sy'n ennill anrhydedd ei theulu, yn mynd i briodi ar ddiwedd y stori. Dyna'i gwobr am fod yn arwres.

Cyfeiriwyd sawl tro at y ffaith, pan fydd merched wedi llwyddo i gyrraedd yr uchelfannau yn y byd gwaith, cymerir yn ganiataol eu bod wedi gwneud hynny trwy aberthu magu plant, perthnasau normal a hyd yn oed eu hiechyd meddwl, efallai. Mae'r Simpsons er enghraifft yn portreadu Marge a Lisa fel merched llawer mwy deallus ac ystyriol na'r dynion o'u cwmpas. Er hynny, mae pawb o'u cwmpas yn eu tanbrisio a'u tanseilio. Yn rhannol, sylw eironig ar gymdeithas ydy hwn. Yn gynyddol mae genre o ferched 'caled'

© CBAC / WJEC 2015

wedi datblygu e.e. Buffy the Vampire Slayer ac eraill ond merched ifanc atyniadol, tenau a del yn gonfensiynol sydd yn eu hactio. Gwelwyd achosion diweddar o ferched aeddfed hŷn yn cael eu disodli ar raglenni teledu gan ferched iau a mwy deniadol, ond nid oes cyfyngu ar oedran dynion yn y byd darlledu. Yn 2009, disodlwyd Arlene Phillips (60) gan ferch 30 oed llai profiadol ar y sioe Strictly Come Dancing. Arweiniodd hyn at gryn ddadlau a darlledwyr benywaidd hŷn eraill yn cwyno am y ffordd yr oedd merched ifanc yn cymryd eu lle. Er enghraifft, ar ITV 6 (2011) gwelir Alistair Stewart, hynod o aeddfed, ochr yn ochr â merch atyniadol sy'n ddigon ifanc i fod yn wyres iddo. Mae merched tywydd yn enghraifft arall o wahaniaethu ar sail oedran.

### Cwestiynau

1. Rhowch enghreifftiau o ferched confensiynol yn y cyfryngau
2. Rhowch enghreifftiau o ferched cryf a phwerus yn y cyfryngau
3. Ydy o'n wir fod delweddau merched yn y cyfryngau'n adlewyrchu realiti cyfredol?

### Allweddeiriau

- Gwrthrychu - tynnu personoliaeth a throi unigolyn yn wrthrych
- Eironig - gwneud hwyl am ben rhywun neu rywbeth

## Cyrff merched, y cyfryngau a'r ddadl anorecsia

### Bwledi

- Mae nifer cynyddol o unigolion yn cael diagnosis o fod yn anorecsig
- Ymddengys bod perthynas rhwng delweddau tenau a gyflwynir gan y cyfryngau a'r cynnydd mewn anorecsia, ond ni ellir profi na gwrthbrofi hyn yn derfynol.
- Mae'r cyfryngau a hysbysebion yn ffafrio merched tenau a thal
- Gallai merched ag anhwylderau bwyta gael eu dylanwadu gan y ddelfryd o fod yn denau iawn.

### Testun

Anhwylder bwyta difrifol ydy anorecsia ac fe'i hystyrir yn broblem iechyd meddwl. Mae'r rhai sy'n anorecsig yn rheoli eu bwyta i lefelau peryglus, ac felly bydd màs eu cyrff yn is nag 80% person iach. Mae'n un o gyfres o anhwylderau bwyta lle mae pobl yn ceisio rheoli eu cyrff mewn ffyrdd ymosodol sydd ddim yn iach. Yn anffodus, yn aml mae'n arwain at farwolaeth gynnar ac anabledd corfforol. Ceir cyfeiriadau ato ers canrifoedd, ac yn y gorffennol, fe'i hystyrid i fod yn rhywbeth crefyddol ac ysbrydol i'w wneud. Yn awr, fodd bynnag, fe'i hystyrir yn rhywbeth difrifol iawn. Mae mwy o ferched na dynion yn debygol o ddioddef o anorecsia ond gall dynion hefyd ddioddef ohono. Mae Mashkind et al yn nodi fod dynion hoyw yn debygol o ymateb i ddelweddau yn y cyfryngau ac i anorecsia.

Mae llawer o drafodaeth am y berthynas rhwng y cyfryngau a'r adroddiadau cynyddol am ferched ifanc yn datblygu anorecsia. Sylwer na ellir byth cael prawf uniongyrchol fod y cyfryngau'n gyfrifol am achosi anorecsia gan nad ydy pawb sy'n defnyddio'r cyfryngau'n mynd yn anorecsig. Y ddadl ydy i ba raddau mae'r cyfryngau'n cyfrannu neu ddim yn cyfrannu at y cynnydd mewn anorecsia. Edrychodd Becket et al (2003) ar gyflwyno teledu

© CBAC / WJEC 2015

gorllewinol i Fiji, diwylliant a oedd yn trysori merched tewion. Arweiniodd hyn at achosion o anorecsia, anhwylder na welwyd yno o'r blaen. Dadleuodd Wolf (1991) mai'r cyfryngau ydy'r prif achos pam fod yna gelwydd harddwch niweidiol, sy'n honni mai dim ond un math o harddwch sydd yna - harddwch merched gwyn Gogledd America. Mae'r cyfryngau'n trosglwyddo negeseuon am ddiet, iechyd a ffitrwydd ond ceisio gwneud i ferched reoli eu cyrff y maent.

Yn ôl ymchwil yn 2003 gan Alfreiter et al, mae preswylydd arferol yn UDA yn gweld oddeutu 5,000 o ddelweddau hysbysebu bob dydd. Awgryma theori effeithiau diwylliannol fod hyn yn cael dylanwad cryf ar isymwybod pobl. Y brif neges gan y cyfryngau i ferched ydy 'bydd yn denau er mwyn bod yn ddeniadol'. Mae'r math arferol o gorff sy'n cael ei ffafrio gan hysbysebwyr a'r cyfryngau'n un eithafol; mae'n brin iawn ymhlith merched. Mae modelau fel arfer yn hynod o dal ac mae ganddynt indecs màs corff isel iawn. Yn aml, ceir y syniad fod merched dros bwysau yn farus, ac yn emosiynol a moesol beryglus. (Bordo 1997)

Noda Tepperman mai prin ydy'r merched fyddai'n gallu cael y ffigwr perffaith, hyd yn oed pe byddent yn dilyn diet eithafol. Mae'n annaturiol i'r mwyafrif fod yn hynod o dal, yn hynod o denau a bod â bronnau mawrion, ac felly anogir merched i ddilyn diet eithafol, ac yna talu am fronnau ffug er mwyn cael y ffigwr perffaith hwnnw. Darganfu lladmeryddion fel McVey fod hyd at draean merched ifanc yn teimlo'n dew, er mai dim ond 7% oedd dros eu pwysau neu'n ordew. Gwelodd Hamilton a Waller fod merched ag anhwylderau bwyta yn cael eu heffeithio gan ffotograffau ffasiwn ac yn barnu eu bod eu hunain yn rhy dew ar ôl eu gweld.

Awgryma ffeministiaid fod cyrff merched yn cael eu dibrisio mewn cymdeithas, ac felly ystyrir bod cyrff merched yn wannach. Gellid dweud fod pobl sy'n dioddef o anorecsia yn glynu'n rhy gaeth at y ddelfryd o fod yn denau, ac felly'n cydymffurfio â delweddau harddwch y cyfryngau. Er hynny, mae llawer o rai sy'n dioddef o anorecsia yn cael pleser o'r teimlad o reoli bwyd, gan nad ydynt yn gallu cael rheolaeth dros rannau eraill o'u bywydau. (Roach-Anleu 2006).

### Cwestiynau

1. Beth ydy anorecsia?
2. Pam ei bod hi'n amhosibl profi perthynas rhwng anorecsia a'r cyfryngau?
3. Pa dystiolaeth sydd yna i awgrymu perthynas rhwng anorecsia a'r cyfryngau?

### Allweddeiriau

- Anhwylder bwyta - patrymau bwyta annaturiol
- Anorecsia - anhwylder bwyta yn seiliedig ar or-reoli bwyta a bod lawer iawn o dan bwysau

## Sut mae ethnigrwydd yn cael ei gynrychioli yn y cyfryngau?

### Beth yw ethnigrwydd?

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

## Bwledi

- Ychydig iawn o wahaniaethau genetig sylweddol sydd rhwng gwahanol grwpiau o fodau dynol
- Yn y gorffennol, yr oedd amrywiadau bychain megis lliw croen neu wahaniaethau diwylliannol megis crefydd yn cael eu defnyddio i gyfiawnhau anghydraddoldeb neu hyd yn oed lofruddiaeth.
- Mae ethnigrwydd yn rhywbeth a ddiffinnir gan bob unigolyn ac yn ddyrys oherwydd na fyddai pawb yn defnyddio'r un categorïau ar gyfer diffinio ethnigrwydd pobl.

## Testun

Mae Bhopal wedi diffinio ethnigrwydd fel "y grŵp cymdeithasol y mae person yn aelod ohono, y mae yn cysylltu ei hun ag ef, neu yn cael ei gysylltu ag ef gan eraill, o ganlyniad i gymysgedd o ffactorau diwylliannol ac eraill yn cynnwys iaith, deiet, crefydd, llinach a nodweddion corfforol a gysylltir yn draddodiadol â hil". Dengys y diffiniad hwn peth mor gymhleth yw'r syniad o ethnigrwydd mewn gwirionedd.

Cyn yr 1950au a'r 1960au, yr oedd y rhan fwyaf o ymchwilwyr yn siarad yn nhermau hil ac mae hon yn farn gyffredin o hyd, er ei bod yn wyddonol wallus. Byddai anthropolegwyr yn ceisio dosbarthu pobl i 'hiliau' yn debyg iawn i'r ffordd y byddai bridwyr yn ceisio grwpio anifeiliaid fel cŵn. Cyn y ddealltwriaeth o DNA a geneteg sydd gennym yn awr, ymddangosai hyn yn rhesymol, hyd yn oed os oedd yn arwain at dybiaethau ynghylch grwpiau o bobl y byddai'r rhan fwyaf o feddylwyr modern yn eu hystyried yn atgas neu'n ffiaidd. Yr oedd pobl yn cael eu dosbarthu yn ôl lliw eu croen ac ymddangosiad corfforol. Defnyddid hynny wedyn i gyfiawnhau cam-drin a hil-laddiad rhai grwpiau diwylliannol neu enetig. Gwyddom erbyn hyn mai cwbl arwynebol yw'r gwahaniaethau hyn ac nad ydynt hyd yn oed yn arweiniad da i etifeddiaeth enetig rhywun. Serch hynny, defnyddir y termau 'hil' a 'hiliaeth' yn gyfreithiol o hyd ac maent yn ddiwylliannol arwyddocaol i rai pobl.

Creadigaeth gymdeithasol yw ethnigrwydd. Mae hyn yn golygu ei fod yn rhywbeth y mae pobl wedi ei greu er mwyn deall y byd cymdeithasol. Mae fel arfer yn ddiffiniad y bydd unigolyn yn ei roi iddo'i hun neu iddi'i hun a gallai hyd yn oed newid dros amser neu yn ôl amgylchiadau. Gallai person sy'n siarad Cymraeg ac yn byw yng Nghymru ystyried ei hun yn Gymro, ond yn yr un modd gallai unigolyn o dras Pacistanaidd sy'n siarad Urdu yn y cartref a Saesneg yn y gwaith. Wrth i don ar ôl ton o ymfudo ddigwydd, gall ethnigrwydd fod yn ddyrys; bu cymuned Somali Caerdydd yn y ddinas am 150 mlynedd. Gall rhai ymfudwyr gymhathu'n hawdd am eu bod yn debyg yn gorfforol i boblogaeth y wlad: mae traddodiad hir o ymfudo i Brydain gan Wyddelod ond nid yw'r Gwyddelod fel arfer yn cael eu hadnabod fel grŵp ar wahân. Bu pobl ddu ym Mhrydain ers cyfnod y Rhufeiniaid ond fe'u hystyrir gan rai pobl anwybodus fel grŵp ar wahân neu ymfudwyr diweddar heb ganiatâd i ddod yn rhan gyflawn o gymdeithas. Mae materion hiliaeth yn berthnasol gan fwyaf i'r gymuned BME (Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig) oherwydd bod ganddynt wahaniaeth gweledol sy'n golygu eu bod yn agored i wahaniaethu a rhagfarn.

## Cwestiynau

1. Pam y bwriwyd amheuaeth ar y cysyniad o hil?
2. Pa grwpiau cymdeithasol sydd fwyaf agored i ragfarn a gwahaniaethu?

© CBAC / WJEC 2015

3. Beth yw'r gwahaniaethau rhwng hil ac ethnigrwydd?

### Allweddeiriau

- Atgas - cwbl ffiaidd ac annerbyniol
- Hil-laddiad - ymgais i ddileu grŵp diwylliannol cyfan drwy lofruddio, er enghraifft yr hyn a wnaed i boblogaeth wreiddiol Tasmania gan ymsefydlwyr cynnar Awstralia.
- Creadigaeth gymdeithasol - rhywbeth a grëwyd gan bobl er mwyn deall y byd cymdeithasol
- BME - Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig
- Hiliaeth - triniaeth anghyfartal ar sail lliw, diwylliant neu grefydd

## Beth yw stereoteipiau hiliol?

### Bwledi

- Defnyddir stereoteipiau diwylliannol mewn ffordd negyddol yn erbyn rhai grwpiau penodol o bobl.
- Tueddwn i ddiffinio'n hunain yn ôl yr hyn nad ydym, ac yna roi nodweddion annifyr i'r grŵp arall.
- Daeth bod yn ddu i gael ei gysylltu â stereoteipio negyddol iawn yn y cyfryngau.

### Testun

Mae credoau cyffredin ynghylch amrywiol grwpiau diwylliannol a chymdeithasol. Gellir gweld y rhain mewn jôcs poblogaidd lle y gall Cymry gael eu cysylltu â defaid mewn ffordd negyddol. Caiff pobl Albanaidd yn aml eu hystyried yn bobl brudd, cybyddlyd ac yn yfwyr trwm, ac ystyrir y Gwyddelod yn dwp. Daw stereoteipiau yn fath o law-fer ddiwylliannol i egluro ymddygiad gwael neu nodweddion cymdeithasol pobl. Mae hanes hir i'r fath bortreadu yn y cyfryngau poblogaidd, fel bod Shakespeare yn cael ei ystyried yn ffiaidd tuag at Iddewon ond ar y llaw arall ei fod yn ganmoliaethus o'r Cymry a hyd yn oed yn caniatáu i gymeriadau siarad yr iaith yn ei ddramâu hanes.

Gall y farn or-syml hon weithiau dramgwyddo'r grwpiau ethnig y cyfeirir atynt. Mae Beverley Skeggs ac eraill wedi defnyddio'r syniad o 'y llall' i egluro sut y caiff y stereoteipiau diwylliannol hyn eu cynhyrchu a phaham eu bod yn parhau. Mae'n haeru ein bod yn diffinio ein hunain yn ôl yr hyn nad ydym. Er enghraifft, mae dynion yn diffinio'u hunain fel eu bod yn wahanol i ferched, felly maent yn ymwrthod ag ymddygiad a nodweddion benywaidd. Gallant ystyried eu hunain yn normal neu hyd yn oed yn rhagorach mewn rhyw ffordd. Mae Cymry yn aml yn ystyried eu bod 'ddim yn Saeson', felly Saesneg yw'r 'llall'. Yn ogystal bu stereoteipio hiliol ar y Cymry gan ffigurau cyhoeddus fel Anne Robinson. Drwy hyn, mae pobl wyn wedi portreadu eu hunain fel y norm ac wedi stereoteipio'u hunain yn gadarnhaol yn y cyfryngau, ond ar y llaw arall mae pobl ddu yn cael eu hystyried fel 'y llall' ac yn cael eu stereoteipio'n negyddol.

Y mater i gymdeithasegwyr yw i ba raddau y gall y cyfryngau greu neu gynnal y mythau annymunol hyn am grwpiau o bobl. Er enghraifft, mae llawer o bobl ddu wedi cael eu tramgwyddo gan y ffordd y portreadwyd hwy yn y cyfryngau torfol. Nododd Mario van Peebles sut yn yr 1930au a'r 1940au yn Hollywood y daeth bod yn Ddu yn symbol o nam

© CBAC / WJEC 2015

meddyliol ac y byddai Americanwyr Affricanaidd yn destun sbort. Yn ogystal, daeth du fel lliw yn symbol o ddrygioni. Mae pobl ddrwg yn gwisgo du ac felly hefyd bobl sy'n torri'r norm cymdeithasol, fel merched sy'n ddihirod yn ffilmiau James Bond. Hefyd, mae pryder ynghylch y ffordd y mae rhai grwpiau neu ddigwyddiadau diwylliannol yn cael eu hanwybyddu neu'n anweladwy.

### Cwestiynau

1. Pa stereoteipiau diwylliannol a hiliol allwch chi eu nodi mewn diwylliant poblogaidd?
2. Pam fod stereoteipiau diwylliannol yn tramgwyddo pobl yn gyffredinol?

### Allweddeiriau

- Y llall - diffiniwn ein hunain fel pobl nad ydym yn rhan o grŵp cymdeithasol a ystyrir gennym ni'n negyddol
- Stereoteip - barn or-syml am berson neu grŵp o bobl.

## Theori Segmentu

### Bwledi

- Mae theori segmentu yn haeru bod cyfalafwyr yn hyrwyddo hiliaeth yn fwriadol er mwyn rhannu a rheoli'r dosbarth gweithiol.
- Er bod rhai cyfryngau wedi gwneud ymgais fwriadol i hyrwyddo stereoteipiau cadarnhaol, yn aml nid yw hyn yn ymarfer ystyrlon na dwys.
- Ceir hiliaeth mewn adroddiadau newyddion ac mewn ffilmiau poblogaidd sy'n gynnil a heb fod yn amlwg i lawer.

### Testun

Datblygwyd theori segmentu gan Michael Reich yn yr 1980au yn UDA. Yr oedd yn seiliedig ar syniadau Marcsaidd o wrthdaro dosbarthiadau cymdeithasol ac yn adleisio gwaith Stuart Hall yn y DU. Mae Reich yn dadlau bod cyfalafwyr yn ceisio ecsbloetio'r dosbarth gweithiol a chadw cyflogau'n isel. Gwnânt hyn drwy wanhau gallu undebau i fargeinio a thorri undod y dosbarth gweithiol. Gwneir hyn drwy greu a hyrwyddo rhagfarn ar sail hiliol a diwylliannol. O'r herwydd, meddai, y mae'r cyfryngau wedi dod yn arf i hyrwyddo hiliaeth drwy hyrwyddo stereoteipiau negyddol o Americanwyr Affricanaidd fel troseddwyr a rhai sy'n cam-ddefnyddio budd-daliadau ac yn cymryd cyffuriau. Yn ogystal, mae'r cyfryngau newyddion yn anwybyddu digwyddiadau sy'n bwysig i'r bobl Sbaeneg ac Americanwyr Affricanaidd megis anghydraddoldeb, tlodi a chyfleoedd addysgol gwael. Ceir felly ddamcaniaeth ddrwgdybus sy'n haeru bod y dosbarthiadau uchaf yn cynhyrchu hiliaeth a stereoteipio negyddol fel polisi bwriadol i reoli'r dosbarthiadau gweithiol.

Mae'n defnyddio fel ei dystiolaeth y terfysgoedd hiliol yn Los Angeles yn yr 1990au. Yn 1991, curodd pedwar heddwas gwyn Americanwr Affricanaidd gan gyfiawnhau'r curo ar sail eu bod wedi cael eu brawychu. Byddai hyn wedi bod yn dderbyniol i lawer o bobl wyn a welodd y digwyddiad. Yn anffodus i'r swyddogion, recordiwyd y digwyddiadau ar deledu cylch cyfyng ac yr oedd yn amlwg nad oedd eu tystiolaeth mewn gwirionedd yn gywir. Arweiniodd hyn at derfysg. Dadansoddodd Reich y sylw a roddwyd i'r terfysgoedd

© CBAC / WJEC 2015

gan y cyfryngau a chanfu, er y disgrifiwyd y digwyddiadau fel terfysgoedd hiliol a achoswyd gan Bobl Ddu, bod llawer o'r rhai a arestiwyd yn y terfysgoedd yn wyn neu'n Sbaeneg. Llai na 40 y cant o'r ysbeilio a wnaed gan Bobl Ddu.

Mae Rodney Davies wedi dadlau bod y darlun hwn gan y cyfryngau o derfysgoedd Los Angeles yn syml iawn yn parhau'r delweddau stereoteip a fodolai o bobl ddu fel rhai diog, anonest a slei. O'r herwydd y mae ef ac eraill wedi awgrymu y dylid herio stereoteipiau negyddol. Mewn blynyddoedd diweddar gwnaed mwy o ymdrech i gynnig delweddau cadarnhaol o bobl ddu yn y cyfryngau. Mae'r rhaglen deledu South Park yn gwneud hwyl am ben y tueddiad hwn drwy alw'r unig blentyn du yn yr ysgol yn 'Token'. Fodd bynnag, yn pwyso yn erbyn y delweddu cadarnhaol hwn y mae delwedd negyddol fwy cynnil y gellir ei gweld mewn ffilmiau poblogaidd fel rhai Spielberg (cyfres Indiana Jones) a hefyd penodau diweddaraf Star Wars. Er enghraifft, bu beirniadaeth eang ar gymeriad Jar Jar Binks fel stereoteip hiliol a negyddol o berson Du o Jamaica.

### Cwestiynau

1. Esboniwch theori segmentu.
2. Pa ddelweddau cadarnhaol o bobl ddu allwch chi eu nodi yn y cyfryngau?
3. Pa ddelweddau negyddol o bobl ddu allwch chi eu nodi yn y cyfryngau?

### Allweddeiriau

- Cynnil - heb fod yn hawdd ei adnabod
- Token - dangos ewyllys da, ond heb ei olygu mewn gwirionedd
- Theori Segmentu - yn haeru bod cyfalafwyr yn dewis rhannu a rheoli'r dosbarth gweithiol
- Darniad - hollti neu dorri'n ddarnau mân
- Cynllwyn - plotio yn erbyn pobl eraill

## Troseddu gan bobl ddu yn y cyfryngau

### Bwledi

- Haerodd Hall ac eraill bod troseddu gan bobl ddu a phobl ifanc yn destunau panig moesol a bod hyn yn creu ofn ymysg y cyhoedd.
- Mae'r cyfryngau'n gwneud troseddu gan bobl ddu yn fwch dihangol.
- Haerir nad yw'r cyfryngau'n adrodd yn ddigonol pan fo pobl ddu ac o leiafrifoedd ethnig yn ddioddefwyr trosedd.

### Testun

Cyhoeddodd Stuart Hall ac eraill 'Policing the Crisis' i ystyried beth sy'n achosi stereoteipio hiliol ac ystyried pam a sut y mae'n digwydd. Roedd hwn yn llyfr dylanwadol iawn, a gyhoeddwyd yn 1978. Mae'n ganolog i drafodaethau ar droseddu a'r cyfryngau ym maes cymdeithaseg. Mae'n dechrau gydag astudiaeth o droseddu ar y stryd a gyflawnwyd gan dri llanc ifanc du yn erbyn pensiynwr yn 1972 ac effaith y digwyddiad hwn ar blismona, a chyfiawnder yn y cyfryngau ac mewn gwleidyddiaeth. Mae'n beirniadu astudiaeth Stanley Cohen o banig moesol am beidio ag ystyried yn llawn effaith panig moesol ar sefydliadau cymdeithasol yn ymwneud â grym, na rhoi ystyriaeth briodol i'r cyd-destunau

© CBAC / WJEC 2015

gwleidyddol.

Cyn 1972, er bod troseddu ar y stryd yn digwydd, nid oedd y syniad o fygio wedi bodoli'n flaenorol mewn adroddiadau newyddion nac mewn cofnodion heddlu. Fodd bynnag, nododd yr heddlu gynnydd sylweddol mewn mygio, a'i gysylltu â phobl ifanc ddu. Adroddwyd hyn yn eang mewn gwahanol gyfryngau newyddion, felly yr oedd yr heddlu yn awr wedi diffinio mygio fel problem. Yna ysgrifennodd y papurau newydd golofnau golygyddol ac erthyglau yn mynnu dedfrydau llymach a deddfwriaeth newydd i reoli pobl ifanc ddu. Yna aeth Hall ac eraill ymlaen i haeru bod pryder y cyhoedd ynghylch materion cyhoeddus fel aflonyddwch ymysg myfyrwyr, normau cymdeithasol a rhywiol yn newid, a'r boblogaeth Ddu gynyddol yn tynnu sylw oddi wrth argyfwng gwleidyddol a chymdeithasol yn y llywodraeth. Felly y mae stereoteipio negyddol o bobl ddu yn gysylltiedig â syniadau am greu bwch dihangol. Mae holl ddrygioni cymdeithas yn cael eu gosod ar un grŵp sy'n cael eu beio a'u casáu am rywbeth nad yw wedi'i wneud yn benodol ganddynt hwy.

Mae pryderon gan lawer o hyd bod y cyfryngau'n adrodd yn ormodol ar droseddau gan bobl Ddu. Gall hyn ymestyn o banig moesol am gerddoriaeth rap ac anhrefn cyhoeddus (2003) neu droseddau gynnau yn y DU (2008) i achosion unigol lle y mae aelodau o leiafrifoedd ethnig yn cael eu beio am ddigwyddiadau. Mae'n werth nodi, o'r 89 o bobl ifanc yn eu harddegau a laddwyd yn 2008, yr oedd 50 ohonynt heb fod yn wyn. Felly mae llanciau ifanc du neu o leiafrifoedd ethnig yn fwy tebygol o ddioddef trais nac eraill. Er hynny, yr oedd achos Americanaidd enwog yn 2009 yn ymwneud â mam (Bonnie Sweeten) a alwodd yr heddlu i honni ei bod hi a'i merch yn cael eu cadw'n wystlon gan ddau ddyn du. Adroddwyd hyn yn eang. Fodd bynnag, canfuwyd bod y stori'n ffug a bod y fam a'r ferch mewn gwirionedd yn Disneyland adeg y gwnaed yr alwad i'r heddlu.

Mewn araith enwog (2006) cyhuddodd Pennaeth Heddlu'r Metropolitan, Syr Ian Blair, yr heddlu o hiliaeth sefydliadol wrth ymdrin ag adroddiadau am lofruddiaethau. Awgrymodd nad oedd llofruddiaethau pobl o leiafrifoedd ethnig yn cael digon o sylw. Roedd hyn mewn perthynas â dau achos penodol. Yn yr achos cyntaf, yr oedd cyfreithiwr, Tom ap Rhys Price wedi cael ei ladd gan ddau fygiwr ifanc du, ac yn yr ail, llofruddiwyd Balbir Matharu, gwerthwr nwyddau adeiladu wrth i ddau ddyn gwyn ddwyn car. Cwynodd Blair bod yr ymosodiad cyntaf wedi ei adrodd yn eang a'i drafod ar y cyfryngau, ond bod yr ail wedi cael ei anwybyddu.

## Cwestiynau

1. Pa reswm a roddodd Hall am adrodd yr ormodol ar fygio?
2. Pa dystiolaeth sydd i awgrymu bod y cyfryngau'n hiliol yn eu hagwedd tuag at drosedd yn erbyn pobl ddu ac o leiafrifoedd ethnig?

## Allweddeiriau

- Creu bwch dihangol - beio rhywun arall am holl ddiffygion cymdeithas
- Panig moesol - pan fo pobl yn ofni rhyw fater sy'n ymddangos fel pe bai'n bygwth trefn cymdeithas
- Mygio - trosedd stryd sef bygwth a dwyn eiddo, weithiau gyda thrais.

## Pobl ddu yn y cyfryngau

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

## Bwledi

- Mae pobl BME yn raddol ddechrau ymddangos yn y cyfryngau Prydeinig prif ffrwd.
- Maent yn absennol o lawer iawn o raglenni neu yn cael eu portreadu'n negyddol ynddynt.
- Nid yw'r sefyllfa ar gyfer actorion a newyddiadurwyr BME yn gwella.

## Testun

Er gwaethaf y nifer cynyddol o bobl BME sy'n ymddangos ar y cyfryngau, enwogion fel Meera Syal a Trevor McDonald, mae pryderon nad yw pobl ddu wedi'u cynrychioli'n llawn o hyd yn y cyfryngau prif ffrwd. Er enghraifft, mae operâu sebon a leolir mewn ardaloedd ynghanol dinasoedd yn llawn o deuluoedd gwyn, ond y realiti yw mai pobl BME sydd i raddau helaeth yn byw mewn ardaloedd o'r fath. Yn ogystal, gall y portread o gymeriadau BME weithiau ganolbwyntio ar nodweddion negyddol neu anwybyddu gwahaniaethau diwylliannol unigryw rhwng grwpiau ethnig lleiafrifol â diwylliant Prydeinig.

Mewn adroddiad gan Annabelle Sreberny (1999) dywedodd y Comisiwn Safonau Darlledu bod 'gwylwyr yn teimlo bod grwpiau ethnig yn cael eu dangos fel cymeriadau dau ddimensiwn ac yn aml yn cael eu stereoteipio'n negyddol'. Yn ogystal, awgrymodd ymatebwyr o gymunedau ethnig lleiafrifol eu bod yn cael eu cynnwys mewn operâu sebon i wneud pwyntiau yn hytrach nac fel gwir gymeriadau gyda straeon penodol. Yn 2001, nododd y Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol (CCH) bod rhai grwpiau ethnig ar goll o deledu Prydeinig a bod ychydig iawn o sylw'n cael ei roi i bobl Tsieineaidd. Roedd dadansoddiad o gynnwys un wythnos o deledu y deg rhaglen fwyaf poblogaidd ar BBC2 yn dangos bod yr unig wynebau Du neu Asiaidd yn y rhaglen gartŵn, The Simpsons.

Yn 2000, canfu dwy astudiaeth a gomisiynwyd gan y CCH mai dim ond 8.4% o'r bobl ar deledu oedd pobl nad oeddynt yn wyn. Fodd bynnag, pan fyddai rhaglenni nad oeddynt wedi'u gwneud ym Mhrydain a lluniau o newyddion ac ymwelwyr tramor yn cael eu tynnu o'r ffigurau hyn, yr oedd canran y bobl nad oeddynt yn wyn yn disgyn i 5.2%. 3.2% o'r wynebau a ddangoswyd oedd yn bobl ddu, fodd bynnag dim ond 2% oedd yn bobl Asiaidd a Tsieineaidd a phrin iawn yr oedd ganddynt rannau mawr mewn rhaglenni. Ym Mawrth 2011, cafodd y sawl a greodd y gyfres Midsomer Murders, cyfres ddrama boblogaidd, ei wahardd o'i waith am wrthod caniatau i bobl nad oeddynt yn wyn ymddangos ar y rhaglen. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod nifer o drigolion BME a heb fod yn wyn yn byw yn yr ardal lle caiff y rhaglen ei ffilmio.

Mae dau faes lle y mae pobl heb fod yn wyn yn tueddu i gael eu gorgynrychioli yn y cyfryngau, sef chwaraeon a cherddoriaeth boblogaidd. Mae hyn yn bennaf oherwydd stereoteipio. Er hynny, ychydig iawn o Asiaid sydd yn chwarae pêl-droed, er bod cynghreiriau pêl-droed Asiaidd yn bodoli ac mae chwaraeon eraill yn tueddu i fod yn rhai gwyn yn unig. Mae Ann Phoenix wedi dadlau bod plant Du yn tyfu i fyny gan ddysgu oddi wrth y cyfryngau eu bod yn ddinasyddion eilradd. Mae'n werth nodi bod Didier Drogba, sy'n enwog fel pêl-droediwr wedi cael clod gan lawer am roi terfyn ar ryfel cartref yn y Traeth Ifori (Ivory Coast). Mae hyn o bosibl yn fwy arwyddocaol na'i allu ym myd chwaraeon, ond pery heb gael fawr sylw yn y papurau newydd tabloid.

## Cwestiynau

© CBAC / WJEC 2015

# Deall diwylliant (Cyfryngau Torfol)

1. Enwch gymeriadau nad ydynt yn wyn yn eich hoff raglenni teledu. Ydyn nhw'n cael eu portreadu'n dda?
2. Awgrymwch syniadau pam y gallai pobl Ddu fod yn cael eu cysylltu â chyfryngau chwaraeon neu gerddoriaeth.

## Allweddeiriau

- Opera Sebon - cyfres hir sy'n canolbwyntio ar ddramâu domestig.
- Dadansoddi cynnwys - dull o grynhoi cynnwys cynyrchiadau'r cyfryngau drwy edrych ar iaith neu gyfrif gwahanol agweddau.

© CBAC / WJEC 2015